RHYBUDD O GYFARFOD

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Jonathan Cawley
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF
Ffôn: (01766) 770274
E-bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod:	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Dyddiad:	Dydd Mercher 23 Medi 2026
Amser:	10.00 y.b.
Man Cyfarfod:	Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom

Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod
15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd
Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru
Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.

R H A G L E N

		Rhif Tudalen
1.	**Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**	
2.	**Diweddariad y Prif Weithredwr** Cyflwyno diweddariad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)	4 - 9
3.	**Hawl i'r Cyhoedd Holi** Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc. Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (drwy'r post neu e-bost) i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.	
4.	**Datgan Diddordeb** Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog.	
5.	**Cofnodion** Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2026 fel rhai cywir. (Copi yma)	10 - 19
6.	**Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**	
7.	**Taflen Weithredu** Cyflwyno'r Daflen Weithredu, er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)	20 - 22
8.	**Cynllun Archwilio APCE 2025** Cyflwyno adroddiad gan Reolwr Archwilio, Archwilio Cymru. (Copi yma)	23 - 48
9.	**Datganiad o Gyfrifon Drafft 2024/25** Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)	49 - 166
10.	**Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2025/26** Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)	167 - 182
11.	**Diweddariad ar y Gyllideb 2026-27** Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cyllid. (Copi yma)	183 - 191
12.	**Adroddiad y Cadeirydd ac Adroddiad Blynyddol 2025-26** Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Copi yma)	192 - 243

13. **Prosiect Tirweddau Byw Eryri** 244 - 245
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir (Copi yma)

14. **System Adolygu Perfformiad a Datblygu (APD) Aelodau ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru** 246 - 275
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr (Copi yma)

15. **Diweddariad Costau Prosiect Plas Tan y Bwlch** 276 - 277
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir (Copi yma)

16. **Adroddiad Gweithgor Aelodau** 278 - 281
Cyflwyno adroddiad cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2026. (Copi yma)

17. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**
Derbyn adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

Eitem Rhif 2

CYFARFOD	Awdurdod
DYDDIAD	23 Medi 2026
TEITL	**Diweddariad y Prif Weithredwr**
ADRODDIAD GAN	Prif Weithredwr
PWRPAS	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar rai o'r materion strategol a chorfforaethol allweddol sydd wedi codi ers y cyfarfod diwethaf

1. CYFLWYNIAD

2. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar rai o'r materion strategol a chorfforaethol allweddol sydd wedi codi ers ein cyfarfod diwethaf ar 10 Mehefin. Ni fwriedir iddi fod yn rhestr gynhwysfawr, - mae'n fwy o grynodeb o rai o'r materion allweddol dros yr wythnosau diwethaf.

3. MATERION CENEDLAETHOL:

4. Llywodraeth Cymru

5. Cyfarfod â Gweinidog y Cabinet:

6. Cyfarfu Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr pob Awdurdod Parc Cenedlaethol â Llyr Gruffydd, Gweinidog y Cabinet dros Wydnwch a Chynaliadwyedd Gwledig (GCGCG) fis diwethaf. Roedd hwn yn gyfarfod rhagarweiniol cychwynnol gyda ffocws ar sut y gall Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol gyfrannu at y Rhaglen Lywodraethu, materion cydweithredu effeithiol a materion sy'n ymwneud â chyllid hirdymor a chynaliadwy. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae llythyr dilynol yn cael ei ddrafftio i'r GCGCG sy'n nodi uchelgais Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â mwy o fanylion ar sut y gall Awdurdodau gyfrannu at y Rhaglen Lywodraethu. Byddaf yn ymdrechu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar unrhyw adborth sy'n deillio o'r llythyr hwn.

7. Rwy'n falch o ddweud bod ymrwymiad i gyfarfod bob 6 mis, ac edrychwn ymlaen at berthynas waith adeiladol gyda'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru.

8. Yn ogystal, anfonwyd llythyr at Heledd Fychan, Gweinidog y Cabinet dros Ddiwylliant a Chwaraeon, fis diwethaf gyda chyfeiriad penodol at gais Loteri Plas Tan y Bwlch, ynghyd â gwahoddiad i ymweld â'r Plas. Mae'r Awdurdod yn credu y gall y prosiect hwn wneud cyfraniad sylweddol at 'Weledigaeth ar gyfer Diwylliant' Llywodraeth Cymru, y mae galwad am dystiolaeth am hynny ar hyn o bryd (a bydd yr Awdurdod yn ymateb i hyn).

9. Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur

10. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio ar Gynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur cyntaf Cymru, a fydd yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a cholli natur gyda'i gilydd yn hytrach nag fel materion ar wahân. Yn gysylltiedig â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu Bwrdd Hinsawdd a Natur, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cabinet Llyr Gruffydd, i helpu i lunio'r cynllun a sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni yn unol â'r disgwyliadau. Bydd y cynllun yn gweithio tuag at y targed o sero net erbyn 2040 ac adferiad natur sylweddol erbyn 2050.

11. Bydd y Cynllun hwn yn amlwg yn uniongyrchol berthnasol i waith yr Awdurdod, ac rydym yn gobeithio y gallwn gyfrannu'n gadarnhaol tuag ato. Rydym wedi cyfeirio at hyn yn ein llythyr at y Gweinidog Cabinet ac wedi holi am fod gan y Parciau Cenedlaethol le ar y Bwrdd Hinsawdd a Natur sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd.

12. Aelodau'r Senedd (ASau)

13. O dan y system etholiadol newydd yng Nghymru, mae 2 etholaeth Seneddol bellach yn Eryri – Gwynedd Maldwyn a Bangor Conwy Môn, gyda 6 AS ym mhob un. Rydym wedi ysgrifennu at bob un o'r 12 AS yn eu gwahodd i ymweld a chael trafodaeth am waith yr Awdurdod yn gyffredinol ac unrhyw faterion perthnasol eraill. Hyd yma rydym wedi cwrdd â Beca Brown ac Elwyn Vaughan (y ddau AS Plaid Cymru dros Wynedd Maldwyn) ac Andrew Griffin (Reform, Gwynedd Maldwyn).

14. Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru

15. Bydd yr Awdurdod yn ymateb i'r papurau ymgynghori canlynol gan Lywodraeth Cymru sydd ar agor ar hyn o bryd:

    a. Papur Gwyn Prawf Gwledig a Chynaliadwyedd Amgylcheddol (dyddiad cau 14 Hydref 2026)

    b. Gweledigaeth ar gyfer diwylliant a chwaraeon yng Nghymru: galwad am dystiolaeth (dyddiad cau 18 Rhagfyr 2026)

    c. Camau cychwynnol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (dyddiad cau 20 Tachwedd)

16. Seminar Parciau Cenedlaethol Cymru, Bannau Brycheiniog, 8-9 Gorffennaf 2026

17. Cynhaliodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y digwyddiad uchod yn Llandeilo eleni. Agorodd y digwyddiad gyda chyflwyniad fideo gan Weinidog y Cabinet dros Wydnwch a Chynaliadwyedd Gwledig ac roedd yn cynnwys ymweliadau safle a chyflwyniadau ar Bartneriaethau Parciau Cenedlaethol, Ymddiriedolaethau Elusennol a chyfleoedd arallgyfeirio incwm.

18. Tirweddau Cymru Landscape Wales (TCLW) - Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol ar wella effeithlonrwydd a moderneiddio cyrff Tirwedd Dynodedig:

19. Credaf y bydd adroddiad drafft ar yr adolygiad annibynnol hwn dan arweiniad Howard Davies yn yr Hydref. Mynychodd Swyddogion y Parc Cenedlaethol gyfarfod ym mis Gorffennaf i roi adborth cychwynnol ar ddrafft sy'n dod i'r amlwg. Byddaf yn rhoi diweddariad i'r Aelodau unwaith y bydd mwy o fanylion yn hysbys.

20. MATERION RHANBARTHOL

21. Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru (CBCGC)

22. <u>Mehefin 2026 Pwyllgor Canolog CBC:</u>

23. Etholwyd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Canolog ym mhwyllgor mis Mehefin – sef ailethol y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) yn

Gadeirydd ac ethol y Cynghorydd Jason McClellan (Cyngor Sir Ddinbych) yn Is-gadeirydd.

24. Cyflwynodd Prif Weithredwr CBC adroddiad ar gynllunio corfforaethol, gan nodi mai ei bwrpas oedd rhoi trefn ar fframwaith clir ar gyfer sut y bydd y CBC yn gweithredu, yn blaenoriaethu ei adnoddau, ac yn dangos atebolrwydd wrth iddo symud ymlaen i'r cam nesaf o gyflawni rhanbarthol. Gohiriwyd y penderfyniad ar yr eitem hon er mwyn cael gwell dealltwriaeth gan Lywodraeth newydd Cymru am eu barn wrth gefnogi'r model hwn o ariannu'r Gronfa Twf Leol. Credaf y bydd adroddiad pellach ar hyn yn y cyfarfod nesaf yn ddiweddarach y mis hwn.

25. <u>CBC - Diweddariadau Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth Strategol a Llesiant Economaidd</u>

26. Is-bwyllgor Trafnidiaeth: Cyfarfod 13 Gorffennaf, 2026

- Etholwyd y Cynghorydd David Bithell yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor ar gyfer 2026/27 ac etholwyd y Cynghorydd Glyn Banks yn Is-gadeirydd.
- Cymeradwywyd y Cynllun Monitro a Gwerthuso ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r cynlluniau a ariennir gan y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid perthnasol.
- Nododd yr Aelodau gynnwys adroddiad sy'n hysbysu archwiliad o Gynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru gan Archwilio Cymru a gynhaliwyd ym mis Mai a Mehefin 2026.
- Gwneir argymhelliad i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn gofyn i awdurdod gael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid ac arweinwyr trafnidiaeth awdurdodau lleol perthnasol, i gymeradwyo a chyflwyno ceisiadau am newid rhanbarthol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoli'r rhaglen Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol yn ystod y flwyddyn.

27. Is-bwyllgor Cynllunio: Cyfarfod 1 Gorffennaf, 2026

- Etholwyd y Cynghorydd Nicola Roberts yn Gadeirydd ar yr Is-bwyllgor ar gyfer 2026/27 a'r Cynghorydd Hugh Jones fel Is-gadeirydd.
- Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa'r Cynllun Datblygu Strategol a'r camau nesaf. Bydd gwaith dros y 12 mis nesaf yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth gefndir, adroddiad cwmpasu asesiad effaith integredig, prif faterion, twf ac opsiynau gofodol, galwad am safleoedd a datblygu ac asesu opsiynau twf a gofodol.
- Cyflwynwyd y blaenraglen waith a'r amserlen.

28. Is-bwyllgor Economaidd a Llesiant: Cyfarfodydd 15 Mai 2026, 12 Mehefin 2026 a 17 Gorffennaf 2026

- Cyflwynwyd adroddiad perfformiad Chwarter 4.
- Cymeradwywyd Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2026-28
- Y Gronfa Twf Lleol yng Ngogledd Cymru – gwaith i barhau i sicrhau cynllunio ymlaen llaw ar gyfer mwy o gydweithredu rhanbarthol o 2027/28 ymlaen
- Cytunodd Bargen Twf Gogledd Cymru – Cytunodd y Gronfa Chwyddiant Costau i gefnogi prosiectau cymeradwy ar gyfer costau cynyddol na ellir eu lliniaru er mwyn sicrhau bod prosiectau'n symud ymlaen.
- Materion / safleoedd o ddiddordeb sy'n berthnasol i Eryri: dim.

29. MATERION LLEOL:

30. Recriwtio Staff

31. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod Tîm Arweinyddiaeth Eryri hyd at gapasiti llawn ers i Bethan Hughes ddechrau yn ei swydd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Sarah Roberts fel cymhorthydd gweinyddol rhan-amser.

32. Rwyf hefyd yn falch o gyhoeddi a chroesawu'r staff newydd canlynol i'r Awdurdod:

- Bryan Griffiths, Swyddog Croeso ac Ymgysylltu, Yr Ysgwrn
- Robin Jones – Technegydd Cymorth TG
- Alex Haycock, Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy (cyflenwi dros gyfnod mamolaeth)
- Tiffanny Kendall, Technegydd Cynllunio
- Rhian Rowlands, Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
- Morgan Whitley, Prentis Coedwigaeth
- Ned Feesey, Swyddog Prosiect, Ffermio Adfywiol INRS
- Seren Jones, Swyddog Cynnwys Digidol

33. Mae'r staff canlynol wedi gadael yr Awdurdod a hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniad i'n gwaith:

- Seren Moody, Prentis Coedwigaeth
- Sara Williams, Swyddog Cynnwys Digidol

34. Cais Loteri Plas Tan y Bwlch

35. Cyflwynwyd y cais Loteri uchod i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar ddechrau'r mis diwethaf. Bydd adroddiad diweddaru ar wahân yn cael ei ddarparu gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir i'r cyfarfod pwyllgor hwn. Disgwylir cael gwybod beth yw'r penderfyniad erbyn diwedd y flwyddyn.

36. Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – Cysylltiadau Tirwedd

37. Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod cais Cysylltiadau Tirwedd gwerth £10M dan arweiniad Coed Cadw ar gadwraeth coedwigoedd glaw tymherus yn nalgylchoedd Afon Mawddach, Dwyryd a Glaslyn wedi'i gyflwyno yn gynharach yn yr Haf. Mae Eryri yn bartner craidd ynghyd â'r RSPB, Plantlife a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

38. Efallai y bydd penderfyniad wedi'i wneud erbyn y Pwyllgor hwn. Bydd diweddariad llafar yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod.

39. Siarter Twf

40. Ym mis Gorffennaf, Eryri oedd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol cyntaf yng Nghymru i lofnodi 'Siarter Twf - Siarter y Gymraeg yn y Gweithle', a ddatblygwyd gan TUC Cymru. Datblygwyd y Siarter Twf gan TUC Cymru fel fframwaith galluogi sy'n helpu gweithwyr, eu hundebau llafur a'u cyflogwyr i weithio gyda'i gilydd i greu gweithleoedd dwyieithog cynhwysol a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Mae'r siarter yn seiliedig ar bedair egwyddor graidd: twf a hawliau'r Gymraeg, cynhwysiant a chyfiawnder ieithyddol, arweinyddiaeth ac atebolrwydd, a dysgu parhaus a meithrin hyder.

41. Mae hyn yn cadarnhau ein hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle a sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i ddefnyddio, datblygu a meithrin hyder yn eu sgiliau

Cymraeg, ynghyd â chyfrannu tuag at nodau Cymraeg 2050 a'r uchelgais genedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

42. Tanau gwyllt

43. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol o'r tanau gwyllt sydd wedi effeithio ar Eryri, a llawer o Gymru, yn dilyn y tywydd poeth a sych hir eleni. Ar hyn o bryd, nid oes gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol rôl ffurfiol o ran rheoli tir nac i ymateb pan fo tân. Mae trafodaethau wedi dechrau gyda chyrff statudol ac anstatudol i sefydlu a allwn gyfrannu at geisio rheoli'r hyn a fydd yn debygol o fod yn broblem gynyddol yn y blynyddoedd i ddod. O ystyried adnoddau cyfyngedig, rydym yn cymryd agwedd strategol a chymesur at y mater hwn a byddwn yn gallu adrodd yn ôl i'r Aelodau ar y mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

44. Ffermio Bro

45. Mae swyddogion Ffermio Bro yn parhau i gyflwyno cynllun Ffermio Bro yn llwyddiannus – ac fel y bydd yr Aelodau'n ymwybodol mae hyn hefyd yn cynnwys cefnogi'r cynllun o fewn Tirweddau Cenedlaethol Ynys Môn a Llŷn. Bydd yr Aelodau wedi cael cipolwg ar y cynllun ar waith yn ystod Diwrnod Datblygu Aelodau ym mis Mehefin, pan ymwelom â Fferm Pen yr Allt Uchaf ym Metws-y-Coed. Mae'r galw am brosiectau Ffermio Bro yn fwy na'r gyllideb gyfalaf o £1.13M a ddyrannwyd ar gyfer blynyddoedd 2 a 3, sy'n dangos y diddordeb sylweddol mewn cynhyrchu bwyd cynaliadwy, ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac i helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Fel Cadeirydd Panel Ffermio Bro, gallaf gadarnhau ei bod yn gadarnhaol iawn gweld y cydweithrediad ar raddfa tirwedd rhwng ffermydd a ffermwyr y mae'r rhaglen hon yn ceisio ei ddatblygu.

46. Secondiad yr Heddlu

47. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o secondiad yr Arolygydd Jason Diamond, Heddlu Gogledd Cymru i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn Haf 2024. Mae'r secondiad hwn wedi canolbwyntio ar amrywiaeth o faterion yn Eryri – gyda'r prif ffocws ar draffig a thrafnidiaeth a materion sydd a wnelo rheoli ymwelwyr. Mae'r secondiad wedi bod yn llwyddiant mawr a darparwyd cyngor arbenigol a chynrychiolaeth ar amrywiaeth o faterion. Rydym yn gobeithio gallu parhau i weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru gyda threfniadau tebyg yn y dyfodol – a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau wrth i hyn ddatblygu.

48. Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Jason am ei gyfraniad i waith yr Awdurdod a dymuno'r gorau iddo yn ystod ei ymddeoliad.

49. Pen-blwydd Eryri yn 75 oed

50. <u>Digwyddiad y DU ym Mharc Cenedlaethol y Peak District:</u>

51. Cefais y pleser o fynychu digwyddiad i ddathlu 75 mlynedd ers i'r 4 Parc Cenedlaethol cyntaf (Peak District, Lake District, Eryri a Dartmoor) gael eu dynodi ym Mhrydain, a gynhaliwyd yn Bakewell, yn y Peak District ym mis Gorffennaf. Arweiniodd APC y Peak District ar hyn gyda chefnogaeth gan APCau Eryri, Ardal y Llynnoedd a Dartmoor. Roedd y digwyddiad yn ddathliad o hanes Parciau Cenedlaethol ac yn cynnwys cyhoeddi llyfryn a gomisiynwyd yn annibynnol (awdur, Andrew McCloy) yn edrych ar hanes a chreu Parciau Cenedlaethol, llwyddiannau ar hyd y ffordd a rhai argymhellion ar gyfer y dyfodol. Ymhlith y siaradwyr roedd Mary Creagh (Gweinidog Parciau Cenedlaethol Lloegr), Andrew McCloy (awdur y llyfr), Simon Pickering (Pennaeth Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad, Llywodraeth Cymru) yn ogystal â Lleisiau Ieuenctid ar gyfer y Peak District.

52. <u>Digwyddiad Eryri – 'Miri Medi', Yr Ysgwrn 26 Medi</u>

53. Yn ogystal â'r digwyddiad yn y Peak District, mae Eryri wedi trefnu ein digwyddiad dathlu ein hunain, sef Miri Medi a fydd yn cael ei gynnal yn Yr Ysgwrn ar y 26ain o Fedi – a bydd yn cynnwys cerddoriaeth fyw, siaradwyr gwadd, stondinau partner, bwyd a diod, hen beiriannau a theithiau cerdded tywys. Gobeithiaf weld llawer o'n haelodau yn y digwyddiad hwn – a hoffwn hefyd ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cynnig gwirfoddoli a helpu ar y diwrnod.

54. Trefniant Gefeillio gyda Parque Nacional Los Alerces

55. Yn nigwyddiad Miri Medi, bydd Eryri hefyd yn llofnodi cytundeb gefeillio gyda Pharc Cenedlaethol Los Alerces, sydd wedi'i anelu at ddysgu arfer gorau gan ein gilydd ar fioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol, newid yn yr hinsawdd, rheoli ymwelwyr a materion ieithyddol.

56. Cyhoeddi Llyfr newydd: '*Eryri – Etifeddiaeth Fyw*'

57. Comisiynodd yr Awdurdod hefyd gyhoeddi llyfr – "Eryri: Etifeddiaeth Fyw" – i nodi pen-blwydd Eryri yn 75 oed, a lansiwyd hwn yn swyddogol yn Yr Ysgwrn ym mis Mehefin. Mae pob pennod yn seiliedig ar un o 'Rhinweddau Arbennig' Eryri ac mae gwahanol awduron annibynnol wedi cyfrannu at bob pennod. Mae'r llyfr yn ddathliad ardderchog o'r Parc Cenedlaethol gydag ysgrifennu gwych a ffotograffau trawiadol – sy'n werth ei ddarllen.

58. **Argymhelliad**

59. I'r Aelodau nodi'r adroddiad diweddaru ar rai o'r materion strategol a chorfforaethol ers ein cyfarfod diwethaf a chodi unrhyw gwestiynau neu faterion perthnasol.

COFNODION
CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 10 MEHEFIN 2026
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru
Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

Swyddogion
Jonathan Cawley, Iwan Jones, Bethan Hughes, Keira Sweenie, Naomi Jones, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Edward Jones, Nia Roberts, Eifion Jones.

Hefyd yn Bresennol
Mark Jones (Aelod Annibynnol)

1. **Cadeirydd**

Amlinellodd y Darpar Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd ar yr Awdurdod. Cyhoeddodd ei bod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig enwau y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd ac Edgar Wyn Owen.

Gwahoddwyd y ddau i gyfarch y cyfarfod a chafwyd cyflwyniad yr un ganddynt.

Cynhaliwyd pleidlais ac ***etholwyd*** Ifor Glyn Lloyd yn Gadeirydd yr Awdurdod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. **Is-gadeirydd**

Amlinellodd y Darpar Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Is-gadeirydd ar yr Awdurdod. Cyhoeddodd ei bod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn dau enw fel Is-gadeirydd, sef Ifor Glyn Lloyd ac Edgar Wyn Owen. Gan fod Ifor Glyn Lloyd newydd ei ethol yn Gadeirydd, un enw oedd yn aros i fod yn Is-gadeirydd, sef Edgar Wyn Owen.

Etholwyd Edgar Wyn Owen, felly, yn Is-gadeirydd ar yr Awdurdod.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

Cyhoeddodd y Darpar Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ar y we, ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Meryl Roberts.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth. Diolchodd i'r cyn-gadeirydd, Edgar Wyn Owen, am ei arweiniad fel Cadeirydd yr Awdurdod dros y blynyddoedd ac am ei gymorth a'i arweiniad iddo ef yn bersonol tra oedd yn Is-gadeirydd.

Croesawyd Bethan Hughes i'r cyfarfod yn ei rôl newydd fel Darpar Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Dymunwyd y gorau i Iwan Jones ar ei ymddeoliad, a phob hwyl iddo yn ei *gamperfan*!

Cydymdeimlwyd â Sian Owen, Pennaeth yr Adran Cyllid, ar golli ei thad yn ddiweddar.

4. **Diweddariad Corfforaethol**

Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

Llongyfarchodd Ifor Glyn Lloyd ar ei ethol yn Gadeirydd ac Edgar Wyn Owen yn Is-gadeirydd;

Adroddodd:

- fod Sesiwn Galw-i-mewn wedi ei gynnal yn y Plas a chafwyd ymateb da;
- fod Peter Lord wedi rhoi darlith yn Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth. Cafwyd peth anhawster gyda'r cyfieithu a diolchodd i Naomi Jones am gamu i'r adwy a chynnig cyfieithu ar y pryd;
- ei fod wedi mynychu cyfarfod gyda Gwasanaeth Natur Cymru, a oedd yn fenter newydd draws-Cymru; adroddodd ei bod wedi derbyn grant o £0.5M gan y Loteri Genedlaethol, a'i fod yn gobeithio cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth;
- mai dyma oedd cyfarfod Awdurdod olaf Iwan Jones, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Diolchodd iddo am ei holl wasanaeth dros y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

  Mewn ymateb, diolchodd Iwan Jones i'r Prif Weithredwr ac i'r Aelodau. Dywedodd ei fod wedi gweld 7 Cadeirydd yn ei amser gyda'r Awdurdod, ei fod wedi gweld cryn dipyn o newid, a chysondeb hefyd. Nododd nad oedd y Pwyllgor Safonau wedi gorfod cynnal yr un ymchwiliad dros y blynyddoedd roedd wedi gweithio i'r Awdurdod a bod hynny'n brawf o ymroddiad yr Aelodau.

5. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Ni dderbyniwyd cwestiwn gan y cyhoedd.

6. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

7. **Aelodaeth o'r Awdurdod**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr ar aelodaeth gyfredol o'r Awdurdod, er gwybodaeth, a gofynnodd i'r Aelodau gadarnhau bod eu manylion yn gywir.

Nodwyd bod paragraff olaf yr adroddiad yn anghywir ac mai enw a chyfeiriad e-bost Aelodau'n unig a fyddai'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Penderfynwyd: — **nodi'r** adroddiad**.**

8. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2026.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

9. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

10. **Taflen Weithredu**

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Darpar Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Nodwyd nad oedd unrhyw eitem ynddi.

11. **Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yn allanol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn datgan bod yn rhaid penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yn allanol

Adroddwyd:

- bod cylch gorchwyl Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar fin cael ei adolygu ac y byddai adroddiad ar y mater yn cael ei gyflwyno i Awdurdod mis Medi.

Cytunwyd:

- i ymchwilio i greu Grŵp Llywio neu Grŵp Tasg a Gorffen i Natur yn benodol (un ai fel grŵp ar wahân neu fel rhan o'r grŵp Newid Hinsawdd), ac i adrodd i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi gydag argymhelliad.

Penderfynwyd: — **penodi** Aelodau fel a ganlyn:

1. PWYLLGORAU

1.1 **Pwyllgor Cynllunio a Mynediad** — Holl Aelodau'r Awdurdod (8 cyfarfod y flwyddyn)

1.2 **Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** — Holl Aelodau'r Awdurdod (3 chyfarfod y flwyddyn)

1.3 **Pwyllgor Safonau** — 3 Aelod o'r Awdurdod – am gyfnod o 4 blynedd (2 gyfarfod y flwyddyn)

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

(1) Cyng. Elfed Powell Roberts (hyd at 13/06/30)
(2) Cyng. Nia Owen (hyd at 12/11/28)

1 gan Lywodraeth Cymru:

(1) Ms Naomi Luhde-Thompson (hyd at 12/11/28)

3 Aelod Annibynnol:

(1) Mr Mark Jones (hyd at 25/04/28)
(2) Mr Robert Gwilym Evans (hyd at 29/04/29)
(3) Gwag

2. PANELI

2.1 **Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl** — 3 Aelod + 2 Aelod Wrth Gefn (cwrdd fel bo'r angen)

Dylid dethol yr Aelodau a'r Aelodau wrth gefn o'r Pwyllgor Safonau, a chael eu dewis gan y Pwyllgor hwnnw

2.2 **Paneli Ymweld**

Gogledd

(1) Cyng. Edgar Wyn Owen
(2) Cyng. Einir Wyn Williams
(3) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
(4) Cyng. Jo Nuttall
(5) Cyng. Nia Owen
(6) Mr Rhys Evans
(7) Dr Salamatu Fada
(8) Ms Naomi Luhde-Thompson
(9) Mr Wyn Thomas

De

(1) Cyng. Elwyn Edwards
(2) Cyng. Delyth Lloyd Griffiths
(3) Cyng. Annwen Hughes
(4) Cyng. Louise Hughes
(5) Cyng. Elfed Powell Roberts
(6) Cyng. John Pughe Roberts
(7) Cyng. Meryl Roberts
(8) Mr Tim Jones
(9) Ms Delyth Lloyd

2.3 **Panel Ymgynghorol Ffermio Bro**

(1) Dr Salamatu Fada
(2) Mr Tim Jones (dirprwy)

3. **GWEITHGORAU**

3.1 **Gweithgor Aelodau** — Holl Aelodau'r Awdurdod (8 cyfarfod y flwyddyn)

3.2 **Cyd-weithgor Lleol** — 4 Aelod (2 Gyfarfod y flwyddyn)

3 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

(1) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
(2) Cyng. Elwyn Edwards
(3) Cyng. Einir Wyn Williams

1 gan Lywodraeth Cymru:

(1) Ms Naomi Luhde-Thompson

4 Cynrychiolydd o'r Undebau Llafur wedi'u dyrannu yn ôl Cyfansoddiad y Gweithgor

3.3 **Bwrdd Rheoli Yr Ysgwrn** - 3 Aelod o'r Awdurdod (yn cyfarfod fel bo'r angen)

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

(1) Cyng. Elfed Powell Roberts
(2) Cyng. Elwyn Edwards

1 gan Lywodraeth Cymru:

(1) Ms Naomi Luhde-Thompson

3.4 **Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch** — 3 Aelod o'r Awdurdod (Cwrdd fel bo'r angen)

(1) Cyng. Meryl Roberts
(2) Mr Tim Jones
(3) Cyng. Elfed Powell Roberts

4. PWYLLGORAU YMGYNGHOROL YR AWDURDOD

4.1 **Cynhadledd Ymgynghorol Celyn, Tegid a Thryweryn** — 4 Aelod o'r Awdurdod (yn cyfarfod fel bo'r angen)

3 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

(1) Cyng. Elwyn Edwards
(2) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
(3) Cyng. John Pughe Roberts

1 gan Lywodraeth Cymru:

(1) Mr Rhys Evans

4.2 **Fforwm Eryri** — 5 Aelod o'r Awdurdod (4 cyfarfod y flwyddyn – pob chwarter)

Cadeirydd

Is-gadeirydd

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

(1) Cyng. Annwen Hughes
(2) Cyng. Meryl Roberts

1 gan Lywodraeth Cymru:

(1) Ms Delyth Lloyd

4.3 **Fforymau Mynediad Lleol** — 2 Aelod o'r Awdurdod (4 cyfarfod y flwyddyn – pob chwarter)

1 Aelod ar Fforwm Mynediad y De:

(1) Cyng. John Pughe Roberts

1 Aelod ar Fforwm Mynediad y Gogledd:

(1) Mr Tim Jones

4.4 **Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (CBC)** — 1 Aelod o'r Awdurdod

Un aelod i'w ddewis o:

(i) Gadeirydd yr Awdurdod
(ii) Is-gadeirydd yr Awdurdod
(iii) Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad
    (1) Cadeirydd yr Awdurdod

4.5 **Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd (CJC)** — Cadeirydd yr Awdurdod

Mae'r Cadeirydd wedi ei gyfethol i'r is-bwyllgorau isod:

(i) Is-bwyllgor Economaidd a Llesiant
(ii) Is-bwyllgor Trafnidiaeth

5. GRWPIAU TASG A GORFFEN A GRWPIAU LLYWIO

5.1 **Is-grŵp Asedau** — 6 Aelod o'r Awdurdod

(1) Cyng. Delyth Lloyd Griffiths
(2) Cyng. Meryl Roberts
(3) Cyng. Einir Wyn Williams
(4) Cyng. Nia Owen
(5) Mr Tim Jones
(6) Mr Wyn Thomas

5.2 **Grŵp Llywio Cyfrif Carbon a Newid Hinsawdd** — 5 Aelod o'r Awdurdod

(1) Cyng. John Pughe Roberts
(2) Ms Delyth Lloyd
(3) Mr Tim Jones
(4) Ms Naomi Luhde-Thompson
(5) Dr Salamatu Fada

5.3 **Grŵp Llywio Enwau Lleoedd** — 3 Aelod o'r Awdurdod

(1) Cyng. Elwyn Edwards
(2) Cyng. Einir Wyn Williams
(3) Cyng. Nia Owen

6. CYRFF ERAILL

6.1 **Grŵp Budd-ddeiliad Safle Trawsfynydd** (1 Aelod) – Ms Delyth Lloyd

6.2 **Cyd Gyngor Cymru** (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes

6.3 **Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol** – Cytunwyd bod 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru yn cael eu cynrychioli gan Aelod o'r Awdurdod sy'n dal Ysgrifenyddiaeth Parciau Cenedlaethol Cymru (1 Aelod) – Mr Tim Jones

6.4 **Y Gynghrair dros Dirweddau Dynodedig Cymru** (1 Aelod) – Mr Tim Jones

6.5 **Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes

6.6 **AGA Pen Llŷn a'r Sarnau** (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes

6.7 **Grŵp Darparu Trafnidiaeth, Parcio a Theithio Llesol Eryri** (1 Aelod) – Cyng. Einir Wyn Williams

6.8 **Fforwm Strategol y Rhaglen Ynys Ynni** (1 Aelod) – Cyng. Elfed Powell Roberts

6.9 **Partneriaeth Biosffer Dyfi** (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes

6.10 **Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian** (1 Aelod) – Cyng. Meryl Roberts
(Cyng. Delyth Lloyd Griffiths wrth gefn)

12. **Presenoldeb Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Darpar Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgorau o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

Penderfynwyd: — **nodi'r** adroddiad, er gwybodaeth**.**

13. **Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Adroddwyd ar weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Diolchodd y Darpar Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i Mr Mark Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau am ei adroddiad ac am ei waith fel Cadeirydd.

Argymhellwyd: – trafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

14. **Safonau'r Iaith Gymraeg**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Adroddwyd:

- ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar ei berfformiad yn erbyn y Safonau Iaith Gymraeg yr oedd yr Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt o dan yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i'r Awdurdod gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg;
- bod tair rhan i'r adroddiad, sef
    - Crynodeb Gweithredol, a oedd yn crynhoi'r prif faterion o bwys mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a godwyd yn ystod y flwyddyn;
    - Crynodeb byr o berfformiad yr Awdurdod yn erbyn y 176 o safonau a osodwyd ar yr Awdurdod;
    - Atodiad, a oedd yn rhoi data ar staff yr Awdurdod a'u gallu i siarad Cymraeg.

Trafodwyd yr adroddiad ac *eglurwyd*:

- mai nod y prosiect Chwalu Mythau oedd dangos nad oedd yn rhaid i allu rhywun yn y Gymraeg fod yn berffaith cyn ei defnyddio, ac i ddangos fod y Gymraeg yn ddefnyddiol i gael swydd.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

15. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Adroddwyd:

- bod cynhyrchu Datganiad ar Reolaeth Fewnol (SIC) blynyddol yn ofynnol gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- bod y datganiad yn darparu crynodeb o holl faterion llywodraethiant o bwys a ddigwyddodd dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf;
- byddai'r datganiad yn ffurfio rhan o gyfrifon terfynol yr Awdurdod am 2025-26;

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

16. **Dangosyddion Perfformiad**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad eisoes wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i fod yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod er gwybodaeth.

Trafodwyd yr adroddiad a *nodwyd*:

- bod lleihau defnydd car mewn ardal wledig yn anodd iawn, ond bod y Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Eryri yn gyfleoedd i ystyried y mater.

Argymhellwyd: – bod yr Aelodau'n nodi'r cynnwys o'r Dangosyddion yn Atodiad 1.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

17. **Prosiect Datblygu Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir

Adroddwyd y sefyllfa ddiweddaraf

Trafodwyd yr adroddiad a *nodwyd*:

- bod cadw ymgysylltiad a diddordeb mewn prosiect mor hir yn broblem fawr, un yr oedd y tîm prosiect yn ymwybodol iawn ohoni

Argymhellwyd: – bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r prosiect i'w gyflwyno i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar ffurf cais cyfnod datblygu ym mis Awst 2026, gyda diweddariad pellach i'w gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror 2027.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

18. **Polisi, Strategaeth a Chynllun Rheoli Asedau 2026-31**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo

Diolchodd i'r Is-grŵp Asedau am eu gwaith manwl yn trafod a pharatoi'r ddogfen.

Argymhellwyd: – bod yr Aelodau'n derbyn a mabwysiadu'r ddogfen, "Polisi, Strategaeth a Chynllun Rheoli Asedau 2026-2031" fel yr argymhellir gan yr Is-grŵp Asedau.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

19. **Strategaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu 2026-31**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu

Adroddwyd mai prif amcanion y strategaeth oedd:

- cryfhau seibr-ddiogelwch
- moderneiddio'r systemau ac ystyried Deallusrwydd Artiffisial (DA)
- gwella'r gwasanaeth digidol
- datblygu sgiliau staff ac Aelodau

Trafodwyd yr adroddiad a *nodwyd*:

- bod Canolfannau Data ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial (DA) yn defnyddio llawer o ynni a dŵr a bod cost amgylcheddol i ddefnyddio DA;
- bod DA yn debygol o barhau a dylid cael arweiniad ar ei defnyddio gan arbenigwr;
- bod gan yr Awdurdod bolisi mewnol ar DA;

Argymhellwyd: – bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r strategaeth systemau gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer yr Awdurdod am y 5 mlynedd nesaf.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

20. **Meysydd Parcio – Oriau Agor**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr

Adroddwyd:

- mai'r nod oedd
    - caniatáu parcio dros nos i'r rheini oedd am wneud hynny er mwyn defnyddio'r Parc, ond atal defnyddio'r meysydd parcio fel lleoedd i wersylla, a
    - sicrhau fod y penderfyniad a wneid yn dod â budd economaidd i'r cymunedau lleol;
- bod perygl disodli'r broblem i lecynnau eraill;
- byddai angen amser i gyd-weithio gyda chyrff a sefydliadau eraill i ddatrys y broblem.

Trafodwyd yr adroddiad a *nodwyd*:

- ei bod yn broblem ddyrys;
- dylid ceisio dysgu gan barciau cenedlaethol mewn ardaloedd eraill oedd wedi gorfod wynebu sefyllfaoedd tebyg;
- dylid edrych i weld a allai newid polisi cynllunio'r Awdurdod gynnig rhai ffyrdd i leddfu'r broblem;
- dylid ystyried creu grŵp tasg neu grŵp llywio i ymchwilio'r mater.

Argymhellwyd: – bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r argymhellion canlynol, sef:

a. Parhau i ddefnyddio'r maes parcio 24 awr y dydd ledled y Parc Cenedlaethol (ac eithrio (c) isod);

b. Cynnal adolygiad o barcio ceir ledled y Parc Cenedlaethol, gyda'r nod o ddod o hyd i atebion i reoli a lliniaru effeithiau gwersylla dros nos mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r Awdurdod (ac o bosibl meysydd parcio eraill) – adrodd hyn yn ôl i'r Aelodau erbyn cyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi;

c. Cau meysydd parcio Llyn Tegid a Llangywer am 2 awr yng nghanol y nos (er enghraifft, rhwng 01:00 a 03:00) fel astudiaeth beilot 12 mis, gyda'r bwriad o geisio rheoli gwersylla dros nos yn y lleoliadau penodol hyn. Byddai casgliad yr astudiaeth beilot yn cael ei adrodd yn ôl i'r Aelodau yng nghyfarfod y Gweithgor Aelodau mis Rhagfyr;

ch. Cyflwyno adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi yn cynnig strwythur addas – Grŵp Tasg/Llywio Parcio (neu Drafnidiaeth) – i symud y gwaith yma yn ei flaen.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

21. **Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2026 er gwybodaeth.

Penderfynwyd: — **nodi'r** cofnodion.

22. **Adroddiad y Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiad ar gyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 13 Mai 2026.

Penderfynwyd: — **nodi'r** adroddiad.

23. **Adroddiad y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynwyd adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2026.

Penderfynwyd: — **nodi'r** adroddiad.

24. **Adroddiad y Cyd-weithgor Lleol**

Cyflwynwyd adroddiad ar gyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2026.

Penderfynwyd: — **nodi'r** adroddiad.

25. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Adroddwyd na fu i unrhyw Aelod fynychu unrhyw gyfarfod sefydliad arall ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:15

TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

O GYFARFOD YR AWDURDOD – 10.06.26

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
11. Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yn allanol **3.4 Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**	Adolygu cylch gorchwyl y bwrdd rheoli ac, o bosib, ehangu nifer yr aelodaeth (yn ddibynnol ar gasgliadau'r adolygiad).	Cyflwyno adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi	Bethan Hughes a Naomi Jones	Medi 26 Bydd Adroddiad trafod gerbron Gweithgor Aelodau mis Hydref ac i ddilyn Awdurdod Rhagfyr.	
11. Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yn allanol **5 Grwpiau Tasg a Gorffen a Grwpiau Llywio**	Creu Grŵp Tasg/Llywio Natur – un ai'n ei gyfuno gyda/o dan y Grŵp Llywio Cyfrif Carbon, neu greu un ar wahân.	Dod ag argymhelliad gerbron yr Awdurdod ym mis Medi	JC	Medi 26 Bydd Adroddiad trafod gerbron Gweithgor Aelodau mis Hydref ac i ddilyn Awdurdod Rhagfyr.	
20. Meysydd Parcio – Oriau Agor	Creu Grŵp Tasg/Llywio Parcio (neu Drafnidiaeth)	Dod ag argymhelliad gerbron yr Awdurdod ym mis Medi	JC	Medi 26 Bydd Adroddiad trafod gerbron Gweithgor Aelodau mis Hydref ac i ddilyn Awdurdod Rhagfyr.	

TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

O GYFARFOD Y GWEITHGOR AELODAU – 24.06.26

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
5. Newidiadau i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2026	Dylid gofyn i'r Llywodraeth ail-ystyried codi'r cyfanswm o ddyddiau ceir defnyddio unrhyw dir fel gwersyll hamdden o 28 i 60 o fewn y Parc fel mewn mannau eraill	Gofyn i Lywodraeth Cymru godi cyfanswm y dyddiau a ganiateid i ddefnyddio unrhyw dir fel gwersyll hamdden o fewn tir y Parc o 28 diwrnod i 60 diwrnod y flwyddyn	KS	Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau (KS) wedi cysylltu gyda Llywodreth Cymru	**Dileu**
6. Ymateb drafft i'r Ymgynghoriadau Ardoll Ymwelwyr Arfaethedig yng Nghyngor Conwy a Chyngor Gwynedd	Dylid ychwanegu sylw i'r ymateb yn nodi dylid ymestyn yr ardoll i Gymru gyfan gan ei wneud yn haws i'w weithredu	Golygu'r ymateb	KS	Ymatebion wedi eu hanfon i ymgynghoriadau Cynghorau Gwynedd a Conwy. Wedi copio Ynys Môn i mewn er gwybodaeth iddynt	**Dileu.**
8. Cyflwyno System Adolygu Perfformiad a Datblygiad (APD) Aelodau	Cyflwyno'r System Adolygu Perfformiad a Datblygiad (APD) i'r Aelodau ei fabwysiadu	Cyflwyno adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod i fabwysiadu'r cynllun Golygu a symleiddio'r Dogfennau Newid yr hunanasesiadau fel eu bod yn cynnwys gwaith bob dydd yr Aelodau	JC (a EJ?)	Medi 26 Adroddiad gerbon Cyfarfod APCE Medi, 2026	**Dileu.**

TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

O GYFARFOD Y PWYLLGOR PERFFORMIAD – 15.07.26

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
7. Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol	bod y Prif Weithredwr yn adolygu'r "Pecyn Cymorth Rheoli Prosiect" a gymeradwywyd yn 2019	Cyflwyno adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod	JC	Bydd Adroddiad gerbron Awdurdod Rhagfyr.	

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllun Archwilio 2025

Blwyddyn archwilio: 2025 a 2026

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2026

Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Ein nodau a'n huchelgeisiau	6
Gwaith archwilio ariannol	7
Gwaith archwilio perfformiad	16
Swyddogaethau archwilio statudol eraill	19
Ffi archwilio	19
Tîm archwilio	22
Ansawdd archwilio	24
Eich cynorthwyo	25

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd o ran unrhyw ddibyniaeth neu ddefnydd arall o'r ddogfen hon gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn ei swyddogaeth unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu anfonwch e-bost at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad

Catherine Mealing-Jones

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Rwy'n falch o rannu fy Nghynllun Archwilio diweddaraf gyda chi. O ystyried yr oedi parhaus i'r amserlen archwilio ariannol, mae'r cynllun archwilio hwn yn cwmpasu'r archwiliad o ddatganiadau ariannol 2024-25 a rhaglen archwilio perfformiad 2026-27

Mae fy nhîm archwilio wedi datblygu'r Cynllun yn dilyn proses gynlluniau strwythuredig a seiliedig ar risg, a fydd yn parhau drwy gydol yr archwiliad. Mae fy Nghod Ymarfer Archwilio yn rhoi rhagor o fanylion ar sut y bydd fy archwiliad a swyddogaethau eraill penodol yn cael eu cyflawni gan fy archwilwyr.

Wrth graidd ein holl waith y mae ein hymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o uniondeb proffesiynol, gwrthrychedd, annibyniaeth ac ansawdd archwilio. Mae ein model tair llinell o sicrwydd (tudalen 24) yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod y safonau hynny o ansawdd yn cael eu bodloni. Mae ein hadroddiad ansawdd blynyddol diweddaraf, Adroddiad Ansawdd Archwilio, yn cynnig mwy o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio.

Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio'n adeiladol gyda'ch staff i ddeall y materion sy'n eich wynebu, i sicrhau bod y broses archwilio yn gweithredu mor ddidrafferth â phosibl, ac i ddarparu gwybodaeth werthfawr am unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae fy rhaglen waith perfformiad, fel yr amlinellir yn y Cynllun hwn, yn bodoli ochr yn ochr â gwaith archwilio cenedlaethol arall a allai gynnwys sylw i'ch sefydliad chi. Gall gwaith archwilio perfformiad lleol hefyd lywio adroddiadau cenedlaethol ehangach.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am eich archwiliad, bydd fy nhîm archwilio yn hapus i'w trafod â chi. Byddant hefyd yn rhoi gwybodaeth reolaidd i chi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Ein nodau a'n huchelgeisiau

Ein diben

- Sicrhau pobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda
- Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario
- Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

Ein gweledigaeth

- Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder gwybodaeth unigryw
- Cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodedig, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad, a'n perthnasedd
- Bod yn sefydliad sy'n esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Ein meysydd o bwyslais

- Rhaglen archwilio strategol, ddynamig, ac o ansawdd uchel
- Dull wedi'i dargedu ac effeithiol o gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu

Gallwch ddarganfod mwy am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2026-27 ac Ein Strategaeth 2022-27.

Gwaith archwilio ariannol

Archwilio datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi adroddiad ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' a'u paratoad priodol yn unol â gofynion cyfrifyddu a chyfreithiol.

Byddaf hefyd yn adrodd drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fwy manwl yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Yn ogystal â'm cyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod), rwyf hefyd yn gyfrifol am ymateb i gwestiynau am y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol (bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi am y gwaith hwn, os oes angen);

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

Perthnasedd datganiadau ariannol

Nid wyf i'n ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig, ond yn mabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai arwain at ddarllenydd y cyfrifon yn cael ei gamarwain. Mae perthnasedd yn berthnasol nid yn unig i gamddatganiadau ariannol, ond hefyd i ofynion datgelu a chydymffurfiad â'r fframwaith a'r gyfraith gyfrifyddu berthnasol.

Rwy'n pennu perthnasedd cynllunio a pherfformiad i:

- benderfynu ar lefel y camddatganiad a allai achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain;
- cynorthwyo yn y gwaith o gwmpasu ein dull archwilio a phrofion archwilio canlyniadol;
- penderfynu ar faint samplau;
- asesu effaith camddatganiadau hysbys a thebygol yn y datganiadau ariannol; ac
- adrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu uwchben lefel ddibwys, ein trothwy adrodd.

Nodir y lefelau yr wyf i'n barnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol arnynt isod.

Perthnasedd cynllunio

Yn cynrychioli 2% o wariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol a archwiliwyd 2023/24.

£235,000

Trothwy adrodd (dibwys)

Yn cynrychioli 5% o berthnasedd.

£12,000

Ceir rhai rhannau o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon, ac rydym wedi gosod lefel berthnasedd is ar gyfer y rhain:

Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol	Datgeliadau partïon cysylltiedig
£1,000	£10,000 (unigolion)

Bydd fy nhîm archwilio yn asesu lefelau perthnasedd drwy gydol yr archwiliad.

Risgiau datganiadau ariannol sylweddol

Risgiau o gamddatganiad perthnasol y mae'r asesiad o risg gynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm o risg gynhenid neu'r rhai y dylid eu trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) eraill yw risgiau sylweddol. Mae'r ISAs yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi mwy o sylw i'r risgiau sylweddol hyn.

Risg o wrthwneud gan reolwyr

Mae'r risg y bydd rheolaethau yn cael eu gwrthwneud gan reolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.32-33].

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tuedd; a
- gwerthuso'r rhesymeg sy'n sail i unrhyw drafodiadau sylweddol y tu allan i'r trywydd busnes arferol.

Meysydd eraill o bwyslais

Rwy'n nodi isod risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a nodwyd ac yr hoffwn dynnu eich sylw atynt, er na ystyrir eu bod yn risgiau sylweddol fel yr uchod.

Prisio rhwymedigaeth net/gwarged cronfa bensiwn

Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ei gyfrifo.

Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog hefyd yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth. Ar 31 Mawrth 2024 er enghraifft, roedd y rhwymedigaeth yn warged mewn gwirionedd, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.

Mae yna hefyd nifer o achosion cyfreithiol a allai effeithio ar brisiad rhwymedigaeth net.

Mae risg felly bod y rhwymedigaeth/gwarged yn cael ei gam-ddatgan yn berthnasol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- gwerthuso'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;
- asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarperir gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;
- profi cywirdeb rhwymedigaeth net a datgeliadau'r gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd oddi wrth yr actiwari;
- asesu pa mor rhesymol yw'r rhagdybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol;
- asesu pa un a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith perthnasol ar y rhwymedigaeth net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi cael ei gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.

Prisio tir ac adeiladau

Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a nodiadau gyda'r cyfrifon yn amcangyfrifon perthnasol.

Mae'n ofynnol cadw tir ac adeiladau ar sail prisio sy'n ddibynnol ar natur a'r defnydd o'r asedau. Mae'r amcangyfrif hwn yn amodol ar lefel uchel o oddrychedd, yn dibynnu ar ragdybiaethau arbenigol a rhagdybiaethau'r

rheolwyr, a gall newidiadau yn y rhain arwain at newidiadau perthnasol i brisiadau.

Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ond gall gwerthoedd hefyd newid o flwyddyn i flwyddyn, ac mae risg y gallai gwerth cario ymlaen asedau a gydnabyddir yn y cyfrifon fod yn berthnasol wahanol i werth presennol asedau ar 31 Mawrth 2025, yn enwedig yn yr amgylchedd economaidd presennol.

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu'r wybodaeth a ddarperir i'r prisiwr i asesu ar gyfer cyflawnrwydd;
- gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;
- profi sampl o asedau a ailbrisiwyd yn y flwyddyn i sicrhau bod y sail brisio, y data a'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir yn y broses brisio yn rhesymol, a bod yr ailbrisiadau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol; a
- profi'r cysoni rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau.

Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion

Bu sawl penodiad newydd i swyddi uwch yn ystod 2024-25.

Mae risg na ddatgelir y rhain yn briodol yn y datganiadau ariannol. Gan fod cydnabyddiaeth ariannol a delir i uwch swyddogion yn parhau i fod o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol o ran natur. mae risg y gallai hyd yn oed gamgymeriadau gwerth isel yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- deall y symudiadau yn yr uwch dîm rheoli yn ystod 2024-25;
- sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelir yn gyson â thystiolaeth ategol;
- sicrhau bod y symiau a delir yn gyson â'r rhai a gymeradwyir gan yr Awdurdod;

- sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac yn cael eu paratoi yn unol â gofynion.

Gweithredu Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR) 16 - Lesoedd

Mae'n ofynnol i gyrff Llywodraeth Leol fabwysiadu SAAR 16 Lesoedd o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

Mae hyn yn newid yn sylweddol y driniaeth a'r datgeliadau cyfrifyddu sy'n ofynnol ar gyfer asedau ar les ac mae'n golygu y bydd y rhan fwyaf o lesoedd yn arwain at ased a rhwymedigaeth ar fantolenni.

Mae risg nad yw gofynion SAAR yn cael eu mabwysiadu'n briodol ac o ganlyniad mae'r datganiadau ariannol yn cael eu cam-ddatgan yn berthnasol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu'r papurau gwaith yr Awdurdod i sicrhau bod yr holl lesoedd sy'n dod o fewn cwmpas y Safon wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau;
- profi sampl o gyfrifiadau asedau a rhwymedigaeth i sicrhau bod y rhagdybiaethau'n rhesymol, a bod cyfrifiadau wedi'u paratoi'n gywir;
- cadarnhau bod gwerthoedd asedau a rhwymedigaeth wedi'u cyfrif yn gywir a'u datgelu yn y datganiadau ariannol.

Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng y corff a'r corff/parti arall.

Mae gan y corff lawer o berthnasoedd y gellid eu hystyried yn bartïon cysylltiedig. Mae llawer yn adnabyddus er enghraifft, Llywodraeth Cymru fel cyllidwr.

Fodd bynnag, lle mae perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi trwy berthnasoedd swyddog neu aelod unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder o ran y cysylltiadau hyn. Mae'r trafodion hyn o ddiddordeb mawr ac yn cael eu hystyried yn berthnasol o ran natur.

Mae perygl o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu proses y rheolwyr ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodiadau a balansau cysylltiedig;
- ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd partïon cysylltiedig;
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Ceir amserlen isod yn dangos camau allweddol yr archwiliad a'n hagweddau allweddol i'w cyflawni yn yr archwiliad y byddwn yn eu darparu i chi.

Arddangosyn 1: Amserlen Archwilio Datganiadau Ariannol

Cynllunio **Ebrill 2026**	Cyfarfod cynllunio Gweithdrefnau asesu risg lefel uchel Asesiad risg twyll Cynllunio amcangyfrifon cyfrifyddu Asesiad risg amgylchedd TG Ffi archwilio ddangosol
Interim **Ebrill 2026**	Llifoedd gwybodaeth Gweithdrefnau asesu risg manwl Adolygiad rheolaethau TG Datblygu strategaeth brofi
Gwaith maes **Medi i Dachwedd 2026**	Diweddaru'r asesiad risg Archwilio datganiadau ariannol i gynnwys adroddiad naratif a datganiad llywodraethu blynyddol Cwblhau profion archwilio Gwerthuso canfyddiadau archwilio Cyfarfod cloi'r archwiliad
Adrodd **Rhagfyr 2026**	Adroddiad Archwiliad o Gyfrifon Argymhellion ar gyfer gwella Cyflwyno canfyddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu Ardystiad yr Archwilydd Cyffredinol Crynodeb archwilio blynyddol Dysgu ôl-brosiect

Gwaith archwilio perfformiad

Trefniadau priodol

Fel y nodwyd yn y Cod Ymarfer Archwilio, mae'n rhaid i mi fodloni fy hun bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ('gwerth am arian'), a dod i gasgliad yn unol â hynny.

Rwy'n gwneud hyn trwy ymgymryd â rhaglen briodol o waith archwilio perfformiad bob blwyddyn. Rwy'n seilio fy rhaglen waith ar asesiad o risgiau'r Awdurdod a'r ffaith nad oes gan y sector Llywodraeth Leol ehangach yng Nghymru y trefniadau priodol ar waith, â'r gwaith yn canolbwyntio'n nodweddiadol ar y meysydd risg mwyaf.

Wrth ddylunio'r rhaglen, mae'n rhaid bod fy archwilwyr wedi ystyried trefniadau corfforaethol a lefel gwasanaeth, gan gynnwys:

- Cynllunio strategol
- Cynllunio ariannol
- Rheoli perfformiad a risg
- Cynllunio'r gweithlu
- Rheoli asedau
- Gweithio ar y cyd
- Llywodraethu cyffredinol

Bydd fy archwilwyr hefyd wedi cymryd i ystyriaeth gwaith perthnasol sy'n cael ei wneud neu yn yr arfaeth gan gyrff archwilio, rheoleiddio ac arolygu eraill yn yr Awdurdod.

Rwy'n gwneud fy ngwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio safon ISSAI 3000 a ddatblygwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad ambarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw INTOSAI. Mae'n sefydliad

anllywodraethol â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Mae adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Diffinnir yr **egwyddor datblygu cynaliadwy** fel ymddwyn mewn modd…

…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt ystyried y **'pum dull o weithio'**.

Mae'n rhaid i mi gynnal yr archwiliadau hyn ym mhob corff cyhoeddus sydd wedi'i gwmpasu gan y Ddeddf o leiaf unwaith yn ystod cyfnod penodedig.

Gallai'r rhain fod yn archwiliadau annibynnol neu'n rhan o'm rhaglen archwilio perfformiad. Fodd bynnag, pa fo'n berthnasol ac yn briodol gwneud hynny, bydd fy archwilwyr yn integreiddio'r gwaith sy'n ofynnol i waith archwilio perfformiad arfaethedig arall ar gyfer yr Awdurdod. Bydd fy archwilwyr yn parhau i ymgysylltu'n agos â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i helpu i gydgysylltu ein gweithgareddau priodol.

Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig

Rwy’n nodi isod manylion fy ngwaith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau ar gyfer 2026-27.

Digidol

Yn ystod ein gwaith archwilio, nodwyd dull yr Awdurdod o ymdrin â thechnoleg ddigidol fel maes i’w adolygu ymhellach o ystyried ei botensial i gefnogi gwelliant gwasanaeth, effeithlonrwydd a gwerth am arian.

Bydd y prosiect hwn yn adolygu trefniadau digidol yr Awdurdod; fodd bynnag, nid yw'r union gwmpas wedi'i benderfynu eto.

Amseriad Gwaith Archwilio Perfformiad

Bydd fy nhîm yn gweithio gyda swyddogion yn yr Awdurdod i drefnu amserlenni manwl ar gyfer y prosiect a byddant yn cael eu cyfathrebu’n rheolaidd drwy ein diweddariadau. Nod fy archwilwyr fydd cwblhau’n sylweddol y gwaith archwilio perfformiad a nodir yn y cynllun hwn erbyn diwedd Mehefin 2027.

Swyddogaethau archwilio statudol eraill

Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldebau hyn:

- Adran 30 Edrych ar ddogfennau a chwestiynau mewn archwiliad; ac
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiad mewn archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi cynnwys unrhyw ystyriaeth yn y ffi isod. Os byddaf yn derbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau, bydd fy archwilwyr yn trafod yr effaith bosibl ar ffioedd archwilio gyda'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151.

Ffi archwilio

Ym mis Ionawr 2026, fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Ffioedd 2026-27 yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyllid y Senedd sy'n rhoi manylion y cynnydd cyfartalog i gyfraddau ffioedd o 5.3%.

Bydd y ffi wirioneddol y mae unrhyw gorff unigol sy'n cael ei archwilio yn ei thalu yn dibynnu nid yn unig ar ein cyfraddau ffioedd ond ar gyfanswm y gwaith a'r gymysgedd sgiliau sy'n ofynnol.

Mae'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2024-25 yn seiliedig ar gost archwiliad 2023-24 sydd wedi'i chynyddu 5.3% yn unol â'n cynllun ffioedd cyhoeddedig.

Mae'r ffi archwilio perfformiad amcangyfrifedig wedi cynyddu 2.8% ar gyfer 2026-27. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cymeradwy oherwydd y cymysgedd sgiliau a ddefnyddiwyd ar yr archwiliad.

Bydd cynllunio yn barhaus, ac efallai y bydd angen newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb i'm harchwilwyr eu trafod nhw gyda'r Prif Swyddog Cyllid (Adran 151) yn gyntaf. Mae **Arddangosyn 2** yn cynnig dadansoddiad pellach o'ch ffi archwilio amcangyfrifedig.

Rwy'n seilio fy ffi archwilio ar y tybiaethau canlynol:

- Mae'r agweddau i'w cyflawni o'r archwiliad y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac i gynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Mae gofynion archwilio fy mhrosiectau archwilio perfformiad unigol yn cael eu bodloni gan y corff sy'n cael ei archwilio, neu rhoddir trefniadau eraill addas ar waith sy'n diwallu anghenion fy nhîm archwilio.
- Ni nodir unrhyw faterion o arwyddocâd, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu crynhoi yn y cynllun hwn, yn ystod yr archwiliad.

Arddangosyn 2: dadansoddiad o’m ffi archwilio amcangyfrifedig ar gyfer 2026 (a 2025 fel cymhariaeth)

Ffi amcangyfrifedig ar gyfer gwaith wedi'i gynllunio

Archwiliad o ddatganiadau ariannol 2024-25	Gwaith archwilio perfformiad 2026-27
£69,416	£20,209

Ffi wirioneddol ar gyfer gwaith wedi’i cwblhau (£)

Archwiliad o ddatganiadau ariannol	Gwaith archwilio perfformiad
£65,922	£19,657 Amcangyfrif hyd nes y bydd y gwaith archwilio wedi’i gwblhau[1])

[1] Er bod ein prosiectau archwilio perfformiad wedi'u cwblhau ar gyfer 2025-26, ni allwn gau'r flwyddyn archwilio hyd nes y bydd archwiliad cyfrifon 2025-26 wedi'i gwblhau.

Tîm archwilio

Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan ddefnyddio technoleg, ond bydd rhywfaint o waith archwilio ar safle yn ailgychwyn/parhau lle mae'n briodol gwneud hynny.

Yn wir, roedd fy nhîm archwilio a oedd ar y safle yn ystod gwaith archwilio cyfrifon y llynedd o'r farn bod yr agosrwydd at swyddogion yn ffordd fwy effeithlon o weithio, ac mae swyddogion wedi cynnig adborth cadarnhaol ar eu profiadau.

Mae gan gorff sy'n cael eu harchwilio gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch a llesiant staff Archwilio Cymru pan fyddant ar eich safle.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: fy nhîm archwilio lleol

Cyfarwyddwr Ymgysylltu	Matthew Edwards matthew.edwards@archwilio.cymru	
	Archwilio Ariannol	**Archwilio Perfformiad**
Arweinydd Ymgysylltu	Matthew Edwards matthew.edwards@archwilio.cymru	Gary Emery gary.emery@archwilio.cymru
Rheolwr Archwilio	Rachel Freitag rachel.freitag@archwilio.cymru	Carwyn Rees carwyn.rees@archwilio.cymru

Arweinydd Archwilio

Daniel Price
daniel.price@archwilio.cymru

Bethan Roberts
bethan.roberts@archwilio.cymru

Mae un gwrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi ei ddwyn i'ch sylw. Mae gan aelod o'n tîm ffrind a gyflogir gan yr Awdurdod. Fodd bynnag, mae'r unigolyn hwn yn gweithio o fewn y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Rheoli Tir ac nid yw'n ymwneud â pharatoi'r datganiadau ariannol. Mae mesurau diogelu ychwanegol wedi'u gweithredu i sicrhau nad yw ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn cael eu peryglu. Nid oes gwrthdaro buddiannau yn codi mewn perthynas â'n Gwaith Archwilio Perfformiad.

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn llwyr. Rydym o'r farn bod ansawdd archwilio yn golygu cael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Rydym yn gwneud ein gwaith yn destun craffu annibynnol gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae ein Cadeirydd y Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. Os hoffech ragor o wybodaeth, gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio.

Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu

Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Eich cynorthwyo

Mae gan Archwilio Cymru amrywiaeth o adnoddau i gynorthwyo'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch i'n gwefan i ddarganfod:

Ein cyhoeddiadau sy'n trafod ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar y gorwel a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data a ffeithluniau i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwario cyhoeddus yn well.

Manylion ein gwaith Arfer Da a digwyddiadau gan gynnwys rhannu arferion a gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arferion da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Eitem Rhif 9

CYFARFOD	Awdurdod
DYDDIAD	23 Medi 2026
TEITL	**Datganiad o Gyfrifon Drafft 2024/25**
ADRODDIAD GAN	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	Nodi cynnwys y Datganiad o Gyfrifon drafft a'r cyfnod i'w archwilio gan aelodau o'r cyhoedd

1. CRYNODEB

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon Blynyddol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel y'i cymeradwywyd yng nghyfarfod yr Awdurdod Mehefin 2025.

Mae'n ofyniad gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliad (Cymru) 2005 (diwygiedig) fod y Prif Swyddog Cyllid yn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon Blynyddol drafft erbyn 31 Mai. Yn sgîl effaith oedi yn cyflwyno adroddiad Cyfrifon 2023/24 mae oedi wedi bod yn cyflwyno Cyfrifon Drafft 2024/25, ond mae bod pob ymdrech yn cael ei wneud i'w cwblhau mor fuan a phosibl.

Yn dilyn yr archwiliad, bydd cynrhychiolwyr Aelodau'r Awdurdod yn eu cymeradwyo, gyda'r gwaith archwilio wedi ei raglennu ar gyfer mis Medi 2026. Yn y cyfamser, cyflwynir y Datganiad o Gyfrifon drafft i'r Aelodau er gwybodaeth.

2. ARCHWILIO'R CYFRIFON

Gyrrwyd y cyfrifon i'r archwilwyr ar 7fed o Fedi ac mae'r archwiliad eisioes wedi cychwyn.

Yn unol â'r rheoliadau, bydd yr Archwilydd Penodedig yn cwblhau'r archwiliad a chyflwyno'r adroddiad am y Datganiad o Gyfrifon ger bron Aelodau'r Awdurdod, cyn sicrhau llofnod swyddogol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3. ARCHWILIAD CYHOEDDUS O'R CYFRIFON

O dan adran 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, a rheoliad 13 a 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio Cymru 2005, mae'n ofynnol i'r Awdurdod hysbysu'r cyhoedd bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio am gyfnod o 20 diwrnod gwaith.

Bydd archwiliad cyhoeddus ar gyfer y cyfnod o 20 diwrnod yn cael ei hysbysu ar wefan yr Awdurdod, a derbynfa prif swyddfeydd yr Awdurdod.

Yn ystod y broses archwilio, mae cyfle hefyd i etholwr llywodraeth leol ofyn cwestiynau i'r Archwilydd am y cyfrifon.

4. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Dim. Nid yw'r penderfyniad heddiw yn ymrwymo unrhyw adnodd ychwanegol yn erbyn cyllideb yr Awdurdod.

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Nodi cynnwys y Datganiad o Gyfrifon 2024/25.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DATGANIAD O GYFRIFON
AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31AIN MAWRTH 2025

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DATGANIAD O GYFRIFON 2024/25

MYNEGAI

Adroddiad Naratif 3
Y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon 9
Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 10
Y Fantolen 11
Y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn 12
Datganiad Llif Arian 14
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 15
Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25 77
Rhestr Termau 115

ADRODDIAD NARATIF

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad naratif yn darparu esboniad cryno ynghylch y materion mwy arwyddocaol adroddir yn y cyfrifon ac mae'n anelu i ychwanegu at a chynorthwyo i ddehongli'r datganiadau cyfrifyddu a amlinellir ar dudalennau 11 i 16 ac mae'n cynnwys :-

- Y **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** sy'n dangos crynodeb enillion a'r colledion a brofwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r enillion a'r colledion hyn wneud iawn am y symudiad mewn gwerth net.
- **Mantolen** yn nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2025.
- Crynodeb yw'r **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd** o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn rhan isaf y fantolen dros y flwyddyn ariannol.
- Y **Datganiad Llif Arian** sy'n crynhoi'r mewnlifiadau ac all-lifau o arian sy'n deillio o drafodion i bwrpasau refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon gan Ddatganiad o Bolisïau Cyfrifyddu a nodiadau esboniadol.

2. Gweledigaeth a Blaenoriaethau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mabwysiadodd yr Awdurdod weledigaeth ar gyfer y Parc yng Nghynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri yng nghyfarfod 13eg Hydref 2021 fel a ganlyn:

Parc Cenedlaethol sy'n gyfoethog yn ddiwylliannol, gydag economi werdd lewyrchus, profiad ymwelwyr o'r radd flaenaf sy'n cyfrannu'n fawr iawn at les ein cenedl.

Erbyn 2035 bydd Eryri yn parhau i fod yn dirlun gwarchodedig ac esblygol, wedi'i ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol a hanesyddol cyfoethog, amrywiol a chydnerth; yn darparu buddion lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Bydd pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu cyflawni trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu ar gyfer heriau newid yn yr hinsawdd ac yn seiliedig ar adnoddau naturiol – rhinweddau'r dirwedd, cyfleoedd ar gyfer dysgu a mwynhad, y dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog a chynhwysol sy'n ffynnu, bydd gweithio mewn partneriaeth yn dangos ei bod yn bosib cyflawni mwy trwy gydweithio.

Bydd cymunedau wedi mabwysiadu atebion arloesol mewn byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cyswllt trigolion â'r amgylchedd, gan ddarparu gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol o fri yn rhyngwladol ac fel lle i'r enaid gael llonydd."

Yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015) mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Datganiad Lles 2021-2026 ym Mawrth 2021.

https://snowdonia.gov.wales/wp-content/uploads/2022/03/DATGANIAD-LLES-APCE-2021-26.pdf

Mae'r ddogfen hon yn gosod y cyd-destun ar gyfer y rhaglen waith corfforaethol sy'n manylu ar amcanion penodol llesiant a gwelliant, ac a gyflwynir yng nghyfarfod Awdurdod Ebrill yn flynyddol. Mae'r agenda ar gael trwy'r cyswllt canlynol:

RHYBUDD O GYFARFOD / NOTICE OF MEETING

3. CYD-DESTUN ARIANNOL

Perfformiad Ariannol a Sefyllfa Diwedd Blwyddyn

'Roedd y gyllideb ddiwygiedig fel ag adroddwyd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 9fed Gorffennaf 2025 fel a ganlyn.

Gwasanaethau	Cyllideb	Gwariant	Dan/(Dros)
	£	£	£
Cynllunio a Rheoli Tir	1,977,658	2,403,678	- 426,020
Corfforaethol	5,707,315	3,661,930	2,045,385
Llog a Ennillwyd	- 100,000	- 389,311	289,311
Ariannu Cyfalaf o refeniw	917,352	- 36,512	953,864
Addasiad taliadau cyfalaf	- 591,050	- 591,050	
Net	**7,911,275**	**5,048,735**	**2,862,540**
GPC a Lefi	- 5,493,051	- 5,493,051	-
Tr. I/O Cronfeydd	- 2,418,224	444,316	- 2,862,540
Cyfanswm	**-**	**-**	**-**

Addaswyd yr amrywiad net o £2,862,540 ar gyfer trosglwyddiadau diwedd blwyddyn i ac o gronfeydd wrth gefn (gwybodaeth pellach ym mhar. 4.2 o'r adroddiad a gyfeirwyd ato). Mae'r adroddiad yn eitem 12 yn y cyswllt canlynol –

RHYBUDD O GYFARFOD / NOTICE OF MEETING

Tra'n dilyn trefn cwblhau y Datganiad Cyfrifon gwnaethpwyd addasiadau i'r alldro, mae'r ffigyrau diwygiedig ar gyfer gwariant net yn ymddangos yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu (nodyn 2 i'r prif ddatganiadau).

Mae'r symudiadau mewn cronfeydd unigol yn nodyn 9 i'r datganiadau ariannol.

4. Crynodeb o'r Prif Bwyntiau :

Mantolen :

Mae gwerth net yr awdurdod wedi cynyddu **£1,075k**, a'r prif symudiadau yw:

- **Asedau Hir-dymor** – mae'r gwerth wedi cynyddu £1,048 wedi cynnydd yng ngwerth rhai asedau ynghŷd a cyflwyno Asedau Hawl i'w defynyddio ar y fantolen i gyd fynd a gofynion IFRS16,

- **Asedau Cyfredol –** mae'r gwerth wedi cynyddu **£231k**, y prif effaith oherwydd

  £190k – gostyngiad yn Arian a buddsoddiadau yn deillio o arian grantiau ag incwm ychwanegol
  £178k o gynnydd mewn buddsoddiadau byr dymor
  £290k o gyndydd mewn dyledwyr byr dymor

- **Rhwymedigaethau Cyfredol –** Mae'r gwerth wedi gostwng **£484k** yn dilyn –

  £9191k o ostyngiad ym malans Grantiau o Flaen Llaw
  £435k o ostyngiad ym malans credydwyr 'Eraill'

- **Rhwymedigaethau Hir Dymor** – cynnydd o £688k. Y prif effaith oherwydd

  £25k lleihad yn rhwymedigaeth pensiwn
  £713k cyflwyno rhwymedigaeth tymor hir lesau yn dilyn cyflwyniad IFRS16

Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr :

Mae'r cyfanswm cost net gwasanaethau wedi lleihau £635k gyda symudiadau fesul cyfarwyddiaeth yn :

- Cynllunio, Treftadaeth Ddiwylliannol a Rheolaeth Tir cynnydd o £669k.
- Corfforaethol (cynnwys Cyfathrebu) lleihad o £34k.

Prif symudiadau :

Gwariant

- £428k o ostyngiad yn addasiad cost pensiwn IAS19 i'r gwasanaethau yn 2024/25.

Incwm

- £278k cynnydd yn Grant Parciau Cenedlaethol gan Llywodraeth Cymru
- £863k gostyngiad yn Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau

Yn ogystal â derbyn cyllid grant mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ei incwm ei hunan. Mae nodyn 1c i'r prif ddatganiadau yn dangos £2,314k (£2,492k yn 2023/24) wedi ei gynhyrchu o ffioedd ac incwm gwasanaeth fel arall. Y prif rannau ydy :

- Ffioedd parcio £1,284k (£1,299k yn 2023/24)
- Ffioedd Cynllunio £165k (£174k yn 2023/24)
- Gwerthiannau Canolfannau gwybodaeth £328k (£257k yn 2023/24)
- Rhent £139k (£103K yn 2023/24)

5. Rhwymedigaeth Bensiwn

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyflogwr yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r cyfrifon yn ymgorffori'n llawn beth yw gofynion y Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 19 (IAS 19).

Mae'r polisi'n adlewyrchu'r ymrwymiad yn y tymor hir i gynyddu cyfraniadau i wneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn asedau net priodoledig yn y gronfa bensiwn.

6. Cost neu Gredyd Anghyffredin yn y Cyfrifon

Y prif eitemau ydy'r :

- grantiau gwerth £1,321k a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru

7. Gwariant Cyfalaf

Gwariant cyfalaf yw gwariant ar feddiannu ased sefydlog, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog bresennol, nid ei gynnal yn unig.

Roedd gwariant cyfalaf yn ystod 2024/25 yn £2,337k. Dangosir manylion ynghylch y gwariant ym mhob maes gwasanaeth yn nodyn 31. Ariannwyd y gwariant gan grantiau a chyfraniadau oddi wrth gyrff eraill.

Bydd yr holl wariant cyfalaf a gynlluniwyd yn cael ei ariannu o refeniw, grantiau allanol a chronfeydd a ddelir ar gyfer gwariant unwaith ac am byth.

Y prif gynlluniau gan yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2025 ydyw :

- cynllun Partneriaeth y Carneddau bellach yn ei gyfnod gweithredol ac yn werth £4.17m. Cynllun wedi ei raglennu i orffen erbyn Mawrth 2026.
- y prosiect Coedwigoedd Celtaidd yn brosiect 7 blynedd gwerth £7.6m. Cynllun wedi ei raglennu i orffen yn 2026/27.

8. Cyllido Cyfalaf

Cafodd holl wariant cyfalaf yr Awdurdod, ers iddo gael ei sefydlu ar yr 23ain o Dachwedd 1995, ei ariannu trwy gyfrwng grantiau cyfalaf a chyfraniadau gan y Llywodraeth, y Gymuned Ewropeaidd a grantiau o ffynonellau eraill, o dderbyniadau cyfalaf a gymhwyswyd ac o adnoddau refeniw'r Awdurdod.

Ar 31 Mawrth 2025 nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw fenthyciad i ariannu cyfalaf, ac i ddibenion rheolaeth trysorlys bydd yn parhau fel awdurdod di-ddyled.

9. Cronfeydd wrth gefn Defnyddiadwy

Adolygwyd balans y Gronfa Refeniw Gyffredinol yn ystod y flwyddyn fel rhan o adolygiad cronfeydd yr Awdurdod, a bellach yn werth £1,067k.

Mae gan yr Awdurdod gyfanswm o £12,452k o Gronfeydd Defnyddadwy penodol ac mae manylion rhain yn nodyn 9 o'r datganiadau ariannol. Dylid nodi fod y rhan fwyaf o'r cronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer dibenion penodol.

10. Llywodraethu

Mae gan yr Awdurdod 18 aelod sy'n gwasanaethau ar Fwrdd yr Awdurdod, y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Mae gan Plas Tan y Bwlch a'r Ysgwrn eu Byrddau Rheolaeth eu hunain yn cynnwys 3 aelod yr un.

Darperir gwybodaeth pellach ar lywodraethu a materion perthnasol i 2024/25 yn y rhan Datganiad Llywodraethu Blynyddol o'r ddogfen hon.

11. Risgiau a Chyfleon

Risgiau
Cofnodir prif risgiau'r Awdurdod yn y Cofrestr Risg Corfforaethol a adolygir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac yn flynyddol yn Awdurdod Chwefror.

Nodir 4 risg mwyaf sylweddol yr Awdurdod, ynghyd â'r mesurau i'w lleddfu, yn niwedd rhan 6 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cyfleon
Mae'r Awdurdod wedi derbyn cyllid "un tro" gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ar brosiectau cyfalaf yn cynnwys prosiectau Mynediad a gwelliannau i eiddo'r Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn parhau i ddenu cyllid grant o amrywiol ffynonhellau sy'n galluogi capasiti gweithredu llawer uwch na'r hyn sy'n bosibl trwy grant sylfaenol yn unig. Mae'r crebachu blynyddol ar niferoedd staff yr Awdurdod yn golygu bod elfen o risg gyda chapasiti i gyflawni ar brosiectau'n y dyfodol.

12. Strategaethau'r Awdurdod

Pedwar prif strategaeth yr Awdurdod yw:

- Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri,
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri,
- Cynllun Corfforaethol, a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae gwybodaeth ychwanegol am y 4 ynghyd â strategaethau eraill yr Awdurdod ac adolygiad o'u effeithiolrwydd yn rhan 5 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

13. Effaith yr hinsawdd economaidd gyfredol

Mae'r Awdurdod wedi mantoli ei gyllideb am 2023/24 yn seliedig ar y ffigwr Grant Parc Cenedlaethol yn ôl hysbysiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2022. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi bydd ffigwr y grant ar gyfer 2024/25 yn parahau yr un fath a ffigyrau 2023/24. Bydd hyn yn heriol i'r Awdurdod gan ystyried yr hinsawdd economaidd presennol, a pwysau chwyddiant sylweddol.

Ar amser ysgrifennu mae llif arian yr Awdurdod yn ddigonol, ond bydd angen ail-werthuso yn ddibynol ar y ffigyrau setliad gan Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26.

14. DATGELU ADDASIADAU CYFRIFYDDU TROSIANNOL

Yn 2024/25, cymhwysodd yr Awdurdod IFRS 16, *Prydlesi*, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Prif effaith y gofynion newydd yw bod yn rhaid cydnabod ased hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd prydles ar Fantolen yr Awdurdod ar 1 Ebrill 2024, drwy addasiad i'r balansau agoriadol, ar gyfer trefniadau a gyfrifwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredol (hynny yw, trefniadau prydles lle barn yr Awdurdod oedd nad oedd y trefniant yn trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a manteision perchnogaeth ased, a lle cofnodwyd gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr bob blwyddyn). Mae prydlesi ar gyfer eitemau gwerth isel a phrydlesi sy'n dod i ben ar neu cyn 31 Mawrth 2025 wedi'u heithrio o'r trefniadau newydd.

Cymhwyswyd IFRS 16 yn ôl-weithredol, ond gyda'r effaith gronnol yn cael ei chydnabod ar 1 Ebrill 2024. Mae hyn yn golygu bod asedau Hawl i Ddefnyddio ac atebolrwyddau prydles wedi'u cyfrifo fel pe bai IFRS 16 wedi bod yn berthnasol erioed, ond eu bod wedi'u cydnabod yn 2024/25 heb addasu ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae rhai hwylusiadau ymarferol wedi'u cymhwyso fel sy'n ofynnol neu'n cael eu caniatáu gan y Cod:

- Mesurir atebolrwyddau prydles ar sail gwerth presennol y taliadau prydles sy'n weddill ar 1 Ebrill 2024, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio cyfradd fenthyca gynyddol yr Awdurdod ar y dyddiad hwnnw.
- Mesurir asedau Hawl i Ddefnyddio ar sail swm yr atebolrwydd prydles, wedi'i addasu am unrhyw daliadau prydles rhagdaledig neu gronedig a oedd ar y fantolen ar 31 Mawrth 2024. Nid yw unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol wedi'u cynnwys.

- Cymhwyswyd yr eithriad gwerth isel i brydlesi lle mae gwerth yr ased sylfaenol, pan oedd yn newydd, yn llai na £10,000.
- Cymhwyswyd yr eithriad tymor byr i brydlesi lle'r oedd y tymor sy'n weddill ar 1 Ebrill 2024 yn llai na 12 mis.

Arweiniodd hyn at yr ychwanegiadau canlynol i'r Fantolen ar 1 Ebrill 2024:

- £731k Eiddo, peiriannau ac offer – tir ac adeiladau (asedau Hawl i Ddefnyddio)
- £722k Credydwyr anghyfredol (atebolrwyddau prydles)
- £9k Credydwyr cyfredol (atebolrwyddau prydles)

Mae'r atebolrwyddau prydles newydd a gydnabuwyd, sef £731k, yn cymharu â'r ymrwymiadau prydles gweithredol o £13,374k ar 31 Mawrth 2024 a ddatgelwyd yn y nodiadau i ddatganiadau ariannol 2023/24. Nid yw'r atebolrwyddau prydles yn cynnwys symiau ar gyfer prydlesi eitemau gwerth isel na phrydlesi a fydd yn dod i ben cyn 31 Mawrth 2025.

GWYBODAETH BELLACH

Mae gwybodaeth bellach ynghylch y Datganiad Cyfrifon hwn ar gael oddi wrth:

Sian Wyn Owen
Pennaeth Cyllid
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF
Ffôn: 01766 772 251
Ebost: sian.owen@eryri.llyw.cymru

Y DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol ar i'r Awdurdod:-

- Wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu priodol ei faterion ariannol ac i sicrhau fod un o'i swyddogion gyda chyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn achos Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Cyllid;
- Rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon, ac effeithiol o'i adnoddau a diogelu ei asedau;
- Cymeradwyo ei ddatganiad cyfrifon.

Cafodd y cyfrifon hyn eu cymeradwyo gan yr Awdurdod ar ……. 2026.

Llofnod:

CYNG. EDGAR W. OWEN - CADEIRYDD

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol a amlinellir yn y Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU ('y Cod Ymarfer').

Wrth baratoi'r datganiadau cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:-

- Dethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- Wedi cydymffurfio â'r Datganiad Ymarfer a Argymhellir.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:-

- Cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol;
- Wedi cymryd camau rhesymol i rwystro a darganfod twyll ac anghysonderau eraill.

Tystysgrif y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Datganiadau Cyfrifon wedi cael eu paratoi'n unol â Chyfrifon Llywodraeth Leol a Rheoliadau Archwilio ac yn cyflwyno'n deg a gwir sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a gwariant i'r flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025.

Llofnod. 28 Awst 2026

DEWI A MORGAN – PRIF SWYDDOG CYLLID

Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

2023/24	2023/24	2023/24		2024/25	2024/25	2024/25
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
4,713	(3,022)	1,691	Cynllunio a Rheoli Tir	5,505	(3,145)	2,360
7,061	(2,131)	4,930	Corfforaethol	7,363	(2,467)	4,896
11,774	**(5,153)**	**6,621**	**Cost net gwasanaethau**	**12,868**	**(5,612)**	**7,256**
		-	Gwariant Gweithredu Arall			(35)
		(358)	Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi (nodyn 11)			(374)
		6,263	**Gwariant Gweithredu Net**			**6,848**
		(7,987)	Incwm grant amhenodol (nodyn 12)			(7,402)
		(1,725)	**Gwarged (-) / Diffyg ar ddarpariaeth gwasanaeathau am y flwyddyn**			(554)
		455	Diffyg net ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol a cholledion amhariad i'r gronfa ailbrisio (nodyn 22)			(423)
		330	Asedau/ rhwymedigaethau pensiwn (nodyn 36)			(98)
		785				(521)
		(940)	**Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**			**(1,076)**

Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn destun i'r angen i gynnal lefel ochelgar o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw derfynau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbynebion Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion yn unig). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheiny na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisiad wrth Gefn) ble dim ond ar ôl gwerthu'r asedau y byddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn "Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu dan y rheoliadau".

2023/24		Notes	2024/25
£'000			£'000
14,386	Eiddo, Offer a Chyfarpar	13	15,462
784	Asedau Treftadaeth	14	772
114	Asedau Anghyffyrddadwy	15	96
57	Dyledwyr Tymor Hir	18	59
15,341	**Asedau Tymor Hir**		**16,389**
7,319	Buddsoddiadau Tymor Byr	17	7,497
189	Rhestrau Stoc		143
1,096	Dyledwyr Tymor Byr	18	1,386
5,138	Arian a Chyfateb Arian	19	4,948
13,743	**Asedau Cyfredol**		**13,974**
(1,083)	Credydwyr Tymor Byr	20	(1,518)
(1,215)	Darpariaethau	29	(296)
(2,298)	**Asedau Cyfredol**		**(1,814)**
(278)	Rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn	36	(253)
(33)	Credydwyr Tymor Hir	29	(33)
-		20	(713)
(311)	**Rhwymediagaethau Tymor Hir**		**(999)**
26,475	**Asedau Net**		**27,550**
(11,596)	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	9	(12,452)
(14,879)	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu defnyddio	22	(15,098)
(26,475)	**Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn**		**(27,550)**

Y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn

Dengys y datganiad hwn y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi i "Gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy" (h.y. y rheiny y gellir eu cymhwyso i ariannu gwariant) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell Gwarged (+) neu Ddiffyg (-) ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, y gwelir mwy o fanylion amdanynt yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n ofynnol eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn llinell Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau disgresiwn i neu o g ronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a wneir gan yr Awdurdod.

Y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn 2024/25

	Balans y Gronfa Gyffredinol a'r Confeydd wrth gefn a glustnodir	Cronfa wrth gefn Derbynion Cyfalaf	Cronfa wrth gefn grantiau cyfalaf heb eu defnyddio	**Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy**	Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	**Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Balans a ddygwyd ymlaen 31 Mawrth 2024	9,560	164	1,873	11,596	14,879	26,476
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	554	-	-	554	521	1,075
Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllid dan reoliadau (nodyn 8)	(161)	-	463	302	(302)	
Cynydd/(Gostyngiad) yn 2024/25	**393**	**-**	**463**	**856**	**219**	**1,075**
Balans a gariwyd trosodd ar 31 Mawrth 2025	**9,953**	**164**	**2,335**	**12,452**	**15,098**	**27,551**
Cronfa Gyffredinol	1,067					
Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (nodyn 9)	8,886					
	9,953					

Y Datganiad Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn 2023/24

	Balans y Gronfa Gyffredinol a'r Confeydd wrth gefn a glustnodir	Cronfa wrth gefn Derbynion Cyfalaf	Cronfa wrth gefn grantiau cyfalaf heb eu defnyddio	**Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy**	Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	**Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Balans a ddygwyd ymlaen 31 Mawrth 2023	7,839	164	2,146	10,150	15,385	25,535
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	2,302	-	-	2,302	(1,069)	1,223
Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllid dan reoliadau (nodyn 8)	(582)	-	(274)	(856)	856	
Cynydd/(Gostyngiad) yn 2023/24	**1,721**	**-**	**(274)**	**1,447**	**(212)**	**1,235**
Balans a gariwyd trosodd ar 31 Mawrth 2024	**9,560**	**164**	**1,873**	**11,596**	**15,172**	**26,770**
Cronfa Gyffredinol	895					
Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (nodyn 9)	8,665					
	9,560					

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y **Datganiad Llif Arian** y newidiadau mewn arian a chyfateb ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfateb ag arian trwy ddosbarthu llif arian fel gweithgareddau gweithredol, buddsoddi a chyllido. Mae'r swm o lif arian neu sy'n deillio o weithgareddau gweithredol yn brif ddangosydd i'r graddau y mae gweithgareddau'r Awdurdod yn cael eu hariannu drwy incwm grant ac ardoll neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y mae all-lif o arian wedi ei wneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at gyflenwad gwasanaeth yr Awdurdod i'r dyfodol. Mae llif arian sy'n deillio o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld hawliadau ar lif arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

2023/24		**2024/25**
£'000		**£'000**
(1,725)	(Gwarged) /ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau	(554)
(570)	Addasiadau I warged neu ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau am symudiadau heb fod yn arian (nodyn 23)	(315)
895	Addasiadau ar gyfer eitemau a gynhwyswyd yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgaredday buddsoddi a chyllido	361
(1,400)	**Llif arian net o Weithgareddau Gweithredol**	**(508)**
288	Gweithgareddau Buddsoddi (nodyn 24)	696
54	Gweithgareddau Cyllido (nodyn 25)	2
(1,058)	(Cynnydd)/ostyngiad net mewn arian neu gyfateb ag arian	190
4,080	Arian neu cyfateb ag arian ar gychwyn cyfnod adrodd	5,138
5,138	**Arian neu cyfateb ag arian ar ddiwedd cyfnod adrodd (nodyn 18)**	**4,948**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

1 DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

1.1 Egwyddorion Cyffredinol

a. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU ('y Cod Ymarfer').

Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i bolisïau cyfrifyddu gael eu cymhwyso'n gyson. Y gofyniad pwysicaf yw bod y Datganiadau Cyfrifon yn 'cyflwyno'n deg a gwir' berfformiad ariannol a sefyllfa'r Awdurdod.

1.2 Cysyniadau Cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â'r egwyddorion a'r cysyniadau cyfrifyddu hanfodol (a threiddiol) a ganlyn :

- Perthnasedd
- Dibynadwyedd
- Cymaroldeb
- Dealladwy
- Materoldeb
- Croniadau
- Busnes Gweithredol
- Uchafiaeth gofynion deddfwriaethol
  Mae'r egwyddorion a chysyniadau hyn wedi eu defnyddio wrth ddethol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif ac wrth weithredu barn broffesiynol.

1.3 Croniadau Gwariant ac Incwm

Mae cyfrifon refeniw a chyfalaf yr Awdurdod yn cael eu cynnal ar sail croniadau. Mae'r holl symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn cael eu gosod yn y cyfrifon ar yr amser maent yn ddyledus.

- Bydd y refeniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a phan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd refeniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pryd fydd taliadau'n cael eu gwneud.

- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif refeniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

1.4 Arian Parod a'r Eitemau sydd Gyfystyr ag Arian Parod

Mae hyn yn cynnwys cyfrifon imprest a chronfeydd parod yr Awdurdod ac arian parod a ddelir "ar alwad" neu wedi ei ddydodi dros y tymor byr gyda banciau lle mae'r arian yn ad-daladwy heb gosb pan geir rhybudd nid hwy na 24 awr.

1.5 Eitemau Eithriadol

Lle mae eitemau o'r fath yn berthnasol i gyfrifon 2023/24, tynnir sylw atynt yn y nodiadau perthnasol e.e. colledion ailbrisiad.

1.6 Addasiadau cyn cyfnod, newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon a chamgymeriadau

Yn ystod 2023/24, newidodd yr Awdurdod eu polisi cyfrifyddu yn ymwneud a Asedau Cymuned sydd nawr yn cael eu dal ar sail prisiant.

1.7 Codi tâl ar refeniw am asedau anghyfredol

Codir tâl ar wasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu gyda'r symiau a ganlyn er mwyn cofnodi'r gost o ddal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant sy'n digwydd i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol,
- Ailwerthuso a cholledion nam ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronnus yn y Gronfa Ailwerthuso lle gellir dileu'r colledion yn eu herbyn,
- Amorteiddio asedau sefydlog anghyffyrddadwy sy'n berthnasol i'r gwasanaeth.

  Ni ellir codi tal am y symiau hyn yn erbyn Cronfa Gyffredinol yr Awdurdod ac felly maent fel y cyfryw yn cael eu gwyrdroi trwy gyfnewidiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf fel y dangosir yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd.

1.8 Buddion gweithwyr

a. Buddiannau Sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth :

Buddiannau gweithwyr tymor byr yw'r rheiny sydd i fod i gael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau fel cyflogau wythnosol a misol, tâl gwyliau blynyddol a thâl cyfnod salwch, bonysau a buddiannau nad ydynt yn rhai ariannol (ee ceir) i weithwyr presennol ac maent yn cael eu cydnabod fel traul gwasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r Awdurdod.

b. Buddiannau terfynu **:**

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu

benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail groniadau i'r llinell Costau Heb eu Dosbarthu Costau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Awdurdod yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

c. Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd. Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Awdurdod.

d. Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr, a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 4.75% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol gyda statws credyd AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:
Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.

Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau Corfforaethol.

Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig

net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod – gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf, neu am fod yr actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Awdurdod dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg Perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Awdurdod o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

e. <u>Buddion Dewisol</u>
Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

1.9 Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, yn rhai ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiadau:
y rheiny sy'n rhoi tystiolaeth o'r amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau
y rheiny sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond ble y byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol ddisgwyliedig.
Nid adlewyrchir digwyddiadau sy'n cymryd lle ar ôl dyddiad awdurdodi i gyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon.

1.10 Offerynnau Ariannol

Asedau Ariannol
Mae gan yr Awdurdod asedau ariannol wedi eu mesur ar werth têg drwy'r datganiad incwm arall

Y fath offerynnau sy'n berthnasol i'r Awdurdod yw benthyciadau car a wneir i weithwyr.

Mae asedau ariannol wedi eu mesur drwy werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall yn cael eu adnabod ar y fantolen pan mae'r Awdurdod yn cael hawl ir ddarpariaeth o contractau, ac mae'r ased yn cael eu adnobod yn gychwynol drwy werth teg.

Arian tramor

a. Mae incwm a gwariant sy'n deillio o unrhyw drafodion mewn arian cyfredol o dramor yn cael ei gyfieithu i £ sterling.

1.11 Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau eraill

P'un a ydynt yn cael eu talu i'r cyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:
y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Nid yw'r symiau a nodwyd fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn cael eu rhoi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd oni fydd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi eu bodloni. Mae'r amodau'n nodi bod rhaid i'r buddiannau economaidd yn y dyfodol neu i'r gwasanaeth posib sydd wedi'i ymgorffori yn yr ased a brynwyd gyda'r arian grant neu gyda'r cyfraniadau gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y nodwyd, neu bydd raid dychwelyd i'r trosglwyddydd y buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'r gwasanaeth posib.

Mae'r arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau lle na chafodd yr amodau eu bodloni yn cael eu cludo ymlaen yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell gwasanaeth priodol (grantiau refeniw a chyfraniadau a

briodolwyd) neu Dreth ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r cyfan o'r grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo'r grantiau cyfalaf yn cael eu rhoddi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn.

Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn – y rhai na chafodd eu defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn na chawsant eu defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

1.12 Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny sydd wedi eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol, h.y. mae ganddynt rinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, geoffisegol neu amgylcheddol. Maent yn cael eu cynnal gan yr Awdurdod yn bennaf am eu cyfraniad tuag at wybodaeth a diwylliant, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod wrth iddo gyflawni ei fusnes arferol. Mae dibrisiant asedau treftadaeth, lle bo hynny'n briodol, yn unol â pholisi cyffredinol yr Awdurdod ar ddibrisiant.

1.13 Asedau anghyffyrddadwy

Cyfrifir am asedau anghyffyrddadwy a brynir ar ffurf trwyddedau meddalwedd fel rhan o'r rhaglen amnewid Technoleg Gwybodaeth, ac maent yn cael eu lleihau i refeniw yn unol â'r dibrisiant costau.

Mae datblygu gwefan ar gyfer defnydd mewnol neu allanol yn creu ased anghyffyrddadwy ble mae'r meini prawf cydnabyd Mae'r Awdurdod yn rhentu sawl eiddo i gefnogi ei wasanaethau, a hefyd mae'n derbyn incwm rhent o sawl eiddo a berchenogir. Mae'r eiddo a berchenogir yn cael ei ddal fel asedau sefydlog yn y fantolen. Cyfrifir am yr incwm prydles ar sail llinell syth.

1.14 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Mae gan yr Awdurdod fuddiant mewn Partneriaeth Rhwymedigaeth Cyfyngedig ar y cyd gyda 13 Awdurdod Parc Cenedlaethol arall, gyda'r diben o gynhyrchu incwm yn bennaf o nawdd.

1.15 Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir

Mae stociau'n cael eu tynnu i'r cyfrif yn ôl cost y prisiau yn achos stociau'r bar, nwyddau i'w hailwerthu a darpariaethau cyffredinol ym Mhlas Tan y Bwlch, y Ganolfan Astudio ac yn achos nwyddau i'w hailwerthu yng Nghanolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod. Mae hyn yn gyson â'r polisi a fabwysiadwyd ym mlynyddoedd y gorffennol. Dan yr ymarfer a argymhellir rhaid dangos y stociau yn ôl y pris isaf o ddau, sef y gost wirioneddol neu'r gwerth dichonadwy net, ond nid yw'r gwahaniaeth yn berthnasol yn yr achos hwn.

1.16 Prydlesau (Cyllid)

Ar 31/3/2023 nid oes gan yr Awdurdod unrhyw drefniadau brydles cyllid.

1.17 Prydlesau (Gweithredol)

Mae'r Awdurdod yn rheoli prydlesau gweithredol i:
Gerbydau,
Llungopïwyr a pheiriannau diodydd a byrbrydau.
Tir ac adeiladau

Codir am daliadau prydles yn llawn yn ôl y dyddiad y maent yn daladwy arno ar sail llinell syth, yn sicrhau tâl blynyddol cyfartal i gyfrifon refeniw gwasanaeth drwy gydol oes y brydles.

1.18 Eiddo, Offer a Chyfarpar

Dosberthir asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu i bwrpasau gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol fel Eiddo, Offer a Chyfarpar. diaeth ar gyfer ased anghyffyrddadwy wedi ei gynhyrchu yn fewnol yn cael eu cwrdd.

Cydnabyddiaeth: Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail groniadau, cyn belled â'i fod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw'n llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddiannau economaidd i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth (hy trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul fel ag y mae'n digwydd.

Mesur: Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:

- y pris prynu
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol iddo fedru cael ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr (amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y lleolir ef arno.)

Tybir bod cost asedau a gaffaelir heblaw drwy bryniant i fod eu gwerth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (hy ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian yr Awdurdod). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan yr Awdurdod.

Pan fo enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario i'r Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau etifeddiaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu - cost dibrisiant hanesyddol pan wyddys hwnnw
- asedau dros ben – gwerth (marchnad) teg.
- pob ased arall – potensial gwasanaeth ar sail gwerth defnydd presennol (GDP), , a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol
  Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig (CAD) fel amcangyfrif o werth teg.

  Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Heblaw am gyfarpar systemau gwybodaeth, mae lefel de minimis o £10,000 wedi ei ddefnyddio ar gyfer cydnabyddiaeth asedau nad ydynt yn gyfredol.

  Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol o'u gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ar y lleiaf bob pum mlynedd. Mae cynnydd mewn ailbrisio'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. [Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan maent wedi codi o wyrdroi colled a godwyd yn flaenorol yn erbyn gwasanaeth.]

  Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdanynt trwy:
  pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus)
  pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabyddir ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu cyfnerthu yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

  Cydrannu: Mae'r Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor cydrannu i'r asedau sydd werth £150,000 neu fwy a lle bo'r gwahaniaeth mewn costau dibrisiant yn sylweddol. Mae'r egwyddor hon yn cael ei defnyddio er mwyn sicrhau bod yr elfennau hynny o'r eiddo â bywydau gweithredol gwahanol ac felly gwahanol raddau o ddibrisiant yn cael eu cydnabod ac y rhoddir cyfrif amdanynt.

  Amhariad: Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth. Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, ble bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.
- Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt trwy:

pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus)

- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrdroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrdroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer Dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydnabod.

Dibrisiant: darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (hy tir rhydd-ddaliad a rhai asedau cymunedol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (hy asedau sy'n cael eu hadeiladu). Nid yw asedau buddsoddi nac asedau a ddelir ar gyfer eu gwerthu yn cael eu dibrisio.

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:

- adeiladau – dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – canran o werth bob dosbarth o asedau yn y Fantolen, fel y cynghorir gan swyddog â chymwysterau addas

Dibrisir ar sail blwyddyn llawn yn y flwyddyn yr adnabyddir yr ased gyntaf yng nghyfrifon yr Awdurdod. Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân. Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Heb fod yn Gyfredol yn Cael eu Dal ar Gyfer Gwerthu

Pan y daw'n bosib y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased sy'n Cael ei Ddal i'w Werthu. Mae'r ased y cael ei ailbrisio yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel yn cael eu dal i'w gwerthu; addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael Eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

Nid yw asedau sydd wedi eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Pan geir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddatgomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu (hy wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10k a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'n ofynnol ar i'r derbyniadau cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio [neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol yr Awdurdod i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf)]. Mae derbyniadau'n cael eu meddiannu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilëir o warediadau'n cael ei godi ar y Gronfa Gyffredinol. Mae'r symiau hyn yn cael eu meddiannu i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

1.19 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Awdurdod sydd yn ôl pob tebyg angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod yr Awdurdod yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Darpariaethau

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol

Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth posib i'r awdurdod, y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud

fel arall ond naill ai nad yw'n debygol a bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.
Ni chydnabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau wrth gefn
Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r awdurdod, y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.
Ni chydnabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

1.20 Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Awdurdod yn gosod o'r neilltu symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn i ddibenion polisi'r dyfodol, neu i ymdrin â risgiau. Crëir cronfeydd wrth gefn trwy feddiannu symiau o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan y ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna meddiannir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, fel nad oes taliad net yn erbyn y Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeol a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio gan yr Awdurdod – eglurir y cronfeydd wrth gefn hyn yn y polisïau perthnasol.

1.21 Gwariant Refeniw a ariennir o Gyfalaf Dan Statud

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n creu ased nad yw'n gyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yna'n gwyrdroi'r symiau fel nad oes effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

1.22 Treth ar Werth

Mae'r TAW sy'n daladwy yn cael ei gynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'n adenilladwy gan Gyllid a Thollau EM. Mae'r TAW y gellir ei dderbyn yn cael ei eithrio o incwm. Arfer yr Awdurdod yw cynnwys yr holl dreth fewngyrch na ellir ei hadennill gan Gyllid a Thollau EM o fewn costau'r gwasanaethau perthnasol. O ganlyniad i'r newid yn nhrefniadau busnes cyfredol Plas Tan y Bwlch, nid oes cost TAW anadferadwy yno ar gyfer 2023/24.

2 Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu

Amcan y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yw dangos sut y mae'r cyllid sydd ar gael i'r Awdurdod (h.y. grantiau'r llywodraeth, rhenti, ffioedd a thaliadau ac ati,) am y flwyddyn wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu hefyd yn 10841010dangos sut y mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer dibenion gwneud penderfyniadau rhwng cyfarwyddiaethau'r cyngor. Mae'r incwm a'r gwariant a gyfrifir amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

2024/25					
	Gwariant Net yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	Addasaiadau rhwng y sail ariannu a Chyfrifyddu	**Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**	Addasiadau rhwng yr Alldro a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**Alldro**
	(£'000)	**(£'000)**	**(£'000)**	**(£'000)**	**(£'000)**
Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli Tir	2,361	1	2,360	(44)	2,404
(cynnwys cyfarthrebu)	5,056	160	4,896	1,234	3,662
Cost Net Gwasanaethau	**7,417**	**161**	**7,256**	**1,190**	**6,067**
Incwm a Gwariant Arall	(7,811)	-	(7,811)	(7,811)	-
Gwarged/ Diffyg	**(394)**	**161**	**(555)**	**(6,621)**	**6,067**
Balans Agoriadol	**(9,560)**				
Gwarged am y flwyddyn	(394)				
Balans Cau	**(9,953)**				
	(1,067)	Cronfa Gyffredinol			
	(8,886)	Cronfeydd wedi clustnodi (nodyn 9)			
	(9,953)				

2023/24					
	Gwariant Net yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	Addasaiadau rhwng y sail ariannu a Chyfrifyddu	**Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**	Addasiadau rhwng yr Alldro a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**Alldro**
	(£'000)	**(£'000)**	**(£'000)**	**(£'000)**	**(£'000)**
Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli Tir	1,818	128	1,691	3,940	2,249
(cynnwys cyfarthrebu)	4,806	(123)	4,930	1,359	3,571
Costau na ellir eu dosrannu	-	-	-	-	-
Cost Net Gwasanaethau	**6,624**	**5**	**6,621**	**5,299**	**5,821**
Incwm a Gwariant Arall	(8,345)	-	(8,345)	(8,345)	-
Gwarged/ Diffyg	**(1,721)**	**5**	**(1,724)**	**(3,046)**	**5,821**
Balans Agoriadol	**(7,839)**				
Gwarged am y flwyddyn	(1,721)				
Balans Cau	**(9,560)**				
	(895)	Cronfa Gyffredinol			
	(8,665)	Cronfeydd wedi clustnodi			
	(9,560)				

2a Nodyn ar yr Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a Chyfrifyddu

Addasiadau rhwng sail Ariannu a Chyfrifyddu 2024/25

Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i ffigyrau y Datganiad Incwm a Gwariant Chynhwysfawr	Newidiadau ar gyfer dibennion Cyfalaf	Newidiadau Net ar gyfer addasiadau pensiwn	Gwahaniaethau Eraill	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli Tir	46	(45)	-	1
Corfforaethol (cynnwys cyfarthrebu)	236	(76)	-	160
Costau na ellir eu dosrannu				
Cost Net Gwasanaethau	**282**	**(121)**	**-**	**161**
Incwm a Gwariant Arall				
	-	-	-	-
Gwahaniaeth rhwng y gwarged/diffyg ar y Gronfa Gyffredinol a'r gwarged/Diffyg ar gyflenwi gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant	**282**	**(121)**	**-**	**161**

Addasiadau rhwng sail Ariannu a Chyfrifyddu 2023/24

Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i ffigyrau y Datganiad Incwm a Gwariant Chynhwysfawr	Newidiadau ar gyfer dibennion Cyfalaf	Newidiadau Net ar gyfer addasiadau pensiwn	Gwahaniaethau Eraill	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli	116	12	-	128
Corfforaethol	(199)	76	-	(123)
Costau na ellir eu dosrannu				
Cost Net	**(83)**	**88**	**-**	**5**
Incwm a Gwariant Arall				
	-	-	-	-
Gwahaniaeth rhwng y gwarged/diffyg ar y Gronfa Gyffredinol a'r gwarged/Diffyg ar gyflenwi gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant	**(83)**	**88**	**-**	**5**

2b Nodyn ar yr Incwm a Gwariant ar sail Cyfadrannol

Incwm ar sail cyfadrannol		
Ffioedd ac incwm arall I wasanaethau	**2024/25 £'000**	**2024/25 £'000**
Cynllunio, Treftadaeth Ddiwylliannol a Rheoli Tir	(323)	(327)
Corfforaethol (cynnwys Cyfarthrebu)	(2,169)	(1,987)
	(2,492)	**(2,314)**

Costau 'heb fod yn arian' sylweddol ar sail Cyfadrannol

	Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli Tir		**Corfforaethol**		**Totals**	
	2023/24	**2024/25**	**2023/24**	**2024/25**	**2023/24**	**2024/25**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Dibrisiant	34	100	364	289	398	389
Colledion Ailbrisiad	-	-	-	582	-	582
Gwariant Refeniw a gyllidir o gyfalaf yn ôl statud	94	228	163	33	257	261
addasiad pensiwn IAS19	4	23	7	50	11	73
Addasiad croniad budd gweithwyr	(15)	22	(84)	26	(99)	48
Cyfanswm	**117**	**373**	**450**	**398**	**567**	**1,353**

2c Nodyn ar Wariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl eu Natur

Dadansoddiad Gwariant ac Incwm ar sail natur		
Dadansoddir gwariant ac incwm yr Awdurdod fel a ganlyn		
	2023/24	**2024/25**
	£'000	**£'000**
Gwariant		
Costau Cyflogaeth	5,630	5,831
Costau eraill i wasanaethau	5,746	6,649
Dibrisiant, amhariad a cholledion ailbrisiad	398	390
Cyfanswm Gwariant	**11,774**	**12,870**
	-	-
Incwm		
Ffioedd ac incwm eraill i wasanaethau	(2,492)	(2,314)
Llog net ar yr ymrwymiad net a ddiffinnir (addasiad pensiwn IAS 19)	(3)	15
Llog ac incwm buddsoddiad	(355)	(389)
Grantiau a chyfraniadau Llywodraeth	(2,661)	(3,334)
Incwm grant amhenodol	(7,987)	(7,402)
Enilliad ar waredu asedau	-	-
Cyfanswm Incwm	**(13,498)**	**(13,424)**
Diffyg/gwarged ar gyflenwi gwasanaethau	**(1,724)**	**(554)**

3. Safonau cyfrifyddu sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eto wedi'u mabwysiadu

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth ynghylch effaith ddisgwyliedig newid cyfrifyddu y bydd angen ei roi ar waith o ganlyniad i safon newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto. Ar ddyddiad y fantolen, roedd y safonau newydd canlynol a'r diwygiadau i safonau presennol wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig:

- IAS 21 Effeithiau Newidiadau mewn Cyfraddau Cyfnewid Tramor (Diffyg Cyfnewidadwyedd), a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023.
- IFRS 17 Contractau Yswiriant, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017.
- Mae'r newidiadau i'r broses o fesur asedau nad ydynt yn asedau buddsoddi yn y Cod 2025/26 yn cynnwys addasiadau a dehongliadau o IAS 16 Eiddo, Peiriannau ac Offer ac IAS 38 Asedau Anniriaethol. Mae'r rhain yn cynnwys nodi tair proses ailbrisio ar gyfer eiddo gweithredol, peiriannau ac offer, mynnu mynegeio ar gyfer asedau diriaethol nad ydynt yn asedau buddsoddi, a gofyniad i brisio asedau anniriaethol gan ddefnyddio'r dull cost hanesyddol. Cynhelir prisiad llawn o asedau'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2026 ac felly ni fydd unrhyw fynegeio yn cael ei gymhwyso.

Nid oes disgwyl y bydd y diwygiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol yr Awdurdod.

4. Barn gritigol mewn cymhwyso Polisïau Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu a nodir ar dudalennau 11-21, bu'n rhaid i'r Awdurdod wneud rhai dyfarniadau am drafodion cymhleth neu'r rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y dyfarniadau beirniadol a wnaed yn y Datganiad o Gyfrifon yw:

Mae lefel uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol ar gyfer llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigonol eto i roi mynegiad y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau darpariaeth gwasanaeth.

5. Rhagdybiaethau a wneir am y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifiedig sydd wedi eu seilio ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd i ystyriaeth brofiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon. Datgelir y rhagdybiaethau a wnaed gan yr Actwari yn gysylltiedig â'r Gronfa Bensiwn yn nodyn 36.

Eitem	**Ansicrwydd**	**Effaith os yw'r Canlyniadau Gwirioneddol yn Wahanol i'r Tybiaethau**
Atebolrwydd Pensiynau (nodyn 36)	Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n adlewyrchu'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac, ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Darperir asesiad o'r rhwymedigaethau gan Hymans Robertson. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 36.	Gall newidiadau cymharol fach yn y rhagdybiaethau a wneir gael effaith sylweddol ar yr atebolrwydd net pensiwn. Bydd yr atebolrwydd net pensiwn a ddangosir yn y fantolen ddim ond yn dod yn daladwy dros gyfnod ymddeol gweithwyr presennol a rhai wedi ymddeol, felly gellir lledaenu addasiadau i'r rhwymedigaeth dros nifer o flynyddoedd trwy newidiadau yng nghyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr. Mae cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr yn cael effaith uniongyrchol ar y gyllideb. Cyfeirir at effaith y newid mewn rhagdybiaethau yn nodyn 5 o'r Adroddiad Naratif.
Prisiadau eiddo (nodyn 13)	Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd. Cynhaliwyd prisiad llawn ar 1af Ebrill 2021. Mae'n bosibl y gallai gwerthoedd eiddo amrywio'n sylweddol o fewn y ffrâm amser 5 mlynedd. Yn y cyswllt hwn, cynhelir adolygiad blynyddol gan y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Eiddo i nodi unrhyw brisiadau dros dro (interim) sydd eu hangen.Mae prisiad hefyd wedi ei gynnal ar asedau 'DRC' ar 31 Mawrth 2024 i sicrhau bod eu gwerth yn cyd-fynd ar gwerth cyfredol, o ystyried cyflwr y farchnad. Mae'n seilio ei brisiadau ar ragdybiaethau am gyflwr asedau, bywydau defnyddadwy, gwerthoedd gweddilliol ac amodau'r farchnad. Mae'r dyfarniadau hyn yn cael eu hategu gan y wybodaeth orau sydd ar gael ac yn cael eu gwneud gan briswyr cymwys ond maent yn dal i fod yn seiliedig ar amcangyfrifon.	Byddai amrywiad yng ngwerth eiddo yn effeithio ar y gwerthoedd a ddelir yn y Fantolen ac ar y tâl dibrisio cyfatebol.

6. Eitemau perthnasol o incwm a threuliau

Derbyniodd yr Awdurdod grantiau penodol “un-tro” gan Llywodraeth Cymru gwerth £1,394k yn ystod 2024/25.

7. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Mae’r Datganiad Cyfrifon wedi eu cymeradwyo ar gyfer cyhoeddiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar 28/08/2026. Nid yw digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn wedi eu adlewyrchu’n y datganiadau ariannol na’r nodiadau. Lle mae digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa cyn 31ain Mawrth 2025, mae’r ffigyrau yn y datganiadau ariannol a’r nodiadau wedi eu addasu ymhob agwedd o sylwedd i adlewyrchu effaith y wybodaeth hwn.

8. Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu dan y rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir yn y cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu cywir i'r adnoddau y manylir arnynt gan ddarpariaethau statudol fel eu bod ar gael i'r Awdurdodi gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw i'r dyfodol.

2024/25	Cronfeydd wrth Genf Defnyddiadwy			
	Balans Cronfa Gyffredinol	Confeydd wrth gefn Derbynebion	Cronfa wrth genf Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso	mewn Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu
	£'000	£'000	£'000	£'000
ADDASIADAU YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF				
Gwyrdroi eitemau a dderbynwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyferedol	(972)	-	-	972
colledion ar ailbrisiad	-	-	-	-
Cwerth Llyfr asedau a waredwyd	-	-	-	-
Cymwyso grantiau a chyfraniadau cyfalaf	372	-	-	(372)
Gwariant Refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	(261)	-	-	261
	9			(9)
Mewnosod eitemau na ddebydwyd neu gredydwyd i'r datganiad Incwm a Gwariant				
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a ddefnyddiwyd yn 2023/24	-	-	114	(114)
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a drosglwyddwyd i refeniw yn 2023/24	(63)	-	-	63
Taliadau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Cyffredinol	620	-	-	(620)
ADDASIADAU YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF				
Grant cyfalaf ddebyniwyd yn 2023/24 a drosglwyddwyd I refeniw yn 2023/24	-	-	-	-
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf na ddefnyddiwyd wedi eu credydi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	577	-	(577)	-
ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y GRONFA DERBYNIADAU CYFALAF				-
Derbyniadau cyfalaf a ddefnyddiwyd yn 2023/24	-	-	-	-
Derbyniadau cyfalaf na ddefnyddiwyd yn 2023/24	-	-	-	-
ADDASIAD YN CYNNWYD YN BENNAF Y GRONFA BENSWIN WRTH GEFN				
Gwyrdroi eitemau yn gysyltiedig a buddianau ymddeol wedi ei debydu neu gredydu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	(886)	-	-	886
Cyfraniadau penswin cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn y flwyddyn	813	-	-	(813)
ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ABSENOLDEBAU CRONNUS				
Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwddyn yn unol a'r gofynion statudol	(48)	-	-	48
Cyfanswm Addasiadau	**161**	**-**	**(463)**	**302**

2023/24	Cronfeydd wrth Genf Defnyddiadwy			
	Balans Cronfa Gyffredinol	Confeydd wrth gefn Derbynebion	Cronfa wrth genf Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso	mewn Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu
	£'000	£'000	£'000	£'000
ADDASIADAU YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF				
Gwyrdroi eitemau a dderbynwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyferedol	(705)	-	-	705
colledion ar ailbrisiad	-	-	-	-
Cwerth Llyfr asedau a waredwyd	-	-	-	-
Cymwyso grantiau a chyfraniadau cyfalaf	635	-	-	(635)
Gwariant Refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	(257)	-	-	257
Mewnosod eitemau na ddebydwyd neu gredydwyd i'r datganiad Incwm a Gwariant	-	-	-	-
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a ddefnyddiwyd yn 2023/24	-	-	532	(532)
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a drosglwyddwyd i refeniw yn 2023/24	-	-	-	-
Taliadau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Cyffredinol 2023/24	1	-	-	(1)
ADDASIADAU YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF				
Grant cyfalaf ddebyniwyd yn 2023/24 a drosglwyddwyd I refeniw yn 2023/24	-	-	-	-
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf na ddefnyddiwyd wedi eu credydi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	258	-	(258)	-
ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y GRONFA DERBYNIADAU CYFALAF				
Derbyniadau cyfalaf a ddefnyddiwyd yn 2023/24	-	-	-	-
Derbyniadau cyfalaf na ddefnyddiwyd yn 2023/24	-	-	-	-
ADDASIAD YN CYNNWYD YN BENNAF Y GRONFA BENSWIN WRTH GEFN				
Gwyrdroi eitemau yn gysyltiedig a buddianau ymddeol wedi ei debydu neu gredydu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	(204)	-	-	204
Cyfraniadau penswin cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn y flwyddyn	755	-	-	(755)
ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ABSENOLDEBAU CRONNUS				
Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwddyn yn unol a'r gofynion statudol	99	-	-	(99)
Cyfanswm Addasiadau	**582**	**-**	**274**	**(856)**

9. Trosglwyddiadau o/i Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd

	Gweddill 31 Mawrth 2023	Trosglwyddiadau allan 2023/24	Trosglwyddiadau i fewn 2023/24	Gweddill 31 Mawrth 2024	Trosglwyddiadau allan 2024/25	Trosglwyddiadau i fewn 2024/25	Gweddill 31 Mawrth 2025
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfeydd wrth gefn refeniw a chyfalaf (symiau wedi eu cymeradwyo fel gwariant clutnodedig)	(358)	300	(273)	(331)	284	(70)	(117)
Cronfa Risgiau Penodol (i gwrdd a phwysau cyllidebol tebygol)	(668)	-	-	(668)	261	(5)	(412)
Cronfa wth gefn cynllunio (i gwrdd a chostau ymchwiliad cyhoeddus)	(225)	-	-	(225)	-	-	(225)
Cronfa wrth gefn arian cyfatebol (i bwrpas cronfa cyd-gyfeiriant)	(903)	25	-	(878)	59	-	(819)
Cronfa wrth gefn refeniw	(1,387)	281	(9)	(1,115)	360	(338)	(1,093)
Cronfa wrth gefn incwm Pen y Pass (ar gyfer adnoddau yn perthyn i'r Wyddfa	(56)	-	-	(56)	-	-	(56)
Cronfa wrth gefn Adain 106 (at bwrpasau cartrefi fforddiadawy)	(597)	-	(62)	(659)	52	(47)	(654)
Cronfa wrth gefn prosiectau	(1,045)	79	(360)	(1,326)	410	(459)	(1,375)
Cronfa wrth gefn Rheoli Asedau	(1,002)	-	-	(1,002)	334	(311)	(980)
Cronfa Gwytnwch Staff	(400)	-	-	(400)	28	-	(372)
Cronfa Risgiau Masnachol	(100)	-	-	(100)	-	-	(100)
Cronfa Her Ariannol	-	-	(1,905)	(1,905)	641	(1,419)	(2,683)
Is-gyfanswm	**(6,741)**	**685**	**(2,609)**	**(8,665)**	**2,429**	**(2,649)**	**(8,886)**
Cronfeydd Eraill							
Cronfa Gyffredinol	(1,098)	891	(688)	(895)	396	(568)	(1,067)
Cyfalaf:							
Grantiau cyfalaf heb eu defnyddio	(2,147)	421	(146)	(1,872)	114	(577)	(2,335)
Cronfa Derbynebion Cyfalaf (i gyllido gwariant cyfalaf yn unig)	(164)	-	-	(164)	-	-	(164)
Total	**(10,150)**	**1,997**	**(3,443)**	**(11,596)**	**2,939**	**(3,794)**	**(12,452)**

10. Gwariant Gweithredol Arall

2023/24		2024/25
£'000		£'000
0	Enillion/colledion ar waredu asedau nad ydynt yn gyfredol	**(35)**

11. Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi

2023/24		2024/25
£'000		£'000
(3)	Cost llog pensiwn a dychweliad disgwyliedig ar asedau pensiwn	15
(355)	Llog y gellir ei dderbyn ac incwm tebyg	(389)
100	**Cyfanswm**	**(374)**

12. Incwm Grant Amhenodol

2023/24		2024/25
£'000		£'000
(5,325)	Grant Parc Cenedlaethol	(5,602)
(1,373)	Ardollau ar Awdurdodau Cyfansoddol	(1,373)
(1,289)	Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	(426)
(7,987)	**Cyfanswm**	**(7,402)**

13. Eiddo, Offer A Chyfarpar

Symudiadau ar falansau

2024/25	Tir ac Adeiladau	Asedau Hawl i'w Defnyddio	Cerbydau, Offer a Cyfarpar	Cymuned	Asedau Dros Ben	Asedau yn cael eu Adeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad							
Ar 1 Ebrill 2024	17,712	-	1,678	627	40	73	20,130
Ychwanegiadau	708	731	156				1,595
Gwargediadau			(191)				(191)
Ailddosbarthiad							-
Ail-brisiad i'r datganiad IaGC							-
Colledion i'r Gronfa Ailbrisiad	549						549
Ar 31 Mawrth 2025	**18,969**	**731**	**1,643**	**627**	**40**	**73**	**22,083**
Dibrisiant ac Amhariad							
Ar 1 Ebrill 2024	(4,461)		(1,276)	(7)	-	-	(5,744)
Dibrisiant	(208)		(152)				(360)
Gwarediadau			191				191
Ailddosbarthiad							-
Impairment	(582)						(582)
	(126)						(126)
Ar 31 Mawrth 2025	**(5,378)**	**-**	**(1,237)**	**(7)**	**-**	**-**	**(6,621)**
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2025	**13,591**	**731**	**406**	**620**	**40**	**73**	**15,462**
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024	13,251	-	402	620	40	73	14,386

2023/24	Tir ac Adeiladau	Cerbydau, Offer a Cyfarpar	Cymuned	Asedau Dros Ben	Asedau yn cael eu Adeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad						
Ar 1 Ebrill 2023	16,832	1,703	627	40	227	19,429
Ychwanegiadau	776	135				911
Gwargediadau		(110)				(110)
Ailddosbarthiad	104	18			(154)	(32)
Ail-brisiad i'r datganiad IaGC						-
Colledion i'r Gronfa Ailbrisiad						-
Ar 31 Mawrth 2024	**17,712**	**1,746**	**627**	**40**	**73**	**20,198**
Dibrisiant ac Amhariad						
Ar 1 Ebrill 2023	(3,477)	(1,289)	(7)	-	-	(4,773)
Dibrisiant	(193)	(165)				(358)
Gwarediadau		110				110
Ailddosbarthiad						-
Impairment	(321)					(321)
	(455)					(455)
Ar 31 Mawrth 2024	**(4,446)**	**(1,344)**	**(7)**	**-**	**-**	**(5,797)**
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024	**13,265**	**402**	**620**	**40**	**73**	**14,401**
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023	13,355	414	620	40	227	14,656

Dibrisiant

Codir am ddibrisiant asedau sefydlog ar sail llinell syth i ddileu eu cost llai unrhyw werth gweddilliol rhagamcanedig mewn rhandaliadau dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased ar y seiliau canlynol:-

Tir ac Eiddo Gweithredol	: rhwng 10 – 60 mlynedd
Asedau Cymunedol	: dim
Offer Systemau Gwybodaeth	: 3 blynedd
Cerbydau	: dros 7 mlynedd i werth dim.
Dodrefn ac Offer Arall	: oes weithredol amcangyfrifiedig

Ailbrisiadau

Bu ail-brisiad o holl asedau tir ac eiddo ar 1af Ebrill 2021

Asedau Hawl i Ddefnyddio

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu IFRS 16, Prydlesi, gyda effaith o 1 Ebrill 2024. Mae'r Cod yn mynnu bod IFRS 16 yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol, ond bod yr effaith gronnol yn cael ei chydnabod ar 1 Ebrill 2024. Mae hyn yn golygu bod asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau prydles wedi'u cyfrifo fel petai IFRS 16 wedi bod yn gymwys erioed, ond eu bod wedi'u cydnabod yn 2024/25 heb addasu ffigurau'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r Awdurdod yn sicrhau bod ei asedau hawl i ddefnyddio, y mae'n ofynnol eu mesur ar werth cyfredol, yn cael eu hailbrisio o dan raglen dreigl bum mlynedd gan brisiwr yr Awdurdod. Cynhelir pob prisiad yn unol â'r methodolegau a'r sail amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS).

Ymrwymiadau Cyfalaf

Yr unig ymrwymiad cyfalaf sydd gan yr Awdurdod ar gontract tendr ar 31/03/2025 ydy:

Cynllun Trefadaeth Dolgellau £29K.

(Ar 31/03/2024, yr unig ymrwymiad cyfalaf oedd gan yr Awdurdod ar gontract tendr oedd Cynllun Treftadaeth Dolgellau - £151k).

14. Asedau Treftadaeth

Mae dosbarthiad yr Awdurdod o asedau treftadaeth diriaethol yn ymwneud â :

- **Melin Lechi Ynys y Pandy** - adeilad rhestredig heb ddefnydd gweithredol, a gafodd ei dynnu oddi ar brisiad y tir a'r adeiladau yn 2011/12 gan ei bod islaw'r lefel de-minimis.
- **Craig yr Aderyn** – Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a gedwir am ei nodweddion amgylcheddol. Prisiad ar sail "gwerth defnydd presennol".
- **Yr Ysgwrn** – cartref y bardd Hedd Wyn a brynwyd i ddiogelu ei dreftadaeth ddiwylliannol. Mae'r asedau yma yn cael eu dal ar sail cost hanesyddol.

2024/25		Ynys y Pandy Slate Mill	Craig yr Aderyn	Ysgwrn	Cyfanswm
		£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2023		-	28	870	898
Ychwanegiadau				-	-
Ailddosbarthiad		-	-	-	-
Ailbrisiad i'r DIaGC					-
Ar 31 Mawrth 2024		**-**	**28**	**870**	**898**
Dibrisiant ac Amhariad Cronnus					
1 Ebrill 2023		-	-	(114)	(114)
Dibrisiant		-	-	(11)	(11)
Ar 31 Mawrth 2024		**-**	**-**	**(125)**	**(125)**
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2024		**-**	**28**	**745**	**772**
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2023		-	28	756	784

2023/24		Ynys y Pandy Slate Mill	Craig yr Aderyn	Ysgwrn	Cyfanswm
		£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2023		-	28	870	898
Ychwanegiadau		-	-	-	-
Ailddosbarthiad					
Ailbrisiad i'r DIaGC		-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2024		**-**	**28**	**870**	**898**
		-	-	-	-
Dibrisiant ac Amhariad Cronnus		-	-	-	-
1 Ebrill 2023		-	-	(103)	(103)
Dibrisiant		-	-	(11)	(11)
Ar 31 Mawrth 2024		**-**	**-**	**(114)**	**(114)**
		-	-	-	-
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2024		**-**	**28**	**756**	**784**
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2023		-	28	779	807

15. Asedau Anghyffyrddadwy

Mae dosbarthiad yr Awdurdod o asedau anghyffyrddadwy yn ymwneud â datbygiad gwefan:

2024/25	Gwefan	Meddalwedd	Total
	£'000	**£'000**	**£'000**
Cost neu brisiad			
Ar 1 Ebrill 2023	109	100	209
Ychwanegiadau	-		-
Ailddosbarthiad	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2024	**109**	**100**	**209**
Amorteiddiad ac Amhariad Cronnus			
1 Ebrill 2023	(27)	(68)	(95)
Amorteiddiad	(14)	(4)	(18)
		-	-
Ar 31 Mawrth 2024	**(41)**	**(72)**	**(113)**
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2024	**68**	**28**	**96**
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2023	82	32	114

2023/24	Gwefan	Cynllun Llysgenhadon	Total
	£'000	**£'000**	**£'000**
Cost neu brisiad			
Ar 1 Ebrill 2023	109	-	109
Ychwanegiadau	-	-	-
Ailddosbarthiad	-	32	32
Ar 31 Mawrth 2024	**109**	**32**	**141**
Amorteiddiad ac Amhariad Cronnus			
1 Ebrill 2023	(13)	-	(13)
Amorteiddiad	(14)	-	(14)
Ar 31 Mawrth 2024	**(27)**	**-**	**(27)**
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2024	**82**	**32**	**114**
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2023	96	96	96

16. Asedau Ar Werth

Ar 31/3/2025 nid oedd ased ar werth gan yr Awdurdod. (Ar 31ain Mawrth 2024 nid oedd unrhyw ased wedi ei ddynodi'n Ased ar Werth).

17. Buddsoddiadau Tymor Byr

Ar 31/3/2025, roedd gan yr Awdurdod adneuon tymor gwerth £7,497k (£7,319k ar 31ain Mawrth 2024).

18. Dyledwyr

2023/24		2024/25
£'000		£'000
	Symiau ddaw'n ddyledus o fewn un flwyddyn:	
173	Masnach	65
102	Blaendaliadau	35
821	Eraill	1,286
1,096		**1,386**
	Dyledwyr Tymor Hir (symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn)	
57	Benthyciadau Ceir i Weithwyr	59
57		**59**

19. Arian a chyfateb ag arian

Mae'r balans o Arian a Chyfateb ag Arian yn cynnwys yr elfennau canlynol :

31 Mawrth 2024		31 Mawrth 2025
£'000		£'000
2	Arian sy'n cael ei ddal gan yr Awdurdod	2
705	Cyfrifon banc cyfredol	1,174
4,431	Adneuon tymor byr gyda banciau	3,773
5,138	**Cyfanswm Arian a Chyfateb ag Arian**	**4,948**

20. Credydwyr

2023/24		2024/25
£'000		£'000
	Taladwy o fewn blwyddyn:	
(716)	Masnach	(1,090)
(367)	Eraill	(428)
(1,083)		**(1,518)**
	Taladwy o fewn mwy na blwyddyn:	
-	Rhwymedigaethau lesau	(713)
-		**(713)**

21. Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy

Mae manylion ar symudiadau yng Nghronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod fel a nodir yn y Datganiad ar Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn (a nodyn 9).

22. Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio

2023/24		2024/25
£'000		£'000
(7,807)	Cronfa wrthgefn Ailbrisiad	(8,194)
(7,523)	Cyfrifon Addasiadau Cyfalaf	(7,378)
278	Cronfa wrth gefn Pensiynau	221
272	Cyfrif Absenoldebau Cronnus	253
(14,780)		**(15,098)**

CRONFA AILBRISIANT WRTH GEFN

Mae'r Gronfa Ailbrisiant wrth gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar (ac Asedau Anghyffyrddadwy). Mae'r balans yn gostwng pan fo asedau gydag enillion cronnus yn:

- Cael eu hailbrisio i lawr neu eu amharu a'r enillion yn cael eu colli
- Cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli trwy ddibrisiant, neu
- Cael eu gwaredu a gwireddu'r enillion

Dim ond enillion a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y gronfa wrth gefn, y dyddiad crëwyd y Gronfa Wrth Gefn. Mae enillion cronnus a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cadarnhau i'r balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2023/24		2024/25
£'000		£'000
(8,281)	**Balans ar 1 Ebrill**	**(7,807)**
-	Cynnydd Ailbrisiant asedau	**(548)**
455	Colledion ailbrisiant asedau a cholledion amhariad na chodwyd ar y Gwarged/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	**126**
455	Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisiant asedau nad ydynt yn gyfredol na chawsant eu postio i'r gwarged neu ddiffyg ar Ddarparieth y Swm a ddilewyd i'r swm addasiad Cyfalaf	**(422)**
21	Enillion dibrisiant a ailbriswyd ac a ddilewyd i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf	**35**
(7,807)	**Balans ar 31 Mawrth**	**(8,194)**

Cyfrif Addasiad Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo ar gyfer defnydd asedau nad ydynt yn gyfredol a chyllido caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda chost caffael, adeiladu neu wella fel dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda phostio cymodi o'r Gronfa Ailbrisiad Wrth Gefn i drosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda symiau a osodir o'r neilltu gan yr Awdurdod fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronnus ar Eiddo Buddsoddiad a chydnabyddir yr enillion ar asedau sy'n rhoddion ac sydd eto i'w defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisiad cronnus ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisiad Wrth Gefn i ddal y fath enillion.

Mae Nodyn 8 yn rhoi manylion ffynhonnell yr holl drafodion a bostiwyd i'r Cyfrif, heblaw am y rheiny oedd yn cynnwys y Gronfa Ailbrisiad Wrth Gefn.

2023/24		2024/25
£'000		£'000
(7,313)	Balans ar 1 Ebrill	(7,523)
	Gwyrdroi eitemau cysylltiedig a gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	
720	Taliadau am ddibrisiant ac amhariad o asedau nad ydynt yn gyfredol	972
-	Enillion/colledion ailbrisiant ar Eiddo/ Offer a Chyfarpar	-
-	Angehnion Cyllido Asedau Hawl I Ddefnyddio	(9)
258	Gwariant Refeniw a ariennir o Gyfalaf dan Statud	261
(6,335)	Amcan gost Ased a ddelir fel 'Ased i'w werthu'	**(6,299)**
	Addasiadau o'r Gronfa Ailbrisio	
(21)	Addasiad Dibrisiant	(35)
(6,356)	**Swm Net a ddilewyd o gost asedau nad ydynt yn gyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn**	**(6,334)**
	Ariannu Cyfalaf a gymhwyswyd yn y flwyddyn	
	Defnydd derbynebion cyfalaf i ariannu gwariant Cyfalaf newydd	63
(635)	Grantiau a chyfraniadau Cyfalaf a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant cynhwysfawr sydd wedi ei cymhwyso i gyllido Cyfalaf	(372)
(532)	Defnydd o grantiau o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso	(114)
(1)	Gwariant Cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau'r Gronfa Gyffredinol	(620)
(7,523)	Balans ar 31 Mawrth	**(7,378)**

Cronfa wrth gefn Pensiynau

Mae'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo i fuddiannau ôl gyflogaeth a chyllido buddiannau yn unol a darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel buddiannau a enillwyd gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, diweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau a dychweliadau buddsoddi ar unrhyw adnoddau a osodir o'r neilltu i gwrdd â chostau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillir gael eu cyllido fel y bo'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y diwedd yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly mae'r balans dyled ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau mae'r Awdurdod wedi eu rhoi o'r neilltu i gwrdd â nhw. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd ariannu wedi ei roi o'r neilltu erbyn yr amser y daw'r buddiannau'n ddyledus i'w talu.

2023/24		**2024/25**
£'000		**£'000**
(63)	Balans ar 1 Ebrill	278
330	Colledion/ elw actwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiynau	(98)
794	Gwyrdroad eitemau cysylltiedig a buddiannau ymddeol a ddebydir ney a gredydir i Warged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	886
(783)	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn y flwyddyn	(813)
278		**253**

Cyfrif Absenoldebau Cronnus

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronnus yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chymerwyd yn y flwyddyn e.e. hawliau gwyliau blynyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2023/24		2024/25
£'000		£'000
272	Balans ar 1 Ebrill	172
(272)	Setliad neu ddiddymu'r croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	(172)
172	Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	221
(100)	Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol a gofynion statudol	(49)
172	**Balans ar 31 Mawrth**	**221**

23. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau gweithredol

Mae'r "addasiadau i'r gwarged net neu ddiffyg ar y ddarpariaeth gwasanaethau o symudiadau nad ydynt yn arian parod" yn cynnwys:

2023/24		2024/25
£'000		£'000
(398)	Dibrisiant ac Amhariad	(390)
	Colledion ailbrisiad ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	
(322)	Colled Gwerth Llyfr ar werthiant Asedau	(582)
410	Symudiadau mewn Credydwyr	484
(325)	Symudiadau mewn Dyledwyr	292
48	Symudiad mewn Stoc	(46)
17	Costau darpariaeth gwasanaethau ar gyfer Cuddianau ôl-gyf	(73)
(570)	**Balance at 31 March**	**(315)**

24. Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Buddsoddi

2023/24		2024/25
£'000		£'000
(910)	Pryniant Eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anghyffyrddadwy	1,595
-	Derbyniadau o werthiant eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anghyffyrddadwy	(35)
(268)	Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir	177
891	Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi	(1,040)
(288)	**Balans 31 Mawrth**	**696**

25. Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Ariannu

2023/24		2024/25
£'000		£'000
54	Ad-daliadau benthyciadau ceir a llog perthnasol	2
54	**Balans 31 Mawrth**	**2**

26. Lwfansau Aelodau

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Y lwfansau a dalwyd i aelodau oedd:-

2023/24 £'000		2024/25 £'000
107	Lwfansau Aelodau	107
2	Teithio & Chynhaliaeth	4
109		**107**

Gwybodaeth bellach ar gael ar wefan yr Awdurdod:
Members' Allowances Scheme

27. Tâl Staff

Mae Rheoliad 7A o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu taliadau gweithwyr.

Yn ôl Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu cymhareb cyflogau rhwng y cyflog canolig o holl weithwyr yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr yn ystod y flwyddyn.

2023/24		2024/25
(£'000)		(£'000)
102	Prif Weithredwr	100
31	Cyflog Canolig APCE	32
3.3	Cymhareb	3.1

Mae'r tâl perthnasol i uwch weithwyr yr Awdurdod fel a ganlyn :

2023/24				2024/25		
Cyflog	**Cyfraniad Pensiwn y Cyflogwr**	**Cyfanswm**		**Cyflog**	**Cyfraniad Pensiwn y Cyflogwr**	**Cyfanswm**
£'000	**£'000**	**£'000**		**£'000**	**£'000**	**£'000**
106	19	125	Prif Weithredwr (Ebrill-Mehefin2024)	28	3	31
8	2	10	Prif Swyddog Cyllid (Adran 151)*	8	2	10
72	13	85	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol/ Prif Weithredwr Dros Dro (Mehefin-Hydref 2024)	83	8	91
72	13	85	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Tir/ Prif Weithredwr (Tachwedd-Mawrth 2025)	83	8	91

* Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd yn Bennaeth Cyllid yng Nghyngor Gwynedd, mae'r berthynas hon wedi ei datgan yn nodyn 30 – Partion Cysylltiedig.

Ni dderbyniodd unrhyw swyddog swm dros £60k (gan hepgor cyfraniad pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr) yn cynnwys taliad diswyddo yn 2024/25.

Nifer swyddogion a dderbyniodd fwy na £60k yn cynnwys Cyflog a Budd Diswyddo						
2023/24				2024/25		
Cynllunio a Rheoli Tir	Corfforaethol	Cyfanswm	Amrediad	Cynllunio a Rheoli Tir	Corfforaethol	Cyfanswm
0	0	0	60,000 - 64,999	0	0	0
0	0	0	65,000 - 69,999	0	0	0

Buddiannau Terfynu

Mae nifer y pecynnau ymadael â chyfanswm y gost fesul band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi'u nodi yn y tabl isod:

Cost pecyn gadael	**Nifer diswyddiadau gorfodol**		**Nifer diswyddiadau eraill**		**Cyfanswm pecyn gadael fesul band cost**		**Cyfanswm costpecyn gadael ym mhob band**	
	2023/24	**2024/25**	**2023/24**	**2024/25**	**2023/24**	**2024/25**	**2023/24**	**2024/25**
£'000							**£'000**	**£'000**
0-40	5	4	0	2	5	6	44	25
40-60	0	0	0	0	0	0	0	0
60-80	0	0	0	0	0	0	0	0
80-100	0	0	0	0	0	0	0	0
100-150	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**5**	**4**	**0**	**2**	**5**	**6**	**44**	**25**

28. Costau archwilio allanol

Mae'r costau yn ôl cynllun archwilio Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt archwilio'r Datganiad Cyfrifon, ardystio hawliadau grant ac archwiliadau statudol ac am wasanaethau nad oeddynt yn rhai archwilio a ddarparwyd gan archwilwyr allanol yr Awdurdod fel a ganlyn:-

2023/24 £'000	**Maes Rheoliadol**	**2023/24 £'000**
57	Ffioedd sy'n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt gwasanaethau archwilio allanol a wnaed gan yr archwilydd penodedig	69
18	Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru yng nghyswllt archwiliadau statudol a Mesur LIL 2009	20
75	**Cyfanswm**	**89**

29. Incwm Grantiau

Mae'r Awdurdod wedi rhoi'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol mewn credyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2024/25.

2023/24				2024/25
£'000				£'000
		Grantiau Refeniw		
		Credydwyd i Wasanaethau		
		Cynllunio a Rheoli Tir		
305		Cyfoeth Naturiol Cymru		438
3		Ymddiriedolaeth Genedlaethol		12
10		RSPB		10
416		EU LIFE		336
131		Llywodraeth Cymru		73
32		Awdurdod Lleol		22
241		Cronfa Treftadaeth		390
20		CADW		20
25		Coed Cadw		15
222		Grid Cenedlaethol		112
78		CGGC		98
69		Eraill		15
1,554				**1,541**
		Corfforaethol		
-		Awdurdod Lleol		1
20		HMRC (cynllun seibiant swyddi)		-
-		Eraill		14
20				**15**
1,574		**Cyfanswm Grantiau Refeniw**		**1,556**

2023/24				2024/25
£'000				£'000
		Grantiau Cyfalaf		
		Wedi ei credydu i Incwm Grant Amhenodol		
		Cynllunio a Rheoli Tir		
917		Llywodraeth Cymru		173
917				173
		Corfforaethol		
372		Llywodraeth Cymru		253
372				253
1,289		**Is-gyfanswm**		**426**
		Credydwyd i Wasanaethau		
		Cynllunio a Rheoli Tir		
461		Llywodraeth Cymru		413
90		Cronfa Dreftadaeth y Loteri		-
274		WCVA		710
42		Grid Cenedalethol		162
20		Eraill		10
887				**1,295**
		Corporate		
201		Llywodraeth Cymru		482
201				**482**
1,088		**Is-gyfanswm**		**1,777**
2,377		**Cyfanswm**		2,203
		Capital Grants Received in Advance		
532		Llywodraeth Cymru		114
532		Is-gyfanswn		**114**
2,909		**Cyfanswm Grantiau Cyfalaf**		**2,317**

2023/24 £'000	Grantiau o flaen llaw	2024/25 £'000
	Symiau yn daladwy o fewn un flwyddyn	
(1,215)	Grantiau dderbyniwyd ymlaen llaw	(296)
(1,215)		**(296)**
	Credydwyr Tymor Hir (symiau sy'n daladwy ar ôl un flwyddyn)	
(33)	Grantiau dderbyniwyd ymlaen llaw	(33)
(33)		**(33)**

Mae'r Awdurdod wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd heb eto cael eu hadnabod fel incwm, gan bod amodau cysylltiedig a olygir byddai angen dychwelyd yr arian os na fydd yr Awdurdod yn cwrdd ar gofynion. Mae'r balansau ar ddiwedd blwyddyn fel y ganlyn.

Mae'r £296k ar gyfer Credydwyr Tymor Byr yn cynrychioli :

- £174k Cynllun LIFE
- £81k Mind the Gap
- £14k Awyr Dywyll
- £26k Ffermio Bro
- £1k Nant Peris TAIS

30. Partïon Cysylltiedig

Mae gofyn i'r Awdurdod ddatgelu trafodion materol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu arnynt gan yr Awdurdod. Mae datgeliadau o'r trafodion hyn yn caniatáu i ddarllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu yn annibynnol neu yr oedd wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu gallu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod.

Llywodraeth Cymru
Mae Llywodraeth Cymru'n cael dylanwad sylweddol trwy ddeddfwriaeth ac arian grant. Datgelir y symiau perthnasol yn nodiadau 12 ("incwm grant amhenodol") a 29 ("incwm grant").

Aelodau
Mae gan Aelodau'r Awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredol yr Awdurdod. Cofnodir manylion buddiannau'r aelodau yng nghofrestriadau'r Gofrestr Aelodau, y gellir eu harchwilio gan y cyhoedd yn swyddfeydd yr Awdurdod yn ystod oriau gwaith.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinwyd) mewn cwmniau, busnesau a seflydliadau, cyrff cyhoeddus ac awdurdodau.

Mae crynodeb o daliadau perthnasol yn ystod 2024/25, a balansau ar 31 Mawrth 2025 fel y ganlyn:

Gwariant	Symiau sydd yn ddyledus gan yr Awdurdod	Incwm	Symiau sydd yn ddyledus i'r Awdurdod
£'000	£'000	£'000	£'000
557	154	1,448	42

Cyrff Cyhoeddus Eraill
Mae'r Awdurdodau cyfansoddiadol hynny lle mae terfyn yr Awdurdod hwn yn rhedeg o fewn eu terfynau hwy yn cyfrannu at gyllid yr Awdurdod trwy lefi statudol a ddynodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdodau hyn yn cyflenwi nifer o Aelodau i wasanaethu ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac mae'r nifer yn cyfateb yn fras i faint y lefi a gyfrennir a maint eu hardal o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae cynrychiolaeth 18 aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei rannu fel a ganlyn - Cyngor Gwynedd (9), Cyngor Conwy (3), Llywodraeth Cymru (6). Mae manylion pellach i'w cael o raglen yr Awdurdod ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir ym mis Mehefin.

Yn ogystal derbynnir grantiau ar gyfer dibenion penodol gan neu drwy gyfrwng awdurdodau lleol a dangosir cyfanswm rhain yn nodyn 29.

Swyddogion

Mae swyddogion wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinwyd) mewn cwmniau, busnesau a seflydliadau, cyrff cyhoeddus ac awdurdodau. Mae crynodeb o daliadau perthnasol yn ystod 2023/24, a balansau ar 31 Mawrth 2024 fel y ganlyn:

Gwariant	Symiau sydd yn ddyledus gan yr Awdurdod	Incwm	Symiau sydd yn ddyledus i'r Awdurdod
£	£	£	£
-	-	24	21

Mae Prif Swyddog Cyllid yr Awdurdod hefyd yn Bennaeth Cyllid yng Nghyngor Gwynedd.

Endidau a reolir neu y dylanwadir yn sylweddol arnynt gan yr Awdurdod
Mae'r Awdurdod yn rhoi grantiau i gyrff at ddibennion penodol trwy Gronfa Partneriaethau Eryri ond ni ystyrir fod gan yr Awdurdod reolaeth, rheolaeth ar y cyd na ddylanwad sylweddol ar y cyrff hyn.

Roedd gan yr Awdurdod gontractau gyda Chyngor Gwynedd i ddarparu'r gwasanaethau canlynol yn ystod 2024/25:

- Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn a Gwasanaeth Cefnogol y Gyflogres (£6k)
- Gwasanaeth Archwilio Mewnol (8k)

Mae gan yr Awdurdod fuddiant mewn Partneriaeth Rhwymedigaeth Cyfyngedig (Partneriaeth Parciau Cenedlaethol) ar y cyd gyda 14 o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill gyda'r diben o gynhyrchu incwm yn bennaf o nawdd. Mae corff elusennol wedi ei sefydlu sydd yn ategol i'r Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol ar gyfer codi arian i'r parciau cenedlaethol.

31. Gwariant Cyfalaf a Chyllido Cyfalaf

Gweler y cyfanswm o wariant cyfalaf yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w gyllido.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
-	**Gofynion Cyllido Cyfalaf Agoriadol**	-
	Buddsoddiadau Cyfalaf	
	Eiddo, Peiriannau ac Offer	
	Cynllunio, Treftadaeth Diwylliannol a Rheoli Tir	
2	Cynlluniau Treftadaeth	-
43	System Gwasanaeth Cynllunio	-
-	Cerbydau	124
74	Twristiaeth	-
1	Coedlannau	-
120		**124**
	Corfforaethol (cynnwys Cyfarthrebu)	
4	Uwchraddio cyfleusterau cyhoeddus	-
4	Gwelliannau Pencadlys	-
-	T.G - rhaglen amnewid gyffredinol	18
-	Scrin Rhyngweithiol Nant Peris	17
3	Canolfan Wybodaeth Betws y Coed	32
17	T.G (Cynlluniau Grant Llyw.Cymru a T.C.Ll.C)	-
-	Dadcarboneiddio	120
22	Dol Idris	-
256	Beddgelert	-
5	Cyflenwad Trydan i Geir	-
230	Plas Tan y Bwlch gwelliannau	-
244	Hafod Eryri	556
6	Gorsafoedd Dwr	-
791		**743**
911		**867**

2023/24 £'000	Gwariant Refeniw Gyllidir o Gyfalaf dan Statud	2024/25 £'000
	Cynllunio a Rheoli Tir	
15	Cynlluniau Amgylchedd Adeiledig	18
252	Treftadaeth Treflun Dolgellau	140
1	Coedlannau (grant T.C.LL.C)	-
-	Prosiectau Amaeth a Chadwraeth	188
194	Terfynnau Traddodiadol (grant T.C.LL.C)	96
126	Natur Eryri (grant T.C.LL.C)	112
27	Prosiect Ty Natur	-
33	Llwybr Carneddau	25
1	Biodiversity (Welsh Govt. grant)	8
54	Harlech Restoration programme	58
42	MIND THE GAP	94
221	Llefydd Leol Natur	417
966		**1,156**
	Corfforaethol	
80	Cadair Idris	34
20	Cronfa Cymunedol Eryri	-
85	Eryri Cymunedol (grant T.C.LL.C)	111
41	Twristiaeth Eryri (grant T.C.LL.C)	169
226		**314**
1,192	Cyfanswm REFCUS	**1,470**
2,102	**Cyfanswm gwariant**	**2,337**
	Ffynhonellau Cyllid	
-		-
(2,377)	Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill	(2,238)
(532)	Grant a Dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol a defnyddiwyd yn 2024/25	(114)
149	Ffi Gweinyddol T.C.Ll.C	58
659	Grantiau dderbyniwyd 2024/25 heb eu defnyddio	577
(1)	Symiau a neilltwyd o Refeniw: Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol	(620)
(2,102)		**(2,337)**
	Gofyniad Cyllido Cyfalaf Terfynol	
-	**Cynydd/ Gostyngiad yng ngofyniad Cyllido Cyfalaf**	**-**

O'r cyfanswm gwariant o £2,337k (£2,102k yn 2023/24), mae £1,470k (£1,192k yn 2023/24) yn gysylltiedig ag asedau sefydlog nad ydynt ym mherchnogaeth yr Awdurdod. Mae'r cyllid grantiau a chyfraniadau cysylltiedig yn £1,208k (£934k yn 2023/24). Felly mae'r gwariant refeniw net a gyllidir o gyfalaf dan statud yn £261k (£257k yn 2023/24).

32. Prydlesau

Yn 2024/25, mae'r Awdurdod wedi gweithredu IFRS 16, Prydlesi, am y tro cyntaf, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Prif effaith y gofynion newydd yw, ar gyfer trefniadau a gyfrifwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredol (hynny yw, trefniadau prydles lle barn yr Awdurdod oedd nad oedd y trefniant yn trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a buddion perchnogaeth ased, a lle cofnodwyd y gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr bob blwyddyn), bod yn rhaid cydnabod ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth prydles ar Fantolen yr Awdurdod ar 1 Ebrill 2024 drwy addasiad i'r balansau agoriadol. Mae prydlesi ar gyfer eitemau o werth isel a phrydlesi sy'n dod i ben ar neu cyn 31 Mawrth 2025 wedi'u heithrio o'r trefniadau newydd.

Mae IFRS 16 wedi'i weithredu'n ôl-weithredol, ond mae'r effaith gronnol wedi'i chydnabod ar 1 Ebrill 2024.

YR AWDURDOD FEL DALIWR PRYDLES

Prydlesau Hawl i'w Defnyddio

Mae'r tabl hwn yn dangos gwerth y rhwymedigaethau hawl i ddefnyddio sy'n deillio o brydlesi a ddelir gan yr Awdurdod:

31-Mar-24	Rhwymedigaethau Hawl I'w defnyddio	31-Mar-25
		£000
0	Cyfredol	9
0	Ddim yn gyfredol	713
0	**Cyfanswm**	**722**

Trafodion o dan Brydlesi

Mae'r gwariant a'r llifoedd arian parod canlynol yn berthnasol I'r Awdurdod mewn perthynas â phrydlesi.

2023/24		2024/25
£000		£000
	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	
0	Cost llog ar rwymedigaeth prydles	38
0	Cost yn ymwneud â phrydlesi tymor byr / prydlesi eithriedig ar gyfer eitemau o werth isel	19
	Datganiad Llif Arian	
0	Isafswm taliadau prydles	47

Prydlesau Gweithredol

Mae gan yr Awdurdod brydlesau gweithredol yn ymwneud â cherbydau, llungopïwyr, a pheiriannau ffrancio.

Mae'r isafswm taliadau prydles i'r dyfodol o dan brydlesau na ellir eu diddymu mewn blynyddoedd i ddod yn:

31 Mawrth 2024		**31 Mawrth 2025**
£'000		**£'000**
95	Dim hwyrach nag 1 flwyddyn	24
224	Hwyrach nag 1 flwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	30
13,055	Hwyrach na 5 mlynedd	0
13,374	**Cyfanswm**	**54**

Codwyd costau prydles o £5,013(£55,069 yn 2023/24) ar **offer** ar y Gyfarwyddiaeth Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

Codwyd costau prydles o £19,017(£80,026 yn 2023/24) ar **eiddo** yn erbyn Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

AWDURDOD FEL PRYDLESWR

Prydlesau Ariannol

Nid oes gan yr Awdurdod drefniant prydles ariannol ar 31/3/2025.

Prydlesau Gweithredol

Mae'r Awdurdod yn prydlesu eiddo dan brydlesau gweithredol i'r pwrpasau canlynol: masnachol, rhenti daear ar hafotai ym Mhlas Tan y Bwlch, llety swyddfa, pori a hamdden/ mynediad.

Roedd yr incwm derbyniadwy am 2024/25 yn £143,807 (£102,948 yn 2023/24).

Yr isafswm taliadau prydles i'r dyfodol sy'n dderbyniadwy dan brydlesau na ellir eu diddymu mewn blynyddoedd i ddod yw:

31 Mawrth 2024		**31 Mawrth 2025**
£'000		**£'000**
152	Dim hwyrach nag 1 flwyddyn	144
510	Hwyrach nag 1 flwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	472
101,989	Hwyrach na 5 mlynedd	107,988
102,652	**Cyfanswm**	**108,603**

Mae'r ffigyrau yn ddarostyngedig i effaith adolygiadau rhent, a'r incwm a gynhyrchir ynghyd â niferoedd ymwelwyr ar gyfer Hafod Eryri.

Mae'r taliad dibrisiant cysylltiedig ar yr asedau perthnasol i brydlesau gweithredol yn £17,907.68(2023/24 £37,171).

33. Colledion Amhariad

Bu colledion amhariad gwerth £708k ar eiddo ac offer yn ystod 2023/24. Roedd y colledion yn bennaf o ganlyniad gwariant cyfalaf di-wella.

34. Rhwymedigaethau Amodol

Ar 31 Mawrth 2025 nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw rhwymedigaeth amodol. (DIM 2023/24)

35. Natur a maint risgiau'n deillio o offerynnau cyllidol

Gall gweithgareddau'r Awdurdod ei wneud yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- **Risg credyd** – y posibilrwydd y gall partïon eraill fethu â thalu symiau dyledus i'r Awdurdod,
- **Risg hylifedd** – y posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymiadau i wneud taliadau,
- **Risg marchnad** – y posibilrwydd y gall yr Awdurdod ddioddef colled ariannol o ganlyniad i newid mewn mesurau fel graddfeydd llog. Gall newid yn y gyfradd gyfnewid dramor olygu risg sylweddol o fewn y prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE).

Rheolwyd y risgiau uchod drwy drefniadau adennill dyledion yr Awdurdod a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, gyda dim effaith negyddol o sylwedd yn 2023/24. Mae gwerth offerynnau cyllidol yr Awdurdod yr un fath a'u gwerth teg.

36. Y Gronfa Bensiwn

Cyfranogi mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddiannau ôl gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl i'r dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl gyflogaeth :

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd - mae hwn yn gynllun buddiant diffiniedig cyflog terfynol a ariennir, sy'n golygu fod yr Awdurdod a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso'r rhwymedigaethau pensiwn gydag asedau buddsoddi.

- Ôl fuddiannau ymddeol disgresiwn wrth ymddeol yn gynnar. Mae hwn yn drefniant buddiant diffiniedig heb ei gyllido, y cydnabyddir rhwymedigaethau iddo pan fo'r dyfarniadau wedi eu gwneud. Ni adeiladwyd unrhyw asedau buddsoddi i gwrdd â'r rhwymedigaethau pensiynau hyn, a rhaid cynhyrchu arian i gwrdd â'r taliadau pensiwn gwirioneddol fel y dônt yn ddyledus. Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth flynyddol wedi ei seilio ar ddyfarniadau yn y gorffennol a wnaethpwyd dan y trefniadau hyn, ond nid yw wedi ychwanegu at y rhwymedigaeth hon mewn blynyddoedd diweddar. Yn hytrach, cydnabyddir unrhyw rwymedigaeth bensiwn ychwanegol sy'n deillio o ganiatáu ymddeol yn gynnar a'i dalu yn y flwyddyn benodol honno.

Trafodion yn Gysylltiedig â Buddiannau ôl Gyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yn y gost gwasanaethau sy'n destun adroddiad pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau'n cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn i ni ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost gwirioneddol ôl gyflogaeth /buddiannau ymddeol yn cael ei wyrdroi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025.

Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2025	**Asedau**	**Ymrwymiadau**	**(Ymrwymiadau)/ asedau Net**
	£'000	**£'000**	**£'000**
Gwerth Teg asedau'r cyflogwr	50,054	0	50,054
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	0	32,563	(32,563)
Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu	0	278	(278)
Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2023	**50,054**	**32,841**	**(278)**
Cost Gwasanaeth			
- Cost Gwasanaeth Cyfredol *	0	697	(697)
- Cost Gwasanaeth Hanesyddol (yn cynnwys cwtogiadau)	0	174	(174)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth		**871**	**(871)**
Llog Net			
- Incwm llog ar asedau'r cynllun	2,427	0	2,427
- Cost llog ar ymrwymiad buddion a ddiffinnir	0	1,594	(1,594)
Cyfanswm Llog Net	**2,427**	**1,594**	**(15)**

Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	**2,427**	**2,465**	**(886)**
Llif Arian			
- Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	273	273	0
- Cyfraniadau'r Cyflogwr	783	0	783
- Buddion a dalwyd	(1,008)	(1,008)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	(30)	(30)	0
- Cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu	30	0	30
Sefyllfa cau a ddisgwylir	**52,529**	**34,321**	**(351)**
Ail Fesuriadau			
- Newid mewn rhagdybiaethau demograffig	0	(5,391)	(5,391)
- Newid mewn rhagdybiaethau ariannol	0	(58)	58
- Profiadau eraill		(288)	(288)
- Enillion ar Asedau ag eithro symiau a gynhwysir yn y llog net	147	0	147
Newid yn effaith nenfwd yr ased			(5,786)
Cyfanswm yr holl ail-fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	**147**	**(5,737)**	**98**
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	52,676	0	52,676
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	0	28,551	(28,551)
Newid yn effaith nenfwd yr ased			(24,125)

Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu	0	0	(253)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth 2024	**52,676**	**28,804**	**(253)**

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024.

Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2024	**Asedau**	**Ymrwymiadau**	**(Ymrwymiadau)/ asedau Net**
	£'000	**£'000**	**£'000**
Gwerth Teg asedau'r cyflogwr	45,129	0	45,129
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	0	32,356	(32,356)
Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu	0	283	(283)
Effaith Nenfwd Ased			(12,427)
Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2023	**45,129**	**32,639**	**63**
Cost Gwasanaeth			
- Cost Gwasanaeth Cyfredol *	0	797	(797)
- Cost Gwasanaeth Hanesyddol (yn cynnwys cwtogiadau)	0	0	(0)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth		**797**	**(797)**
Llog Net			
- Incwm llog ar asedau'r cynllun	2,141	0	2,141
- Cost llog ar ymrwymiad buddion a ddiffinnir	0	1,548	(1,548)
- Effaith llog or nenfwd ased			(590)
Cyfanswm Llog Net	**2,141**	**1,548**	**3**
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	**2,141**	**2,345**	**(204)**

Llif Arian			
- Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	266	266	0
- Cyfraniadau'r Cyflogwr	755	0	755
- Buddion a dalwyd	(1,139)	(1,139)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	(28)	(28)	0
- Cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu	28	0	28
Sefyllfa cau a ddisgwylir	**47,152**	**34,083**	**52**
Ail Fesuriadau			
- Newid mewn rhagdybiaethau demograffig	0	(2,040)	(2,040)
- Newid mewn rhagdybiaethau ariannol	0	(190)	190
- Profiadau eraill		988	(988)
- Enillion ar Asedau ag eithro symiau a gynhwysir yn y llog net	2,902	0	2,902
- Newid yn effaith y nenfwd ased			(4,474)
Cyfanswm yr holl ail-fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	**2,902**	**(1,242)**	**(330)**
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	50,054	0	50,054
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	0	32,563	(32,563)
Ffaith nenfwd ased			(17,491)
Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu	0	278	(278)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth 2024	**50,054**	**32,846**	**(278)**

Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% am gostau gweinyddol.

Mae'r atebolrwydd hwn yn cynnwys oddeutu £253k mewn perthynas â phensiynau heb eu hariannu gan CPLlL a £0 mewn perthynas â phensiynau heb eu hariannu gan Athrawon. O ran rhwymedigaethau heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2025, tybir fod pob pensiwn sydd heb ei ariannu yn daladwy am weddill bywyd yr aelod. Tybir ymhellach fod 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) pan fyddant yn marw a bod eu priod (neu un sy'n cyd-fyw) yn derbyn 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion Diffynadwy

	Rhaniad ymrwymiad		**Cyfnod Cyfartalog wedi ei Bwysoli adeg y Prisiad Diwethaf.**
	£'000	**(%)**	
Aelodau gweithredol	3,366	76	51
Aelodau gohiriedig	295	7	52
Aelodau pensiynwyr	773	17	68
Cyfanswm	**4,434**	**100**	

(Mae'r ffigyrau ar gyfer ymrwymiadau heb eu hariannu yn unig ac yn hepgor ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae hyd yr ymrwymiad yn weithredol ar sail y prisiad ffurfiol diwethaf ar 31 Mawrth 2022).

Hanes y Cynllun

	2021/22	**2022/23**	**2023/24**	**2024/25**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Gwerth presennol rhwymedigaethau yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	(46,670)	(32,639)	(32,841)	(28,551)
Gwerth Teg Asedau yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	45,786	45,129	49,872	52,676
Gwarged / (diffyg) yn y cynllun :	**(884)**	**12,490**	**17,491**	**24,125**
Effaith IAS19/ IFRIC 14		(12,427)	(17,491)	**(24,125)**
Ased Newydd		**63**	**(278)**	**(253)**

Mae cyfanswm cyfraniadau gan yr Awdurdod, fel yr amcangyfrifir gan yr Actwari, am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 yn £813k.

Nid oes gan y trefniadau Buddiannau Disgresiwn unrhyw asedau i ymdrin â'u rhwymedigaethau. Mae asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys y categorïau canlynol, fesul cyfran o'r cyfanswm ac asedau sy'n cael eu dal :

31 Mawrth 2024 (%)		31 Mawrth 2025 (%)
62	Buddsoddiadau ecwiti	62
28	Buddsoddiadau dyled	28
7	Eiddo	7
2	Chwyddiant	2
1	Arian	1
100		**100**

Prif Gategoriau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion IAS19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny nad oes ganddynt. Tybir bod rhaniad asedau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £49,873k ar 31 Mawrth 2024, yn seliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar sail gwerth bid yn unol â gofynion IAS19.

Categori Ased	31 Mawrth 2024				31 Mawrth 2025			
	Prisiau a ddyfynnir mewn marchnad-oedd gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn marchnad-oedd gweithred-ol	Cyf.	%	Prisiau a ddyfynnir mewn marchnado-edd gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn marchnado-edd gweithredol	Cyf.	%
	(£'000)	(£'000)	(£'000)		(£'000)	(£'000)	(£'000)	
Ernesau Ecwiti :								
Defnyddiwr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cynhyrchu	0	0	0	0	0	0	0	0
Ynni a gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	0
Sefydliadau ariannol	0	0	0	0	0	0	0	0
Iechyd a Gofal	0	0	0	0	0	0	0	0
Technoleg Gwybodaeth	0	0	0	0	0	0	0	0
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ernesau Dyled								
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	2,593.2	2,593.2	6	0	2,705.5	2705.5	5
Eiddo Diriaethol :								

Eiddo y DU	0	3,473.2	3,473.5	9	0	2,864.3	2,864.3	5
Eiddo Tramor	0	0	0	0	0	0	0	0
Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol :								
Ecwiti	0	27,753.5	27,753.5	62	0	27,999	27,999	53
Bondiau	0	0	0	0	0	15,370.5	15,370.50	0
Is-adeiladwaith	0	0	0	2	0	3,161.8	3,161.8	6
Eraill	0	14,178.9	14,178.9	28	0	3,161.8	3,161.8	6
Arian a Chywerthoedd Arian :								
Y cyfan	0	642.8	642.8	0	240.0	574.9	574.9	1
Cyfanswm	**0**	**49,872**	**49,872**	**100**	**240.0**	**52,676**	**52,676**	**100**

Sail ar Gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod gan ddibynnu ar ragdybiaethau ynghylch graddfeydd marwoledd, lefelau cyflog, ayb. Mae rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Buddiannau Disgresiwn wedi eu hasesu gan Hymans Robertson, cwmni annibynnol o actwaryddion, gyda'r rhagamcanion i Gronfa'r Awdurdod wedi ei seilio ar y gwerthusiad llawn olaf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2022.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari oedd :

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	2023/24	**2024/25**
Graddfa dychweliad disgwyliedig tymor hir ar asedau yn y cynllun :	4.75%	4.75%
Rhagdybiaethau Marwoledd :		
Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr presennol :		
Dynion	21.4 blynedd	21.3 blynedd
Merched	23.7 blynedd	23.7 blynedd
Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr y dyfodol :		
Dynion	21.8 blynedd	21.8 blynedd
• Merched	25.6 blynedd	25.5 blynedd
• Graddfa chwyddiant (CPI)	2.75%	2.75%
Graddfa cynnydd mewn cyflogau	3.25%	3.25%
• Graddfa cynnydd mewn pensiynau	2.75%	2.75%
• Graddfa ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	4.85%	5.80%
Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad	65% cyn gwasanaeth 1/4/2014 a 65% ôl gwasanaeth 1/4/2014.	65% cyn gwasanaeth 1/4/2014 a 65% ôl gwasanaeth 1/4/2014.

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaethau buddion diffinedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2022 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau IAS19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwy meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Awdurdod pe bai cynnydd o flwyddyn mewn

disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o thua 2%-4% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythr y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn). Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth yr Awdurdod fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, dyddiad y prisiad actwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn cynt.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun		
Newid tybiaeth	**Brasamcan cynnydd i'r Cyflogwr**	**Brasamcan swm ariannol**
	31 Mawrth 2025	**31 Mawrth 2025**
	(%)	**(£'000)**
Lleihad 0.1% i'r gwir gyfradd disgownt	2	537
Cynnydd disgwyliad oes o 1 blwyddyn	4	1,152
Cynnydd 0.1% i'r cyfradd codiad cyflog	0	31
Cynnydd 0.1% i'r cyfradd codiad pensiwn	2	521

Rhagolwg Cost Buddion a Ddiffinnir am y cyfnod i 31 Mawrth 2025

	Asedau	**Ymrwymiadau**	**(ymrwymiad) / ased Net**	
	£'000	**£'000**	**£'000**	**% of pay**
Rhagolwg Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	491	(491)	(11.5%)
Cost Gwasanaeth Hanesyddol yn cynnwys cwtogiadau	0	0	0	0
Effaith setliadau	0	0	0	0
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	**0**	**491**	**(491)**	
Incwm llog ar asedau'r cynllun	3,056	0	3,056	
Cost llog ar yr ymrwymiad budd a ddiffinnir	0	1,662	(1,662)	
Cyfanswm Cost Net Llog	**3,056**	**1,662**	**1,394**	
Cyfanswm wedi ei gynnwys yn yr elw a cholledion	**3,056**	**2,153**	**903**	

* *Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans am dreuliau gweinyddol megis 0.6% o'r gyflogres. Mae'r gwerth ariannol yn seliedig ar amcan gwerth y gyflogres o £4,239k.*

Gosodir y cyfraniadau a delir gan y Cyflogwr gan Actiwari y Gronfa bob tair blynedd ar adeg prisiad actwiarial y Gronfa (yr un mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2022), neu ar unrhyw adeg arall yn unol â chyfarwyddid yr Awdurdod sy'n gweinyddu'r Gronfa.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25

Mae'r datganiad hwn yn diwallu'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5(4) o
Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, ac yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ddarostyngedig i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i bennu Amcanion Lles sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r 7 Nodau Lles fel y nodir yn y Ddeddf, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ar ben hynny, mae'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag 'egwyddor cynaliadwyedd statudol', sy'n golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang hyn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, hwyluso gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / Solace "Delivering Good Governance in Local Government". Mae'r datganiad rheolaeth fewnol hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod a hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chynnal adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Awdurdod.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru, fel rhan o adolygiad mwy ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn 2021/22. Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol newydd yn ffurfiol gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2022.

Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu ag, ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i ddylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gall felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod ac yn blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i werthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor i lywodraethu'n dda:

- **Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- **Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr
- **Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- **Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir
- **Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo
- **Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy gyfrwng rheolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
- **Egwyddor 7:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn datblygu ac yn gweithredu ei gynllunio corfforaethol strategol trwy fabwysiadu:

- Cynllun Eryri (Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol);
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- Datganiad Llesiant ac Amcanion Llesiant; a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae'r 4 dogfen yma yn cynrychioli conglfaen gwaith yr Awdurdod wrth gyflawni ei brif bwrpasau, fel y diffinnir yn Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac wrth weithredu ei weledigaeth.

Strwythur Llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu'r Awdurdod yn cynnwys 4 prif bwyllgor:

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda 18 o Aelodau a benodwyd, ac yn ystod 2024/25 cynhaliwyd 6 cyfarfod.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 4 gwaith yn ystod 2024/25. Fel rhan o'i gylch gwaith mae'n ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â gofynion CIPFA.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad 8 gwaith yn ystod 2024/25. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Safonau'r Awdurdod dwywaith yn ystod 2024/25. Mae aelodaeth y pwyllgor, sydd gyda gylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau, yn cynnwys 3 Aelod o'r Awdurdod a 3 aelod annibynnol.

Mae'r Rheolau Sefydlog yr Awdurdod (a gyhoeddwyd ar y wefan) yn rhoi disgrifiad manwl o'r trefniadau ar gyfer pob pwyllgor. Ar gyfer pob pwyllgor, mae'r rhaglen, cofnodion ac adroddiadau cysylltiedig â phapurau cefndir i gyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Tîm Rheoli

Mae strwythur rheoli'r Awdurdod yn cynnwys y Prif Weithredwr (sydd hefyd yn 'Swyddog y Parc Cenedlaethol' ac yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a dau Gyfarwyddwr. Mae Tîm Rheoli'r Awdurdod yn cyfarfod bob pythefnos, gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Adnoddau Dynol yn mynychu.

Safonau

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Ymddygiad i Aelodau, sy'n cynnwys adran sy'n cyfeirio'n benodol at fuddiannau a Chofrestr Buddiannau Aelodau. Y Cod Ymddygiad i staff yw'r cod ymddygiad safonol cenedlaethol ar gyfer cyflogeion awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r polisïau a gweithdrefnau canlynol ar gyfer cynnal safonau uchel o ymddygiad ar gyfer staff ac Aelodau, ac i sicrhau atebolrwydd tuag at y cyhoedd:

- Y Drefn Gwyno – wedi'i sefydlu ar fodel drefn cwynion ymarfer da gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru;

- Polisi Seinio Rhybudd - i alluogi staff i leisio pryderon difrifol yn hyderus gyda'r sicrwydd o wybod y ceir eu hymchwilio yn drwyadl ac mewn ffordd deg, heb ofni dial;
- Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth - yn cynnwys mesurau sydd wedi'u cynllunio i rwystro unrhyw weithred o dwyll neu lygredigaeth, a pha gamau y dylid eu cymryd petai rywbeth o'r fath yn digwydd; ac y
- Cynllun Dirprwyo - yn amlinellu sut mae swyddogaethau'r Awdurdod llawn yn cael eu cyflawni trwy ddirprwyo i'w bwyllgorau a'i is-bwyllgorau

Rheoli Risg

Mae Polisi a Strategaeth Rheoli Risg wedi'i sefydlu. Caiff y broses o adnabod risgiau ei chydlynu gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, gyda mewnbwn gan y Tîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Gofrestr Risg a'r mesurau lliniaru yn cael eu hadolygu a'i ddiweddaru'n chwarterol.

Archwiliad Mewnol

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system o drefniadau rheolaeth a llywodraethu mewnol yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd. Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnolyn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU. Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canlyniadau gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.

Archwiliad Allanol

Archwilio Cymru sy'n gweithredu fel archwilydd allanol i'r Awdurdod, ac felly sy'n adrodd ar reolaeth ariannol a pherfformiad yr Awdurdod. Yn ogystal, mae Archwilio Cymru yn rhoi barn ar ddigonolrwydd y gwaith archwilio mewnol.

Swyddog Monitro

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i enwebu fel Swyddog Monitro. Mae gan y Swyddog Monitro'r ddyletswydd benodol i sicrhau bod Aelodau a benodwyd a Swyddogion yr Awdurdod yn cynnal y safon uchaf o ymddygiad ym mhopeth a wnânt. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori ar drefn gyfansoddiadol a chyfreithlondeb gweithredoedd yr Awdurdod.

Rheolaeth Ariannol

Mae trefniadau rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2016). Y Prif Swyddog Cyllid (sydd yn Brif Swyddog Cyllid Cyngor Gwynedd) yw'r swyddog sydd â chyfrifoldebau o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Gymerwyd yn ystod y Flwyddyn

Mae'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd craidd ar yr Awdurdod i osod amcanion lleisiant sy'n macsimeiddio ein cyfraniad at gyflawni'r 7 nodau llesiant a osodwyd yn y Ddeddf. Dylai amcanion llesiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid yn y tymor hir.

Mae Datganiad Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2021-26 yn gosod allan Amcanion Llesiant sy'n disgrifio sut y byddant yn helpu'r Awdurdod i gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru.

Mae'r Amcanion Llesiant yn canolbwyntio ar dri maes gwaith allweddol - Amgylcheddau Cydnerth, Cymunedau Cydnerth a Ffyrdd Cydnerth o Weithio - ac maent wedi'u halinio â phump is-thema i roi ffocws, fel yr amlinellir islaw.

Amgylcheddau Cydnerth
1. Gwella rheolaeth hamdden ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden.
2. Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd.
3. Gwella rheolaeth a'r ddealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol.
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit.
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

Cymunedau Cydnerth
1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd preswylwyr.
2. Cefnogi pobl ifanc.
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol.
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol.
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd Cydnerth o Weithio
1. Datblygu gweithlu medrus.
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau.
3. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu.
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol tuag at waith y Parc Cenedlaethol.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n nodau llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.

2. Integreiddio - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus

eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.

3. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. Cydweithio - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. Atal - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2024/25 i'w chymeradwyo fel dogfen waith gan yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 24ain o Ebrill 2024. Mae'r Rhaglen yn gosod y prosiectau, cynlluniau a chamau gweithredu penodol yr ymgymerir â hwy er mwyn cyflawni Amcanion Llesiant a Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod.

Adroddwyd ar gynnydd y Rhaglen adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 27ain o Dachwedd 2024 a'r 19eg o Fawrth 2025.

Effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwr uwch o fewn yr Awdurdod, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill. Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar y saith egwyddor o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Egwyddor 1: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

Cod Llywodraethu Corfforaethol	Cafodd llywodraethu ei graffu'n fanwl yn ystod 2021/22 gan Grŵp Tasg a Gorffen o Swyddogion ac Aelodau a sefydlwyd yn arbennig i'r diben hwn. Adolygwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn fanwl a'i ailddrafftio gan y Grŵp, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gonglfaen ar gyfer llywodraethu effeithiol yn y dyfodol. Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu diwygiedig yn ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 27ain o Ebrill 2022.
Pwyllgor Safonau	Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Yn y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar yr 26ain o Ebrill 2024, ystyriwyd a chytunwyd ar yr adroddiad blynyddol statudol i'w gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod, ar sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni, a oedd yn cynnwys trosolwg o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod. Bu'r cyfarfod hefyd yn ystyried adroddiad gan Archwilio Mewnol ar y cymorth a roddwyd i Aelodau'r Awdurdod. Croesawodd y Pwyllgor gasgliad yr adroddiad bod lefel uchel o sicrwydd bod y mecanweithiau mewnol sydd ar waith yn rhoi digon o gefnogaeth i Aelodau. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y lefel isel o gyfranogiad gan Aelodau i holiadur yr Archwiliad Mewnol. Cytunwyd y dylid cyfeirio at y diffyg ymgysylltu yn yr Adroddiad Blynyddol. Roedd y rhaglen hefyd yn cynnwys adroddiad gan y Swyddog Monitro ynghylch y monitro a oedd wedi digwydd ar weithrediad y cod ymddygiad ac yn benodol y Datganiadau o Fuddiannau Aelodau. Yn ail gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fedi 2024, ystyriwyd busnes arferol y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys enwebu Aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl, Caniatáu Goddefebau ac ystyried Adroddiad Monitro Cwynion Blynyddol yr Awdurdod yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar yr 8fed o Ragfyr 2024, daeth tymor Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i ben. Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r broses recriwtio ar gyfer aelod annibynnol newydd am dymor o 5 mlynedd a

	sefydlu panel cyfweld, yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 13eg o Dachwedd 2024. Bydd yr argymhelliad ar gyfer penodi Aelod annibynnol newydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar yr 30ain o Ebrill 2025 i'w gymeradwyo.
Polisi Chwythu'r Chwiban	Yn ystod 2024/25, ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban.
Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth	Yn ystod 2024/25 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion o dwyll neu lygredigaeth honedig mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod, ac ni adnabuwyd unrhyw feysydd sy'n peri pryder gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod eu gwaith archwilio.
Cod Ymddygiad Enghreifftiol	Yn ystod 2024/25, ni fu unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol.
Cwynion – Swyddogion	Yn ystod 2024/25, derbyniodd yr Awdurdod gyfanswm o 16 cwyn ffurfiol. Ni chyfeiriwyd yr un o'r cwynion hyn yn ddiweddarach at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio iddynt. Ni fu'r Awdurdod felly yn destun ymchwiliad ffurfiol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2024/25.
Cwynion – Aelodau	Yn ystod 2024/25, ni dderbyniodd Swyddog Monitro'r Awdurdod unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â'r Aelodau, a ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
Rheolau Sefydlog	Adolygwyd Rheolau Sefydlog yr Awdurdod fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu yn ystod 2021/22. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod yr Awdurdod yn parhau â'i strwythur pwyllgorau presennol ond y dylai'r Awdurdod yn y dyfodol ystyried newid sy'n rhoi'r hawl i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wneud penderfyniadau terfynol ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill (oni bai bod angen cymeradwyaeth benodol gan yr Awdurdod).

Rheolau Sefydlog parthed Chontractau	Daeth fersiwn ddiwygiedig newydd o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Chontractau i rym ar y 1af o Ebrill 2025. Mae'r adolygiad yn ymgorffori mân newidiadau i derfynau trothwy sydd bellach yn ymgorffori TAW, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Caffael 2023. Ochr yn ochr â'r adolygiad i'r Rheolau Sefydlog, cofrestrodd yr Awdurdod ar y Llwyfan Digidol Canolog (LIDC) newydd i sicrhau parodrwydd ar gyfer y drefn newydd. Mae'n ofynnol i bob awdurdod yn y DU gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â chaffael ar y LIDC.
Cynllun Dirprwyo	Adolygwyd y Cynllun Dirprwyo fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu yn ystod 2021/22. Daeth y Grŵp i'r casgliad bod y Cynllun Dirprwyo Swyddogion presennol yn parhau i fod yn addas i'r diben, ac felly ni wnaethpwyd unrhyw argymhelliad ar gyfer newidiadau.
Cofrestr Buddiannau'r Aelodau	Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad ar yr Awdurdod i gyhoeddi'r Gofrestr gyfredol o Ddiddordebau / Fuddiant Aelodau ar wefan yr Awdurdod. Mae'n gyfrifoldeb ar bob Aelod o'r Awdurdod i ddiweddaru eu cofnod buddiannau ac i adrodd ar unrhyw newidiadau mewn modd amserol. Serch hynny, mae'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn anfon copi o'u cofnod cyfredol i bob Aelod ar ôl bob Cyfarfod Blynyddol o'r Awdurdod, ac yn gofyn iddynt ei adolygu a'i ddiweddaru os yn berthnasol.

Egwyddor 2: Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr

Cynllun Cydraddoldeb Strategol	Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 27ain o Dachwedd 2024. Hwn oedd yr adroddiad cynnydd terfynol ar y cynllun gweithredu o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod ar gyfer 2020 – 24. Adroddwyd ar gynnydd y gwaith a wnaed a sut y cyfrannodd hyn at gyrraedd yr Amcanion Cydraddoldeb, ynghyd â'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, data monitro cyflog cyfartal a data cydraddoldeb staff. Cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2024 – 28 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 20fed o Fawrth 2024. Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar y flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynllun gweithredu o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2024 – 28 yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd 2025.
Ymgynghori Uniongyrchol	Yn ystod 2024/25 parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol trwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau, cyfarfodydd ar-lein yn ogystal â chyfarfodydd wyneb yn wyneb, gweithdai a chymorthfeydd ymgynghori. Mae ymgynghori yn rhan annatod o'r ystod eang o lifoedd gwaith a phrosiectau yr ydym yn ymgymryd â hwy fel Awdurdod, boed hynny trwy broses statudol ffurfiol, yn anffurfiol gyda chymunedau a rhanddeiliaid neu ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill. Fel Awdurdod bach, mae'n bwysig ein bod yn cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid ac yn ystyried eu barn o'r cychwyn cyntaf, os ydym am lwyddo gyda'n prosiectau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd yr ymgynghoriad mwyaf ynghylch y bwriad i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Aeth yr ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd y tu hwnt i'r gofyniad statudol, gyda phob cartref o fewn y Parc Cenedlaethol yn derbyn llythyr i'w hysbysu o'r cynnig. Denodd yr ymgynghoriad cyhoeddus 357 o ymatebion ysgrifenedig, ac mae'n deg dweud bod safbwyntiau wedi'u hollti o fewn cymunedau Eryri ar yr effeithiau posibl y byddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei gael. Gydag unrhyw gynnig newydd ac arloesol na all dynnu ar union gynseiliau hanesyddol, mae hyn i'w ddisgwyl. Darparodd yr Awdurdod ymateb cynhwysfawr i'r holl bryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad; a darparu data a

	gwybodaeth lle'r oedd ar gael i gynorthwyo'r asesiad o'r goblygiadau amrywiol a ragwelwyd. Ar ôl dadansoddi'r holl wybodaeth a'r dystiolaeth oedd ar gael, penderfynwyd parhau â Chyfarwyddyd Erthygl 4, a ddaeth i rym ar y 1af o Fehefin 2025. Yn ogystal, roedd yr arbrawf o'r Fforwm Cymunedol i roi cynnig ar ddull gwahanol o ymgynghori â Chynghorau Cymuned a Thref yn llwyddiannus. Bydd y fforwm nawr yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ymgynghori ehangach o adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri a Chynllun Eryri dros y blynyddoedd nesaf. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus arwyddocaol arall eleni ynghylch dyfodol Plas Tan y Bwlch. Denodd y penderfyniad cychwynnol i roi'r safle ar werth sylw sylweddol gan y cyfryngau ac ymateb cyhoeddus cryf. I fynd i'r afael â phryderon, cynhaliodd yr Awdurdod sesiwn galw heibio drwy'r dydd i'r cyhoedd ar y 14eg o Hydref 2024. Mynychwyd y sesiwn gan 180 o aelodau'r cyhoedd, a roddodd gyfle iddynt fynegi eu barn ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch a'r coetiroedd cyfagos, gan gynnwys Llyn Mair. Gan fod y sefyllfa gyda Plas Tan y Bwlch wedi symud ymlaen, cynhaliwyd ail sesiwn galw heibio yn ddiweddar ar y 3ydd o Ebrill 2025 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am ddatblygiadau, a fynychwyd gan 70 o bobl. Bwriad yr Awdurdod yw parhau â'r sesiynau hyn yn ôl yr angen, wrth i'r sefyllfa ddatblygu.
Strategaeth Cyfathrebu a Ymgysylltu	Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn elfen hanfodol ym mhopeth y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Mae hefyd yn faes lle mae yna wastad le i wella, ac mae strategaeth yr Awdurdod yn adlewyrchu hyn. Mae datblygiadau technolegol cyflym a'r twf parhaus mewn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a lefelau cyfranogi yn golygu bod angen i'r Awdurdod ganolbwyntio'n llawn ar gyfathrebu'n effeithiol trwy'r sianeli cywir ar yr adeg iawn gydag ystod eang o gynulleidfaoedd. Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol a oedd yn cynnwys canlyniadau dangosyddion perfformiad i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 10fed o Orffennaf 2024. Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 13eg o Dachwedd 2024, cyflwynwyd adolygiad o'r penderfyniad i ddefnyddio Eryri a'r Wyddfa yn unig yng nghyfathrebiadau'r Awdurdod i'r Aelodau, yn dilyn 2 flynedd o weithredu. Adroddwyd ar y canlyniadau cadarnhaol yn ogystal â'r heriau a'r meysydd i'w gwella. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod teimlad

	pobl tuag at ddefnyddio'r geiriau Cymraeg yn newid a oedd yn cynnwys y cyfryngau yn Lloegr. Yn yr un cyfarfod, cymeradwywyd hefyd newid logo'r Awdurdod fel cam olaf i ymgorffori'r enwau Cymraeg ym mhob cyfathrebiad a brandio. Denodd y penderfyniad hwn yr ymgysylltiad mwyaf â'r cyhoedd a'r cyfryngau yn ystod y flwyddyn. Cyfrannodd rhyngweithio yn y cyfryngau ac ar gyfryngau cymdeithasol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, at godi ymwybyddiaeth eang o'r enwau Cymraeg.
Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol	Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi cyhoeddi canllaw ar wybodaeth, ac mae'r ddau ohonynt ar gael ar y wefan. Yn ystod 2024, derbyniwyd 42 o geisiadau ac o'r rhain derbyniodd 23 yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani (55%). O'r 19 cais arall, cafodd 10 eu gwrthod neu eu gwrthod yn rhannol oherwydd nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn bodoli neu am nad oedd yr awdurdod yn cadw'r wybodaeth, roedd 3 chais yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif, 2 gais yn cynnwys data personol trydydd parti, 1 cais am wybodaeth a ddosbarthwyd fel braint broffesiynol gyfreithiol, roedd 1 cais am ddata anghyflawn a allai gamarwain y cyhoedd, gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan y byddai'r wybodaeth wedi adnabod aelodau o'r cyhoedd a adroddodd am achosion posibl o dorri rheolau cynllunio, ac roedd 1 cais am wybodaeth a oedd eisoes ar gael i'r cyhoedd. O'r 42 cais, atebwyd bob un o fewn y terfyn amser o 20 diwrnod gwaith. Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch unrhyw gais am wybodaeth.
Rhaglenni Pwyllgorau ac Adroddiadau Cysylltiedig	Mae rhaglenni ac adroddiadau cysylltiedig Pwyllgorau'r Awdurdod yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn bob cyfarfod, i fodloni gofynion amser statudol. Mae archif o raglenni a dogfennau cysylltiedig o bwyllgorau'r gorffennol hefyd ar gael ar y wefan am y 3 blynedd olaf, gyda'r rhaglenni hyn ar gael drwy gais. Mae Cyfrol Cofnodion hefyd yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ar y wefan.

Egwyddor 3: Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa	Mae'r broses o adolygu Cynllun Yr Wyddfa yn tynnu at ei therfyn gydag ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o dair wythnos ar-lein, a drafft o'r Cynllun wedi ei raglennu ar gyfer dechrau Mehefin 2025. Daw'r ymgynghoriad yn dilyn proses o gyd-ddylunio'r cynllun gweithredu gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Cafwyd cyfres o weithdai dylunio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid oedd yn edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd, gyda gweithdy penodol i ysgrifennu'r cynllun gweithredu ar gyfer y bum mlynedd nesaf. Bydd y Cynllun yn gweithredu fel dogfen strategol fydd yn cynnwys addewid o'r newydd i'r mynydd, dyheadau'r Bartneriaeth o ran ddyfodol gynaliadwy i'r mynydd, a'r cynllun gweithredu sy'n cynnwys prosiectau penodol, a pha sefydliad partner fydd yn arwain ar y gwahanol elfennau. Mae'r cynllun gweithredu wedi ei rannu i saith thema sef: Ecosystem Yr Wyddfa, Treftadaeth Ddiwylliannol, Cymunedau, Gweithgareddau Awyr Agored, Isadeiledd, Economi, a Chyfathrebu - gyda phob thema wedi ei diffinio'n glir o fewn y Cynllun. Dros y misoedd nesaf byddwn yn: • gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd ym mro'r Wyddfa ar gyfer ymgynghori ar y cynllun a chasglu eu barn am y mynydd, • yn cynnal sesiynau galw heibio i ymgynghori gyda'r cymunedau ar y cynllun gweithredu, ac • yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein, ar ddrafft o'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Bwriedir lansio'r Cynllun ar ei newydd wedd ym mis Gorffennaf, gyda'r gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu i ddechrau'n syth wedi hynny.

Cynllun Eryri (Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri)	Mabwysiadwyd Cynllun Eryri gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel ei Gynllun Rheoli (Partneriaeth) statudol ym mis Hydref 2020 ac fe'i lansiwyd yn swyddogol ym mis Tachwedd 2020. Mae'n cynnwys cynllun gweithredu 5 mlynedd a ddaw i ben yn 2025. Mae hyn yn golygu y bydd eleni yn gweld adroddiad terfynol ar y cynllun gweithredu presennol ac adolygiad o'r polisïau, amcanion a chamau gweithredu – gyda chynllun gweithredu drafft yn cael ei gynhyrchu a'i fabwysiadu gan yr Awdurdod yn 2026. Mae'r adroddiad terfynol ar gynllun gweithredu 2020/25 wrthi'n cael ei ysgrifennu. Fel rhan statudol o'r adolygiad o'r Cynllun Rheoli – mae Adroddiad ar Gyflwr y Parc wedi'i gynhyrchu a'i gyhoeddi ar ffurf meicro-safle, y gellir ei gyrchu o wefan yr Awdurdod. Mae'r broses hon wedi nodi 5 blaenoriaeth i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ganolbwyntio arnynt ar gyfer y dyfodol. Cynhelir cyfres o Symposia o Fehefin – Tachwedd 2025 i drafod a chraffu ymhellach ar y blaenoriaethau a adnabuwyd a chychwyn ar y broses o greu Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynllun Eryri 2026-2031.
Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031	Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (CDLl) diwygiedig ar y 6ed o Chwefror 2019. Cymeradwywyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2023-24 gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y 16eg o Hydref 2024, a'i gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru. Mae rhai o brif ganfyddiadau'r adroddiad yn cynnwys: • Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sy'n tanseilio pwrpasau statudol y Parc Cenedlaethol; • Mae polisïau CDLl Eryri wedi bod yn effeithiol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio defnydd tir ac wrth amddiffyn apeliadau; • Mae caniatadau tai a thai a gwblhawyd wedi bod yn is na'r targed gofyniad tai blynyddol cyfartalog ers sawl blwyddyn yn olynol, er y gwelwyd cynnydd yn derbyn caniatâd cynllunio (45) yn y bumed flwyddyn fonitro; • Mae nifer yr anheddau sydd wedi'u cwblhau'n flynyddol wedi bod yn gyson is na'r gofyniad Tai Blynyddol a

	Ragwelir o 51 annedd y flwyddyn ers 2016-17. Mae diffyg o -41% ar gyfer y gyfradd adeiladu gronnol ofynnol o ddechrau cyfnod y cynllun; • O'r 45 eiddo preswyl newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod 2023-24, roedd 20 o'r rhain yn unedau tai fforddiadwy; a • Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd 21 o geisiadau i wella cyfleusterau cymunedol. Cyflwynwyd Cytundeb Cyflawni diwygiedig i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y 9fed o Ebrill 2025, yn amlinellu camau allweddol yr adolygiad llawn o CDLl Eryri. Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni ar gyfer ymgynghoriad â rhanddeiliaid.
Cyfarwyddyd Erthygl 4	Ym Mhwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod ar y 6ed o Fawrth 2024, cymeradwyodd yr Aelodau i ymgysylltu ar y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri i ddileu rhai hawliau datblygu a ganiateir er mwyn gallu rheoli'r defnydd o gartrefi yn Eryri. Cyflwynwyd hysbysiad ynghylch y Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar y 12fed o Ebrill 2024. Dechreuodd cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd o 6 wythnos ar y diwrnod hwnnw a pharhaodd tan y 24ain o Fai 2024. Derbyniwyd cyfanswm o 357 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd. Ar y 4ydd o Ragfyr 2024, bu Gweithgor Aelodau'r Awdurdod yn trafod ac yn ystyried yn fanwl y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymateb yr Awdurdod i'r sylwadau, a gafodd eu casglu ynghyd mewn Adroddiad Ymgynghori cynhwysfawr. Yna rhoddodd Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod ystyriaeth ffurfiol i'r sylwadau yn ei gyfarfod ar yr 22ain o Ionawr 2025 a symudodd i gadarnhau'n ffurfiol y Cyfarwyddyd Erthygl 4 a ddaw i rym ar y 1af o Fehefin 2025. Yn unol â hynny, cyhoeddwyd hysbysiad ffurfiol yn unol â gofynion Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd). Yn yr un cyfarfod, cymeradwyodd yr Aelodau'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft: 'Newid Defnydd o Brif Gartref, Ail Gartref a Llety Gwyliau tymor byr' ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd canlyniad y cyfnod ymgynghori 6 wythnos ynghyd â fersiwn terfynol o'r Canllaw Cynllunio Atodol yn cael

	eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad i'w cymeradwyo cyn dyddiad gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4.

Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymweld Cynaliadwy	Ers mabwysiadu'r Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymweld Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri (2035) gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar yr 8fed o Chwefror 2023, mae swyddogion APC a Chyngor Gwynedd wedi bod yn ffurfioli strwythurau gweithredu. Mae Cyngor Conwy bellach wedi ymrwymo i fynd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drwy eu prosesau democrataidd a bydd Conwy wledig yn dod yn aelodau swyddogol o'r Cynllun erbyn Mai 2025. Mae'r Cynllun Gweithredu blynyddol cyntaf yn y broses o gael ei gwblhau ac adroddir arno. Cynhelir cyfarfod nesaf Partneriaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri ar y 7fed o Fai 2025 a bydd yn dechrau drafftio'r ail Gynllun Gweithredu blynyddol. Fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wreiddiol, cynhaliwyd Cynhadledd Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri gyntaf un ar yr 14eg o Chwefror 2025 yn Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor ac roedd yn garreg filltir arwyddocaol yn nhaith yr ardal tuag at dwristiaeth gynaliadwy. Daeth y digwyddiad ag arbenigwyr diwydiant, busnesau lleol ac arweinwyr cymunedol ynghyd i archwilio dulliau arloesol o ddatblygu economi ymwelwyr ffyniannus, cynaliadwy. Roedd y gynhadledd yn cynnwys cyflwyniadau manwl a oedd yn canolbwyntio ar rannu arferion gorau ar gyfer twristiaeth gyfrifol. Cafodd 130 o fynychwyr gyfle i ymgysylltu ag arbenigwyr blaenllaw yn y diwydiant, gan gynnwys yr Athro Terry Stevens, sy'n enwog am ei waith ar dwristiaeth gynaliadwy, yn ogystal â chynrychiolwyr o Adventure Smart, Eco-Amgueddfa Llŷn, Croeso Cymru a Phlas Coch, Llanberis. Darparodd y drafodaeth banel olaf, dan gadeiryddiaeth Bethan Price, fewnwelediadau gan weithwyr proffesiynol o Grŵp Llandrillo Menai, Prifysgol Bangor, a Cymunedoli. At hynny, mae Bwrdd Strategol sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a Grŵp Cyflawni Partneriaeth yn ogystal â Grwpiau Gorchwyl a Gorffen sy'n arwain ar brosiectau penodol.

Rhaglen Waith Corfforaethol	Gan fod yr Awdurdod bellach wedi mabwysiadu Datganiad Llesiant sy'n cynnwys ei Amcanion Llesiant am gyfnod o bum mlynedd o 2021-26; ni fydd angen adolygiad blynyddol. Bydd y camau y cytunwyd arnynt yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn awr yn ddigon i alluogi'r Awdurdod i asesu ei gynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant ac felly ni fydd angen adroddiad Dangosyddion Perfformiad ar wahân. Ystyriwyd yr adroddiad terfynol ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2023/24 gan yr Awdurdod ar y 12fed o Fehefin 2024. Mabwysiadwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2024/25 yn ffurfiol gan yr Awdurdod ar y 24ain o Fehefin 2024. Rhoddwyd diweddariadau i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant, a amlinellwyd yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2024/25. Adroddwyd ar gynnydd dau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 27ain o Dachwedd 2024. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd y trydydd a'r pedwerydd chwarter (lle'r oedd ar gael) i'r un pwyllgor ar yr 19eg o Fawrth 2025. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2025.
Strategaeth Carbon Isel Eryri 2024-29	Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 12fed o Fehefin 2024, mabwysiadwyd Strategaeth Carbon Isel Eryri ar gyfer y cyfnod 2024 – 29 gan yr Aelodau. Tra bod yr Awdurdod eisoes yn ymgymryd â nifer o brosiectau sy'n cyfrannu'n sylweddol at y nod o leihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr, dyma'r tro cyntaf i'r Awdurdod gael strategaeth benodol i arwain y gwaith. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol: y Cynllun Corfforaethol, Cynllun Eryri, a Chynllun Datblygu Lleol Eryri. Er mwyn cydlynu a gweithredu'r strategaeth yn effeithiol, creodd yr Awdurdod swydd Swyddog Carbon.

Egwyddor 4: Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir

Strategaeth y Gyllideb 2024-25	Adroddwyd ar yr Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 10fed o Orffennaf 2024, a oedd yn nodi sefyllfa derfynol y Cyfarwyddiaethau a Gwasanaethau o ran rheolaeth gyllidebol. Cadarnhawyd cyllideb refeniw a chyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 gan y Prif Swyddog Cyllid yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 7fed o Chwefror 2024. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cadarnhau'r lefi ar awdurdodau cyfansoddol. Cyflwynwyd diweddariad i'r Gyllideb i'r Awdurdod ar y 11eg o Fedi 2024 ac ar y 13eg o Dachwedd 2024 yn ogystal ag i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 19eg o Fawrth 2025. Roedd adroddiad mis Mawrth yn amlinellu'r sefyllfa refeniw a chyfalaf rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn, a oedd yn amcangyfrif diffyg o £500k a fydd yn cael ei ariannu o'r gronfa her ariannol wrth gefn. Cafwyd diweddariad llafar i'r adroddiad yn y cyfarfod yn cadarnhau bod grant ychwanegol o £1.1m wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ers hynny. Cadarnhaodd yr adroddiad fod y sefyllfa o ran gwariant net ar wasanaethau ar darged i gadw o fewn y gyllideb am y flwyddyn, fodd bynnag roedd pwysau chwyddiant yn parhau i fod yn heriol. Mae gwariant yn parhau i fod yn uwch ar elfennau sy'n cael eu heffeithio gan chwyddiant, yn enwedig ar ynni, fodd bynnag cafwyd cadarnhad bod y gyllideb ar gyfer 2024/25 yn ddigonol. Mae cyfraddau llog banc yn parhau'n uchel oherwydd gostyngiad arafach mewn chwyddiant na'r disgwyl, sydd wedi arwain at incwm sylweddol o log banc i'r Awdurdod, gyda £300k wedi'i dderbyn hyd at ddiwedd Ionawr yn erbyn targed cyllideb o £100k.
Cyllideb Refeniw Sylfaenol ar gyfer 2025/26	Cadarnhaodd y Gyllideb Refeniw Sylfaenol ar gyfer 2025/26 a gyflwynwyd i'r Awdurdod yng nghyfarfod 13eg o Dachwedd 2024, fod ffigurau'r gyllideb yn seiliedig ar setliad sefydlog i adlewyrchu datganiad Llywodraeth Cymru na fydd unrhyw gynnydd mewn setliadau dangosol o gyllid grant craidd ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

	Fodd bynnag, cadarnhaodd yr adroddiad a oedd yn amlinellu Cyllideb yr Awdurdod a'r Ardollau ar Awdurdodau Cyfansoddol ar gyfer 2025/26 gan y Prif Swyddog Cyllid yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 5ed o Chwefror 2025, fod setliad drafft wedi'i dderbyn ym mis Rhagfyr 2024 lle cyhoeddwyd cynnydd o tua 5% i gyllid craidd yr Awdurdod. Mewn gwirionedd mae hyn yn gynnydd o £206k yn y cyllid craidd, a fydd hefyd yn arwain at gynnydd o £68k yn yr ardollau a godir ar yr awdurdodau cyfansoddol. Croesawyd y newyddion, fodd bynnag nododd y Prif Swyddog Cyllid fod yr Awdurdod yn parhau i wynebu sefyllfa ariannol hynod heriol a'i fod yn dechrau'r flwyddyn ariannol 2025/26 gyda diffyg yn y llinell sylfaen o £635,850.
Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 – 2027/28	Cyflwynodd y Prif Weithredwr trosolwg o heriau ariannol yr Awdurdod ar gyfer y 2 flynedd ariannol nesaf (2025 - 2027) mewn cyfarfod o'r Gweithgor Aelodau ar yr 17eg o Ebrill 2024. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r pwysau chwyddiant a ragwelir (yn seiliedig ar ragdybiaethau Banc Lloegr) ar yr Awdurdod am y 3 blynedd ariannol nesaf i fod yn £903,000. Nodwyd chwyddiant cyflog hefyd fel rhywbeth anhysbys. Gall leihau'r her neu gynyddu'r pwysau ariannol ar yr Awdurdod, a bydd angen ei asesu pan fydd hynny'n hysbys. Daeth y Prif Weithredwr i'r casgliad nad oedd angen ystyried unrhyw addasiadau sylweddol (ac eithrio Plas Tan y Bwlch) yn y flwyddyn ariannol hon, ond mae angen gwneud gwaith paratoadol i'w ystyried yn y dyfodol. Yn dilyn hyn, cafodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei ystyried yn ffurfiol gan yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 11eg o Fedi 2024. Roedd rhai o'r camau a ystyriwyd yn yr adroddiad i fynd i'r afael â'r her ariannol yn cynnwys: • Gwaredu Plas Tan y Bwlch sy'n creu arbediad o £240k yn y gyllideb waelodlin; • Cynyddu'r incwm a gynhyrchir yn y Canolfannau Croeso; • Cynyddu ffioedd parcio ceir; a • Ystyried toriadau i rai llinellau cyllideb er mwyn creu arbedion. Cytunwyd i fabwysiadu'r CATC fel dogfen waith, a'i adolygu a'i ddiweddaru wrth i wybodaeth berthnasol ddod i'r amlwg.

	Yn ogystal, cytunwyd i weithio'n agos gyda Gweinidogion a Swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymrwymiad ar gyllidebau dangosol yn y dyfodol ac i geisio sicrhau darpariaeth tuag at gostau chwyddiant, i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.
Rheoli Perfformiad	Cafodd y mecanwaith ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant yr Awdurdod a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol eu nodi'n ffurfiol yn 2021/22. Mae'n cadarnhau y bydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn craffu perfformiad ar y camau gweithredu a gynhwysir yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol sy'n rhoi cipolwg ar gynnydd bob chwarter. Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24 a gymeradwywyd i'w fabwysiadu a'i gyhoeddi gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar yr 11eg o Fedi 2024, yn adrodd ar gynnydd Blwyddyn 2 o ran cyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod.

Egwyddor 5: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

Rôl Disgrifiadau Aelodau	Cafodd y disgrifiadau diwygiedig ar gyfer rôl Aelodau a'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd eu mabwysiadu gan yr Awdurdod ar yr 27ain o Ebrill 2022. Gwnaethpwyd newidiadau i gryfhau pwyslais rôl aelodau wrth osod cyfeiriad strategol ac uchelgais ar gyfer yr Awdurdod, gan ddarparu cyflwyniad trosfwaol gan gynnwys pwrpas Parciau Cenedlaethol a rôl yr Awdurdod wrth gyflawni'r dibenion hyn, a chryfhau'r adran ar ddatblygiad personol a rôl.
Presenoldeb Aelodau	O'r 1af o Hydref 2024, mae holl bwyllgorau a chyfarfodydd yr Awdurdod wedi eu cynnal yn y Brif Swyddfa ym Mhenrhyndeudraeth, gan fanteisio'n llawn ar y buddsoddiad technolegol newydd ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid sydd wedi gwreiddio'n dda. Gall aelodau'r cyhoedd arsylwi'r pwyllgorau mewn person neu wylio gweddarllediad byw, ac eithrio'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar hyn o bryd. Gellir gweld recordiadau pwyllgorau yn ddiweddarach hefyd drwy sianel YouTube yr Awdurdod.

	Roedd presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd yn ystod 2024/25 yn 85%, o'i gymharu ag 85% a 81% yn y ddwy flynedd flaenorol, sef 2023/24 a 2022/23.
Hyfforddiant Aelodau	Yn 2024/25, roedd presenoldeb aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi yn 48% (53.5% yn 2023/24). Yn ogystal â rhaglen hyfforddi Aelodau'r Awdurdod, eleni darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer sesiynau hyfforddi Aelodau ar y canlynol: ➢ Llywodraethu Ariannol effeithiol; ➢ Llywodraethu Risg; a ➢ Llywodraethu Cynaliadwy. Mae deunyddiau cwrs ar gael ar wefan Tirweddau Cymru, sy'n galluogi Aelodau nad oeddent yn gallu bod yn bresennol i gael mynediad at y wybodaeth.
Gwerthusiadau Perfformiad a Hyfforddiant Staff	Nodir anghenion dysgu a datblygu mewn adolygiadau gwerthuso perfformiad blynyddol, sy'n amlinellu blaenoriaethau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae cyfraddau gwerthuso staff yn parhau i fod yn isel, gydag ond 35% o staff yn derbyn gwerthusiad yn ystod 2024/25. Bydd ffocws pellach yn parhau i sicrhau bod cymaint o staff â phosibl yn cael eu harfarnu'n flynyddol.
Strategaeth Adnoddau Dynol	Yn ystod 2024/25 y cyfartaledd absenoldeb salwch staff oedd 8.9 diwrnod i gymharu â 9.1 diwrnod yn ystod 2023/24. Mae dadansoddiad o'r data sydd ar gael wedi dangos y bu cynnydd sylweddol mewn absenoldebau oherwydd iechyd meddwl, straen yn y gwaith, straen, hwyliau isel ac iselder. Mae'r cynnydd hwn wedi annog yr Awdurdod i gymryd y camau canlynol: • Cynnig cyfle i staff sy'n absennol o'r gwaith oherwydd straen gael eu cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol; • Yr adran AD i gefnogi rheolwyr i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Lles, ar gyfer staff sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb oherwydd straen; • Gweithredu asesiadau risg straen ar draws yr Awdurdod; a

	• Gwella cywirdeb cofnodi rhesymau dros absenoldeb i nodi tueddiadau a darparu data ar gyfer dadansoddiad pellach. Fel rhan o'r gwaith uchod, cyflwynwyd arolwg ar-lein Teclyn Dangos Straen i staff. Mae'r arolwg yn casglu data'n ddienw gan weithwyr, a bydd yn sgorio'r perfformiad ar agweddau gweithle sy'n ymwneud â straen. Yn ogystal, mae gan holl staff ac Aelodau'r Awdurdod fynediad i'r ap Lles 360, sy'n cynnig, ymhlith pethau eraill, fynediad 24 awr at wasanaethau Meddygon Teulu, llinell gymorth iechyd meddwl 24 awr a sesiynau cwnsela. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd nifer o bolisïau diwygiedig newydd, gan gynnwys Gweithio'n Hyblyg, Polisi Cam-drin Domestig, Polisi Dysgu a Datblygu, Polisi Ysmygu, a Pholisi ar Addasiadau Rhesymol.
Gallu Tîm Rheoli	Yn dilyn ymddeoliad y Prif Weithredwr, cadarnhawyd penodiad newydd ar gyfer y rôl ar yr 2il o Hydref 2024, sef penodiad mewnol. Ar y 13eg o Dachwedd 2024 cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr newydd i'r Awdurdod yn argymell strwythur newydd ar gyfer y Tîm Rheoli. Roedd prif fater gwydnwch yr adroddiad wedi'i godi'n flaenorol gan yr Awdurdod fel risg i weithrediad yr Awdurdod. Felly, ystyriwyd bod hwn yn amser cyfleus i fynd i'r afael â hyn, a thrwy hynny liniaru risg corfforaethol. Wrth gydnabod bod gan gynyddu capasiti'r Tîm Rheoli oblygiadau ariannol sylweddol, roedd yr Awdurdod serch hynny o'r farn wrth bwyso a mesur bod y manteision yn gorbwyso'r anfanteision. Penderfynodd yr Awdurdod felly gefnogi'r cynnydd yn nifer Aelodau'r Tîm Rheoli o 3 i 4, a fydd wedi'u strwythuro fel a ganlyn: Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr a 2 Gyfarwyddwr. Bydd y cymorth gweinyddol yn parhau fel y mae. Byddai rôl y Dirprwy Brif Weithredwr yn cael ei hadolygu rhwng y Prif Weithredwr a Chadeirydd yr Awdurdod o fewn 6 mis.

Egwyddor 6: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

Datganiadau Ariannol	Cyflwynwyd a chymeradwywyd y Datganiad Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2021/22 yn ffurfiol, ynghyd ag Adroddiad ISA 260 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 12fed o Fehefin 2024. Awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cyllid i lofnodi Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol gan yr Archwilydd Penodedig gan Archwilio Cymru yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018. Yn adroddiad Archwilio Cymru nodwyd bod nifer y diwygiadau a'r bylchau cychwynnol yn llawer niferus na'r disgwyl yn gyffredinol. Adroddwyd hefyd gefndir manwl ar yr oedi a brofwyd yn ystod ailbrisio'r asedau. Yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 27ain o Dachwedd 2024, cyflwynodd Archwilio Cymru ei Gynllun Archwilio sy'n nodi'r cynllun ar gyfer archwiliad cyfrifon 2022/23 a rhaglen waith archwilio perfformiad 2023 a 2024. Roedd y Cynllun yn nodi amserlen o Ionawr 2024 ar gyfer cwblhau'r archwiliad a barn ffurfiol datganiadau ariannol 2022/23. Ni chyflawnwyd yr amserlen hon a chyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2022/23 ynghyd ag adroddiad ISA 260 i'r Awdurdod ar yr 30ain o Ebrill 2025 yn lle. Cadarnhaodd Archwilio Cymru fod angen nifer o welliannau unwaith eto, ac oherwydd hyn roedd angen mwy o amser ar Archwilio Cymru i archwilio'r cyfrifon a fyddai'n arwain at ffi uwch i'r Awdurdod. Fodd bynnag, rhoddwyd barn ddiamod ar y cyfrifon terfynol ar ôl i gywiriadau gael eu gwneud. Awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cyllid i lofnodi Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol gan yr Archwilydd Penodedig gan Archwilio Cymru yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

Rheoli Risg	Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n chwarterol gan Benaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli. Fel y nodir yn y Gofrestr Risg, mae'r cyfrifoldeb dros y risgiau a adnabuwyd yn cael eu dyrannu i swyddogion a enwir ac mae dyddiad targed yn cael ei osod ar gyfer mesurau lliniaru. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu gan Aelodau ym mhob Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac mae unrhyw risgiau sy'n cael eu tynnu i ffwrdd o'r Gofrestr yn cael ei gadarnhau yn flynyddol yng nghyfarfod yr Awdurdod.
Archwilio Allanol	Ar ddechrau 2023, cychwynnodd Archwilio Cymru adolygiad ar lywodraethu o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, a oedd yn cynnwys craffu effeithiol, partneriaethau, cefnogi adferiad a gwytnwch, penodi aelodau a gwneud y mwyaf o'u cyfraniad drwy gydbwyso materion cenedlaethol a lleol. Cyflwynwyd yr adroddiad yn ffurfiol i Aelodau a Swyddogion yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod ar yr 12fed o Fehefin 2024. Cyflwynwyd yr ymateb sefydliadol yn ddiweddarach i'r Aelodau i'w drafod yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 10fed o Orffennaf 2024. Roedd staff Archwilio Cymru yn bresennol i roi dilyniant i'r Aelodau i'r ymatebion a dderbyniwyd i'w pedwar argymhelliad. Mae manylion llawn y canfyddiadau a'r argymhellion wedi'u nodi o dan Adran 6 (Materion Llywodraethu Arwyddocaol) yn y Datganiad hwn. Yn ystod haf 2023 cyhoeddodd Archwilio Cymru friff ar eu harchwiliad arfaethedig ar 'Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Mynediad', a chyflwynodd Swyddogion y dystiolaeth y gofynnwyd amdani yn briodol. Derbyniwyd adroddiad drafft ar y 9fed o Ionawr 2025 a darparodd yr Awdurdod gwestiynau dilynol ar rai o'r canfyddiadau. Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd i drafod y materion hyn ar y 6ed o Fawrth 2025. Nid yw'r adroddiad terfynol yn cynnwys yr argymhellion wedi dod i law eto.
Archwiliad Mewnol	Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd ar waith y flwyddyn ariannol flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24 ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

	Mae Archwilio Mewnol wedi cadarnhau y byddant yn adrodd ar waith a wnaed yn ystod 2023/24 a 2024/25 mewn adroddiad dwy flynedd gyfun yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2025.
Iechyd a Diogelwch	Yn dilyn adolygiad o reolaeth Iechyd a Diogelwch o fewn yr Awdurdod yn ystod mis Chwefror 2023, ac i gydymffurfio â Rheoliad 7 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, penodwyd Swyddog Iechyd a Diogelwch mewnol ym mis Ionawr 2024. Cyflwynwyd Adroddiad Iechyd a Diogelwch i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 27ain o Dachwedd 2024 gan y Swyddog newydd. Nododd yr adroddiad nifer o fylchau yn y System Rheoli Iechyd a Diogelwch, yn arbennig y broses adolygu polisïau a gweithdrefnau, asesiadau risg ac asesiadau anghenion hyfforddi. Mae'r materion hynny bellach yn cael sylw. Yn ystod 2023/24, mynychodd 43 aelod o staff gyrsiau hyfforddi mewn perthynas ag iechyd a diogelwch. Mae 160 o gyrsiau iechyd a diogelwch pellach wedi'u cwblhau gan staff trwy lwyfan e-ddysgu ELMS ar gyfer Parciau Cenedlaethol. O fewn yr un cyfnod adrodd, adroddwyd am 18 digwyddiad, ac nid oedd yr un ohonynt yn adroddadwy o dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).
Canolfannau Gwybodaeth	Mae gan yr Awdurdod 3 Canolfan Gwybodaeth, sef ym Metws y Coed, Beddgelert ac Aberdyfi, sydd yn cael eu rheoli gan Reolwr Twristiaeth Gynaliadwy, gyda'r prif nod i sicrhau bod y canolfannau yn fasnachol hyfyw / hunangynhaliol. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 27ain o Dachwedd 2024. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r flwyddyn 2024/25 hyd yma, a daeth i'r casgliad y byddai'r Canolfannau yn diweddu'r flwyddyn ariannol o fewn eu cyllideb weithredu osodedig. Y prif faterion i'w nodi oedd y cynnydd yn y trosiant ariannol a welwyd ym mhob un o'r 3 Canolfan, bod nifer yr ymwelwyr wedi aros yn sefydlog yn Aberdyfi a Betws y Coed, ond wedi gostwng ychydig ym Meddgelert. Mae lefelau staffio llawn wedi bod yn eu lle ym mhob Canolfan am y tymor

	llawn ac ni chollwyd unrhyw ddiwrnodau oherwydd diffyg cyflenwad. Cadarnhaodd yr adroddiad y bydd cynyddu incwm a lleihau costau rhedeg y Canolfannau yn flaenoriaeth yn 2025 a bydd pob cyfle masnachol yn cael ei archwilio.
Strategaethau Benthyca a Buddsoddi / Rheoli'r Trysorlys	Ni chyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol sy'n darparu'r gweithgaredd Rheoli Trysorlys gwirioneddol (benthyca a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2023/24 yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cyllid y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2025/26 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 5ed o Chwefror 2025. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at gyflawni gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut y caiff y risg gysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn cychwyn 2024/25 yn ddiddyled. Cyfanswm y gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn yw £1.44M, gyda £1.24M ohono'n cael ei ariannu gan ffynonellau allanol a £196K yn cael ei ariannu gan adnoddau'r Awdurdod ei hun. Nid oes unrhyw ddisgwyliad y bydd angen i'r Awdurdod ariannu unrhyw waith cyfalaf trwy fenthyca. Cymeradwyodd yr Aelodau 'dim newid' i'r cyfyngiad benthyca awdurdodedig a'r ffin weithredol, a chymeradwywyd y Strategaeth Benthyca Cyfalaf a'r Strategaeth Buddsoddi ar gyfer 2024/25, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud a'r Cod Darbodus.
Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch	Yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 7fed o Chwefror 2024, dywedodd y cyn Prif Weithredwr fod Bwrdd Plas Tan y Bwlch wedi dod i'r casgliad na ellir datblygu busnes hyfyw sy'n gysylltiedig â chyflawni dibenion statudol yr Awdurdod o fewn yr adnoddau presennol sydd ar gael. Penderfynwyd yn y cyfarfod i fynd ar drywydd llwybr dwy ffordd o fesur pa ddiddordeb sydd yn yr Eiddo ar y Farchnad Agored ac yn ogystal, i barhau trafodaethau gyda phartneriaid posibl i redeg y safle.

	Roedd adroddiad gan y Prif Weithredwr Dros Dro i'r Awdurdod ar yr 11eg o Fedi 2024 yn adrodd ar gynnydd fel a ganlyn: • Er gwaethaf ymholiadau niferus a diddordeb yn y safle, dim ond un cynnig pendant i brynu a dderbyniwyd; • Bod cwmni cymunedol, Cymunedoli Cyf., wedi comisiynu astudiaeth dichonoldeb ar y posibilrwydd o drosglwyddo'r ased i'w perchnogaeth; ac • Oherwydd y sylw cynyddol yn y wasg yn ddiweddar, roedd pryderon wedi'u codi gan y cyhoedd, yn bennaf ynghylch colli mynediad i'r coetir a Llyn Mair. Penderfynwyd gohirio penderfyniad yn ymwneud â'r cynnig er mwyn galluogi trafodaethau i barhau gyda phartïon eraill â diddordeb a gyda Cymunedoli Cyf., ac ymchwilio i opsiynau i warchod mynediad i'r coed a Llyn Mair. Cyflwynwyd adroddiad diweddaru cynhwysfawr pellach i'r Awdurdod ar y 13eg o Dachwedd 2024. Ar ôl ystyriaeth ofalus a thrafodaethau gan yr Aelodau, penderfynwyd: • Diddymu'n ffurfiol benderfyniad yr Awdurdod mewn perthynas â Phlas Tan y Bwlch dyddiedig 11 o Fedi 2024; • Gohirio penderfyniad ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch tan gyfarfod yr Awdurdod ar yr 30ain o Ebrill 2025; • Parhau i gyfathrebu a thrafod gyda'r partïon hynny sydd wedi dangos diddordeb hyd yn hyn gyda golwg ar gael gwell dealltwriaeth o'u diddordeb a'u gallu i brynu; • Defnyddio'r amser hwn i gynnal asesiad o allu unrhyw ddarpar brynwr i ariannu atgyweiriadau a gwelliannau angenrheidiol i Blas Tan y Bwlch a pha gynlluniau sydd ganddynt ar gyfer yr eiddo. Yr asesiad hwn i gynnwys asesiad o fodd Cymunedoli Cyf. ac unrhyw Gwmni Cymunedol arall i fwrw ymlaen â'u cynlluniau a'r amserlen debygol; • Yn y cyfamser, bod Plas Tan y Bwlch yn cael ei dynnu'n ôl yn ffurfiol o'r farchnad; a • Ystyried a dod i benderfyniad ar yr opsiwn a ffafrir ar gyfer sicrhau mynediad cyhoeddus i'r coetiroedd a Llyn Mair ar gyfer penderfyniad ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar yr 30ain o Ebrill 2025.

	Yn dilyn trafodaeth fanwl yng Ngweithgor yr Aelodau ar y 3ydd o Fawrth 2025, pan gyflwynodd y Prif Weithredwr newydd opsiwn newydd ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch; gofynnwyd i Swyddogion ymchwilio i gadw Plas Tan y Bwlch yn amodol ar sicrhau grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Trafodwyd yr opsiwn hefyd gyda'r gymuned mewn sesiwn galw heibio ar yr 20fed o Fawrth 2025. Roedd adroddiad pellach gan y Prif Weithredwr newydd i'r Awdurdod ar yr 30ain o Ebrill 2025 yn rhoi mwy o fanylion am yr opsiwn hwn ac amserlen arfaethedig i'w hystyried. Cymeradwywyd yr argymhelliad canlynol yn ffurfiol gan yr Aelodau yn y cyfarfod: • Swyddogion i ymchwilio i gadw Plas Tan y Bwlch, yn amodol ar sicrhau grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda golwg ar adleoli swyddfeydd o Benrhyndeudraeth i'r Plas, a chynnwys cymysgedd ehangach o ddefnyddiau ar gyfer yr eiddo; • Swyddogion i fynd ar drywydd hyn gyda chais Grant y Loteri Genedlaethol; • Swyddogion i bwysleisio pwysigrwydd rheolaeth disgwyliadau trwy gydol y broses hon, gan nodi y byddai'r Plas yn dychwelyd i'w werthu pe bai'r cais am grant yn methu; • Pe bai'r dull ariannu grant yn aflwyddiannus, y dylai'r Awdurdod gadw rheolaeth ar y coetiroedd a Llyn Mair, pa bynnag benderfyniad a wneir ar Blas Tan y Bwlch; • Swyddogion i barhau i fonitro sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn agos drwy gydol y broses hon, gan gynnwys cyflwyno mesurau i leihau'r diffyg presennol yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol hon; a • Bod yr Awdurdod yn ystyried y mater hwn ymhellach ac unrhyw gynnydd a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi 2025. Mae Cofrestr Risg yr Awdurdod yn parhau i gael ei hadolygu a'i diweddaru drwy gydol y broses hon, i adlewyrchu'r sefyllfa fwyaf diweddar o ran lliniaru risgiau. Ceir rhagor o fanylion o dan Adran 6, Materion Llywodraethu Arwyddocaol, yr adroddiad hwn.

Yr Ysgwrn	Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn ar gyfer 2023/24 i'r Awdurdod ar yr 11eg o Fedi 2024. Roedd yr adroddiad yn nodi bod 2 brosiect llwyddiannus wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn. Y cyntaf oedd Prosiect Geiriau Diflanedig a agorodd ei arddangosfa ym mis Mehefin 2023. Derbyniwyd cymorth grant ariannol i ddatblygu adnodd addysgol yn seiliedig ar y prosiect, a fyddai'n ymateb i ofynion cwricwlwm Cymru ar gyfer disgyblion 7 i 11 oed. Yr ail oedd Prosiect Fama, a gychwynnwyd oherwydd y fandaliaeth a gyflawnwyd ar gofeb Hedd Wyn yn ystod 2022. Roedd hwn yn gyfle i gydweithio â'r gymuned i ail-ddehongli'r berthynas gyda Hedd Wyn a threftadaeth Yr Ysgwrn a'r gymuned leol, union ganrif ar ôl dadorchuddio'r gofeb, yn 1923. Yn ogystal â'r 2 brosiect, cynhaliwyd 20 o weithgareddau pellach a ddenodd dros 500 o fynychwyr yn ystod y flwyddyn. Er gwaethaf yr heriau ariannol, daeth y flwyddyn i ben o fewn cyllideb gweithredu'r Ysgwrn.

Egwyddor 7: Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Datganiad Polisi Tâl	Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl o dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Er bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn ystyriwyd ei fod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath, ac yn unol â hynny gwneir hyn yn flynyddol gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 a Datganiad Polisi Tâl yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 10fed o Orffennaf 2024 gan sicrhau tryloywder o ran y taliadau cydnabyddiaeth ariannol i staff yn yr Awdurdod.
Adroddiad Blynyddol 2023/24	Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 11eg o Fedi 2024, cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan a'i ddosbarthu i brif ganolfannau'r Awdurdod, llyfrgelloedd cyhoeddus ac ati, o fewn y Parc Cenedlaethol.

	Mae'n cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn, sy'n nodi'r hyn a gyflawnwyd, beth na chafodd ei gyflawni ac unrhyw broblemau a wynebwyd. Mae hefyd yn cynnwys manylion am Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac Amcanion yr Awdurdod a osodir yn flynyddol sy'n bwydo i mewn ac yn dangos sut y bwriedir mynd â'r Parc Cenedlaethol yn ei flaen er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Awdurdod; gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd ag Amcanion yr Awdurdod, a rheoli perfformiad.
Pwyllgorau Hybrid a Darlledu	O'r 1af o Hydref 2024, mae holl gyfarfodydd swyddogol yr Awdurdod bellach yn cael eu cynnal ym Mhrif Swyddfa Penrhyndeudraeth, gan fanteisio'n llawn ar y buddsoddiad mewn technoleg cyfarfodydd hybrid sydd wedi'i osod yn yr ystafelloedd cynadledda. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad hefyd yn cael eu gweddarlledu'n fyw ar sianel YouTube yr Awdurdod, yn ogystal â hynny mae recordiad o'r cyfarfod i'w weld ar unrhyw adeg. Felly gall aelodau'r cyhoedd naill ai fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn bersonol neu gallant gael mynediad o bell. Mae hyn nid yn unig yn gwella mynediad i Aelodau a Swyddogion ond hefyd yn gwella mynediad, tryloywder ac adrodd ar fusnes yr Awdurdod i aelodau'r cyhoedd.
Cyllido Grant	Ariennir y rhan fwyaf o waith prosiect yr Awdurdod trwy gyllid grant allanol. Rhoddir diweddariadau Cyllid Grant, gan gynnwys unrhyw ailbroffilio a newidiadau i ddyddiadau gorffen lle bo'n berthnasol, i Aelodau drwy'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Rhoddir gwybodaeth fanwl am brosiectau a ariennir gan gyfalaf yn ogystal â phrosiectau byw. Mae'r Awdurdod yn adolygu ei flaenoriaethau'n flynyddol, gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r amserlenni sy'n gysylltiedig â rhai rhwymedigaethau grant, ac o ganlyniad yn cadarnhau'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol.

	Mae'r aelodau wedi cadarnhau'n flaenorol bod angen eu cymeradwyaeth ar gyfer prosiectau o dan yr amgylchiadau canlynol: • Unrhyw brosiectau aml-flwyddyn. • Unrhyw gynnig nad yw'n cyd-fynd â'r hyn y cytunwyd arno fel blaenoriaeth strategol. • Unrhyw gynnig a gyfeiriwyd at aelodau gan y Cadeirydd neu Brif Swyddog Gweithredol. • Unrhyw gynnig yn ystod y flwyddyn uwchlaw'r terfyn cyllid y cytunwyd arno (cytunwyd ar £150,000) Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 27ain o Dachwedd 2024.
Safonau'r Iaith Gymraeg	Ar y 30ain o Fedi 2015, cyhoeddodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn cadarnhau'r Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt. Fel sy'n ofynnol gan y Safonau, cynhyrchodd yr Awdurdod Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn amlinellu'n fanwl sut y cydymffurfiodd yr Awdurdod â'r holl Safonau yn ystod y flwyddyn. Cymeradwyodd yr Awdurdod yr Adroddiad Blynyddol yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar y 12fed o Fehefin 2024, ac awdurdododd gyhoeddi'r adroddiad ar wefan yr Awdurdod a rhoi cyhoeddusrwydd iddo ar sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau y Bwriedir eu Cymryd ar gyfer 2025/26

Archwilio Cymru: Llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Yn ystod y cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr 2023, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau llywodraethu ar draws Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru. Ystyriodd yr adolygiad bum elfen allweddol: model a strwythur llywodraethu; swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol o fewn y strwythurau hyn; diwylliant llywodraethu; seilwaith i gefnogi llywodraethu effeithiol; a threfniadau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd llywodraethu.

Roedd pwrpas yr adolygiad yn ddeublyg. Yn gyntaf, i nodi sut y gellid cryfhau trefniadau llywodraethu yng ngoleuni themâu a nodwyd yn flaenorol a oedd wedi dod i'r amlwg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o adolygiadau, sef:

- Capasiti Swyddogion sydd dan bwysau;
- Tensiwn rhwng blaenoriaethau allweddol wrth gyflawni swyddogaethau;
- Dibyniaeth ar gyllid grant tymor byr;
- Herio sefyllfaoedd ariannol a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn; a
- Anawsterau rheoli perfformiad partneriaethau.

Yn ail, mae'r amgylcheddau gweithredu yn heriol i Barciau Cenedlaethol yng Nghymru oherwydd 15 mlynedd o gyllidebau sy'n lleihau, ac sy'n gwneud llywodraethu da hyd yn oed yn bwysicach er mwyn rheoli'r gostyngiadau mewn cyllid yn effeithiol mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian.

Wrth adrodd ar y canlyniad i'r Awdurdod hwn ym mis Mehefin 2024, nododd Archwilio Cymru yn ei adroddiad "Ar y cyfan, canfuom fod y model llywodraethu ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn darparu fframwaith clir i gyflawni eu swyddogaethau allweddol, ond mae gwendidau yn ei weithrediad yn peri risg i lywodraethu da."

Materion penodol a nodwyd oedd:

- Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cydnabod gwerth cydweithio ond mae llywodraethu trwy strwythurau partneriaeth gymhleth yn cyflwyno heriau.
- Mae risg o ymestyn gallu Swyddogion wrth wasanaethu gofynion llywodraethu.
- Mae gwendid yn y prosesau dethol aelodau etholedig mewn perygl o danseilio llywodraethu da.
- Mae gan Lywodraeth Cymru broses gymharol drylwyr ar gyfer penodi Aelodau, ond cyfyngedig yw'r gefnogaeth barhaus i Aelodau penodedig.
- Nid yw'n glir i ba raddau y mae Aelodau'n cael eu dal yn atebol am eu cyfraniad at lywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
- Mae gwendidau yn y modd y mae'r model llywodraethu yn cael ei weithredu yn codi cwestiynau am ei addasrwydd.

Cynigion ar gyfer Gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella ar gyfer yr Awdurdod yn benodol, sef y rhai a nodwyd gan Archwilio Cymru wrth gynnal yr adolygiad ynghyd ag ymateb yr Awdurdod.

Argymhelliad	
R1	**Cefnogi Aelodau i gyflawni eu rôl:** Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at wendidau yn y cymorth a'r canllawiau parhaus a ddarperir i aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i: ➢ Cytuno ar y gefnogaeth a'r arweiniad a ddarperir i aelodau APC; ➢ Cytuno pa gymorth a chanllawiau fydd yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru a pha rai fydd yn gyfrifoldeb yr APCau; a ➢ Cyfleu hyn yn glir i aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.
Ymateb APC Eryri 12.06.2024	
	Mae'r Awdurdod yn gwerthuso anghenion datblygu pob Aelod yn aml. Yn dilyn ymlaen o hyn darperir rhaglen gymorth i bob Aelod. Mae'r Awdurdodau yn cynnal seminar ar gyfer Aelodau ar lefel Gymraeg yn flynyddol. Mae cyfleoedd eraill ar gael i Aelodau ar lefel y DU ac Ewrop. Byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru i alluogi hyfforddiant thematig i bob Aelod.
Ymateb Archwilio Cymru 10.07.2024	
	Wrth gytuno i barhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i alluogi hyfforddiant thematig i'r holl Aelodau i'w ganmol, roedd Archwilio Cymru yn parhau i fod o'r farn nad oedd ymateb y sefydliad yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r hyn sydd ei angen ac nad oedd yn rhoi digon o sicrwydd y byddai hyn yn digwydd.
Ymateb Pellach APC Eryri 10.07.2024	
	Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Archwilio Cymru.

Argymhelliad	
R2	**Sicrhau bod enwebiadau Aelodau yn cefnogi llywodraethu da:** Mae'r adroddiad hwn yn amlygu diffyg eglurder ac anghysondeb o ran sut mae aelodau awdurdodau lleol yn cael eu henwebu i eistedd ar APCau. Mae hefyd yn amlygu diffyg amrywiaeth ymhlith aelodau awdurdodau lleol APC. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod APCau yn gweithio gyda CLILC a Llywodraeth Cymru i: ➢ adolygu a yw'r protocol ar gyfer enwebiadau yn parhau i fod yn addas i'r diben; ➢ codi ymwybyddiaeth o'r protocol a sut y gall gefnogi enwebiadau; a ➢ hyrwyddo ei ddefnydd ymhlith awdurdodau lleol perthnasol.
Ymateb APC Eryri 12.06.2024	
	Nid yw'r rhain yn faterion sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Mae'r rhain yn bwynt gweithredu i CLILC, awdurdodau lleol unigol a Llywodraeth Cymru. Bydd yr Awdurdod yn fodlon cyfrannu at unrhyw adolygiad/craffu ar hyn os gwahoddir ef i wneud hynny.
Ymateb Archwilio Cymru 10.07.2024	
	Croesawodd Archwilio Cymru'r cynnig i weithio gyda Llywodraeth Cymru a CLILC ar y protocolau, ac er bod yr ymateb yn nodi nad oedd y materion hyn o fewn rheolaeth yr Awdurdod, roeddent yn berthnasol i'r Awdurdod gan fod ganddo rôl i lywodraethu'n effeithiol.
Ymateb Pellach APC Eryri 10.07.2024	
	Newid yr ymateb fel y canlyn: Nid yw'r rhain yn faterion sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Mae'r rhain yn bwynt gweithredu i CLILC, awdurdodau lleol unigol a Llywodraeth Cymru. Byddai'r Awdurdod yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at unrhyw adolygiad/craffu ar hyn pe bai'n cael ei wahodd i wneud hynny.

Argymhelliad	
R3	**Gwella atebolrwydd i Aelodau** Er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch cyfraniad Aelodau at lywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac i helpu i lywio'r ddarpariaeth hyfforddi a datblygu yn y dyfodol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, APCau ac awdurdodau lleol cyfansoddol yn cydweithio i ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer holl aelodau APCau sy'n: ➢ gwerthuso eu cyfraniad i'r APC; a ➢ gellir ei ddefnyddio i helpu i dargedu cefnogaeth a datblygiad i alluogi aelodau APC i fod yn effeithiol yn eu rôl.

Ymateb APC Eryri 12.06.2024	
	Edrychwn ymlaen at gynorthwyo Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Llec ar hyn.
Ymateb Archwilio Cymru 10.07.2024	
	Derbyniwyd.

Argymhelliad	
R4	**Adolygu a yw'r model yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd** Mae'r adroddiad hwn yn amlygu gwendidau yng ngweithrediad y model llywodraethu a sut mae'r materion hyn yn codi cwestiynau am ei addasrwydd. Er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn adlewyrchu'r heriau gwahanol y mae pob un yn eu hwynebu, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, o fewn yr amserlenni ar gyfer dynodi parc cenedlaethol newydd, yn adolygu'r model llywodraethu ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
Ymateb APC Eryri 12.06.2024	
	Nid yw'r adroddiad yn amlygu unrhyw wendidau o ran Llywodraethu, amlygir pryderon cyffredin a rennir gan sawl corff cyhoeddus sef diffyg adnoddau i'w cyflawni, her yw hon, nid diffyg Llywodraethu. Nid oes unrhyw dystiolaeth resymegol wedi'i chyflwyno yn yr adroddiad hwn am yr angen am newid a pham nad yw'r system Lywodraethu yn addas i'r diben. Mae sawl adroddiad wedi dod i'r casgliad bod y system Lywodraethu bresennol yn darparu'r cydbwysedd angenrheidiol i reoli lleoedd arbennig a bregus. Mae'r adroddiad wedi colli cyfle i edrych ar faterion Llywodraethu strategol e.e. Effeithiolrwydd adran 62(2) o'r Ddeddf yn cefnogi amcanion Parciau Cenedlaethol, gallu APC i fasnachu a gallu APC i reoli Adnoddau naturiol o fewn ei ffiniau. Siomedig iawn fel trosolwg o Lywodraethu.

Ymateb Archwilio Cymru 10.07.2024	
	Roedd ymateb yr Awdurdod yn nodi nad oedd yr adroddiad yn darparu tystiolaeth pam nad oedd y system Lywodraethu yn addas at y diben. Roedd Archwilio Cymru yn hyderus bod yr adroddiad yn rhoi sail i'r dystiolaeth a oedd yn gynhwysfawr ac yn derfynol.
Ymateb Pellach APC Eryri 10.07.2024	
	Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion nad oedd angen unrhyw newid i ymateb yr Awdurdod.

Proffil Risg yr Awdurdod

Mae'r tair risg uchaf i'r Awdurdod fel y cawsant eu diweddaru ym mis Mawrth 2025, fel a ganlyn:

**Mae'r ddau risg sy'n gysylltiedig â Phlas Tan y Bwlch wedi cael eu diweddaru ers hynny a disgwylir iddynt gael eu hadrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2025.*

Risg	**Canlyniad**	**Gweithred a Nodwyd / Cynnydd hyd yma**
Diffyg arian cyllido craidd digonol.	Torri Gwasanaethau.	Cafodd y Gyllideb ar gyfer 2025/26 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 5ed o Chwefror 2025, ac fe'i sefydlwyd ar gynnydd o 5% yn Grant Llywodraeth Cymru, ac fel canlyniad cynnydd o 5% yn yr ardoll ar yr awdurdodau lleol hefyd. Er hyn, mae cynnydd yma yn dilyn sawl blwyddyn o ddim cynnydd, felly nid yw'r grant wedi dal i fyny â chwyddiant dros y cyfnod hwn. Ar adeg pennu'r gyllideb, rhagwelir y bydd cyllideb 2025/26 yn cynnwys diffyg o £635,850 bydd rhaid ei ariannu o gronfeydd, a bydd angen i'r Awdurdod barhau i sicrhau fod camau pendant yn cael eu cymryd i gau'r bwlch yma neu bydd balansau cyffredinol yr Awdurdod wedi eu defnyddio i gyd. Felly, er gwaethaf y cynnydd yn Grant y Llywodraeth bydd rhaid parhau i ystyried arbedion a/neu gynyddu incwm ar gyfer y blynyddoedd i ddod. **Graddfa Risg:** **Effaith 4 x Tebygolrwydd 4 = 16 (Uchel)**
*Plas Tan y Bwlch – pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol tymor hir.	Methiant i gadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. Niwed sylweddol i enw da'r Awdurdod. Effaith andwyol ar yr economi leol. Colli bywoliaeth i staff a gyflogir ym Mhlas Tan y Bwlch.	Mae Plas yn parhau i weithredu busnes llawer llai ar adeg ysgrifennu hwn, ond mae wedi llwyddo i ddenu busnes dros dro, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol. Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 13eg o Dachwedd 2024 penderfynodd yr Awdurdod: (i) dirymu'n ffurfiol y penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch Plas Tan y Bwlch dyddiedig 11eg o Fedi 2024. (ii) gohirio penderfyniad ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch tan gyfarfod yr Awdurdod ar y 30ain o Ebrill 2025. (iii) parhau i gyfathrebu a thrafod gyda'r

	Methiant i gynnal adeilad rhestredig Gradd II*.	partïon hynny sydd wedi dangos diddordeb hyd yn hyn gyda'r bwriad o gael gwell dealltwriaeth o'u diddordeb a'r gallu i brynu. (iv) defnyddio'r amser hwn i gynnal asesiad o allu unrhyw brynwr posibl i ariannu atgyweiriadau a gwelliannau sy'n angenrheidiol i Blas Tan y Bwlch a pha gynlluniau sydd ganddynt ar gyfer yr eiddo. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys asesiad o allu unrhyw Gwmni Cymunedol i fwrw ymlaen â'u cynlluniau a'r amserlen debygol dan sylw. (v) yn y cyfamser, tynnu Plas Tan y Bwlch oddi ar y farchnad yn ffurfiol. (vi) ystyried a phenderfynu ar yr opsiwn a ffafrir er mwyn sicrhau mynediad cyhoeddus i'r coetir a Llyn Mair trwy benderfyniad ffurfiol gan yr Awdurdod cyn gynted â phosibl. (vii) os na fydd y trafodaethau y cyfeirir atynt yn (iii) yn llwyddo a/neu os bydd pob darpar brynwr yn methu'r asesiad y cyfeirir ato yn (iv), bydd yr holl opsiynau gan gynnwys gosod Plas Tan y Bwlch yn ôl ar y farchnad agored yn cael eu hystyried. (viii) cynnal sesiwn galw heibio pellach ar ddyddiad i'w drefnu ond cyn cyfarfod yr Awdurdod ar y 30ain o Ebrill 2025 er mwyn cyfathrebu penderfyniad yr Awdurdod a gwrando ar unrhyw bryderon sydd gan gymunedau lleol a thu hwnt sydd yn parhau heb eu datrys. Mae trafodaethau wedi parhau gyda phartïon â diddordeb ers y 13eg o Dachwedd ac nid yw'r sefyllfa wedi newid gan mai dim ond un cynnig cadarn a dderbyniwyd hyd yma. Bydd adroddiad yn cael ei ystyried gan Weithgor yr Awdurdod ar y 5ed o Fawrth 2025 pan fydd y sefyllfa'n cael ei thrafod yn fanylach. **Graddfa Risg:** **Effaith 4 x Tebygolrwydd 5 = 20 (Uchel)**

*Risg ariannol ac i enw da ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch.	Gallai dyfodol Plas Tan y Bwlch (boed hynny ar gyfer gwerthu neu gadw) greu risg ariannol sylweddol uwch a niwed i enw da.	Mae'r sefyllfa gymhleth a deinamig hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan y Prif Weithredwr. Cymerir gofal mawr i sicrhau y caiff yr effeithiau ariannol eu lliniaru cyn belled ag y bo modd, er na ellir dileu'r risgiau hyn. Mae amryw o risgiau i enw da yn deillio o amrywiaeth o senarios hefyd, ac mae'r rhain yn cael eu hystyried yn ofalus yn fewnol gyda swyddogion. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad yn amlinellu'r risgiau hyn a sut yr eir i'r afael â hwy i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Ebrill. **Graddfa Risg:** **Effaith 5 x Tebygolrwydd 3 = 15 (Uchel)**

Barn

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ymdrin â'r materion y cyfeiriwyd atynt yn rhan 6 yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r anghenion gwella a bennwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

JONATHAN CAWLEY
PRIF WEITHREDWR
AWDURDOD PARC
CENEDLAETHOL ERYRI

DYDDIAD: 11.06.2025

CYNG. EDGAR WYN OWEN
CADEIRYDD
AWDURDOD PARC
CENEDLAETHOL ERYRI

DYDDIAD: 11.06.2025

RHESTR TERMAU

CRONIADAU

Y cysyniad fod incwm a gwariant yn cael ei gydnabod fel y mae'n cael ei ennill neu ei wneud, nid pan fo arian yn cael ei dderbyn neu ei dalu.

TÂL CYFALAF

Taliad i gyfrifon refeniw gwasanaeth i adlewyrchu cost yr asedau sefydlog a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth.

GWARIANT CYFALAF

Gwariant ar gaffael ased sefydlog neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog presennol, nid ei gynnal yn unig.

DERBYNIADAU CYFALAF

Derbyniadau o ddim llai na £10,000 o werthiant asedau sefydlog. Gellir eu defnyddio ar gyfer cyllido gwariant cyfalaf o'r newydd neu ad-dalu dyled. Ni ellir eu defnuyddio i gyllido gwariant refeniw "dydd i ddydd" arferol.

ASEDAU CYMUNEDOL

Asedau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu dal am byth, nad oes ganddynt oes ddefnyddiol y gellir ei phennu, ac sydd o bosib â chyfyngiadau ar gael gwared â hwy.

RHWYMEDIGAETHAU / ASEDAU AMODOL

Mae'r rhain yn deillio o ddigwyddiad hanesyddol ac sy'nm ddibynnol ar ddigwyddiadau ac amseriad heb sicrwydd iddynt yn y dyfodol cyn y gellir eu cynnwys yn y cyfrifon.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD

Gwariant a ddyrennir fel cyfalaf i bwrpasau ariannu ond nad yw'n arwain at i wariant gael ei gario yn y fantolen fel ased sefydlog . Yn gyffredinol grantiau yw'r rhain a gwariant ar eiddo nad yw'n perthyn i'r Awdurdod.

CYNLLUN BUDDIANT DIFFINIEDIG

Cynllun pensiwn ble bo rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddiannau'n annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nad yw'r buddiannau'n uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

PRYDLES GYLLID

Prydles sy'n trosglwyddo holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased sefydlog i'r prydleswr.

PRYDLES WEITHREDOL

Prydles heblaw prydles ariannol

ASEDAU SEFYDLOG

Asedau diriaethol sy'n rhoi buddiannau i'r awdurdod a'r gwasanaethau y mae'n ddarparu am ragor nag un flwyddyn.

OES DDEFNYDDIOL

Y cyfnod y mae'r awdurdod yn cael buddiannau o ddefnydd ased sefydlog.

BYRFODDAU

CIPFA Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo

LASAAC Local Authority (Scotland) Accounts Advisory Committee

IFRS Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol

IAS Safon Cyfrifeg Rhyngwladol

Eitem Rhif 10

CYFARFOD	Awdurdod
DYDDIAD	23 Medi 2026
TEITL	**Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2025/26**
ADRODDIAD GAN	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	i. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb, trosglwyddiadau arian, a'r arian a gariwyd ymlaen o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn yr adroddiad. ii. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf. iii. Rhoi ystyriaeth i'r perfformiad adrannol gyda golwg ar reolaeth gyllidebol. iv. Cymeradwyo'r newidiadau a argymhellir i'r cronfeydd wrth gefn.

1. CYD-DESTUN

1.1 Mae sefyllfa ariannol derfynol y gwasanaethau ar gyfer 2025/26 yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi llwyddo i weithredu o fewn y cyfyngiadau ariannol. Roedd pryder wrth osod cyllideb 2025/26, ac yn ystod y flwyddyn, y byddai'r Awdurdod yn wynebu diffyg ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, derbyniwyd grant o £635,000 gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, gan olygu bod yr Awdurdod wedi osgoi'r sefyllfa honno.

1.2 Nod yr Awdurdod yw cwblhau ac awdurdodi'r datganiad cyfrifon cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, bydd yr oedi wrth archwilio cyfrifon 2024/25 yn cael effaith ddilynol ar gwblhau datganiadau ariannol 2025/26. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2025/26 (a'r trosglwyddiadau ariannol perthnasol) fel rhan o'r broses o gynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol (i'w hardystio gan y Prif Swyddog Cyllid a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod).

1.3 Dylid nodi y gall rhai ffigyrau yn yr adroddiad hwn gael eu haddasu yn ystod y drefn o gau'r cyfrifon a bod yr holl ffigyrau yn ddarostyngedig i archwiliad. Nid oes terfyn amser penodol wedi ei osod ond bydd yr Awdurdod yn anelu i lunio cyfrifon drafft erbyn Awst 31. Adroddir ymhellach i'r Awdurdod ar unrhyw addasiadau sylweddol a wneir yn y datganiad o gyfrifon ac yn dilyn cwblhau'r archwiliad arnynt.

2 GRANTIAU A DDERBYNIWYD YN 2025/26

2.1 Ym mis Ebrill 2025, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru gynnydd o 5% yng nghyllid Grant Craidd yr Awdurdod, gan ddod a chyfanswm y Grant Refeniw Craidd i £4,325,806.

Yn ogystal debyniwyd:

- £330,000 o gyllid cyfalaf cyffredinol i'w ddefnyddio ar flaenoriaethau cyfalaf yn 2025/26.
- £500,000 o raglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (Natur a Charbon).
- £433,208 ar gyfer cynllun Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig.
- £300,000 o Gronfa Pethau Pwysig (Brilliant Basics) gan Lywodraeth Cymru i uwchraddio cyfleusterau toiledau.
- £400,000 o gyllid cyfalaf Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Fawndiroedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- £635,000 o gyllid refeniw ychwanegol i fynd i'r afael â'r diffyg gweithredol yn 2025/26.
- Ym mis Chwefror 2026, derbyniwyd hefyd £1,003,300 o gyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ariannu amrywiol brosiectau cyfalaf.

3. AMLINELLIAD O SEFYLLFA DERFYNOL Y CYFRIFON

3.1 Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno cymhariaeth, ar lefel maes gwasanaeth, rhwng y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf yr oedd yr Awdurdod wedi cyllidebu ar eu cyfer, a’r gwariant terfynol gwirioneddol ar gyfer 2025/26.

3.2 Cyfanswm y gwariant net am y flwyddyn oedd £5,286,070, sef £2,612,178 yn is na'r gyllideb net ddiwygiedig o £7,898,248. Mae hyn yn adlewyrchu'r grant refeniw ychwanegol o £635,000 a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ynghyd ag incwm ychwanegol o brosiectau megis Ffermio Bro, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, llog banc ac incwm meysydd parcio, sydd unwaith eto wedi rhagori ar y gyllideb.

Mae Atodiad 3 yn nodi'r trosglwyddiadau angenrheidiol i mewn ac allan o gronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar y sefyllfa alldro gyfredol.

Cyfanswm y gwariant cyfalaf am y flwyddyn oedd £3,445,447 o'i gymharu â £2,519,130 yn y flwyddyn flaenorol (Atodiad 5). Mae'r lefel hon o wariant yn adlewyrchu llwyddiant swyddogion wrth gyflawni prosiectau fel TCLLC, Cynllun Treftadaeth Dolgellau, uwchraddio cyfleusterau Brilliant Basics, Mawndiroedd a nifer o brosiectau cyfalaf eraill.

3.3 Roedd £2,612,186 yn weddill cyn trosglwyddiadau net i gronfeydd wrth gefn penodol, llithriannau ac ymrwymiadau. Argymhellir bod unrhyw arian sy'n weddill yn cael ei glustnodi i helpu i gwrdd â'r her ariannol dros y blynyddoedd nesaf. Mae balans o £320,260 ar gael i'w ailbwrpasu o ganlyniad i danwariannau a'r grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

4. CRYNODEB REFENIW TERFYNOL 2025/26

4.1 Cyllideb Net ar gyfer 2025/26

Mae'r awdurdod eisoes wedi ei hysbysu o'r cynnydd yn y gyllideb refeniw sylfaenol net.

Yn Atodiad 1, ceir manylion pellach ynghylch y trosglwyddiadau adroddwyd amdanynt i'r Awdurdod ym Mawrth a'r rhai sydd wedi'u gweithredu ers hynny.

4.2 Trosglwyddiadau o ac i Gronfeydd Wrth Gefn a Chostau penodol Eraill

Mae balans o £2,612,186 cyn trosglwyddiadau o ac i'r cronfeydd wrth gefn. Dangosir crynodeb o'r dadansoddiad o'r trosglwyddiadau yn y tabl isod, ynghyd â chostau penodol eraill, gyda'r manylion yn Atodiad 3.

	(£)	(£)	(£)
Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2025/26			2,612,186
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn			
Rheolaeth Tir	318,012		
Cynllunio	423,595		
Corfforaethol	156,071		
		897,677	
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn			
Rheolaeth Tir	485,178		
Cynllunio	57,598		
Corfforaethol	1,388,355	-1,931,132	-1,033,454
Llithriant a Chostau Eraill (gweler Atodiad 4)	-170,160		-1,258,202
Balans ar gael i'w ailddyrannu			**320,530**

4.3 Alldro Adrannol

Pennwyd trosglwyddiadau hanfodol o ac i gronfeydd wrth gefn o fewn rhaglenni penodol neu wedi'u neilltuo ym mhwynt 4.2 eisoes ac mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa pob lefel cyfarwyddiaeth

Maes Gwasanaeth	Cyllideb Net Ddiwygiedig	Gwir Wariant	Dan/ (Dros)	Ymrwymiad	Dan/(Dros)
	£	£	£	£	£
Rheoli Tir	2,417,134	2,250,743	166,391	167,161	- 770
Cynllunio a partneriaethau	1,509,990	1,692,713	- 182,723	- 250,268	67,544
Corfforaethol	3,716,820	2,577,650	1,139,170	1,143,174	- 4,004
Balansau	63,976	-	63,976	-	63,976
	7,707,920	**6,521,107**	**1,186,813**	**1,060,067**	**126,746**
Llog a Ennillwyd	- 100,000	- 329,204	229,204	-	229,204
Cyllido Cyfalaf o Refeniw	881,380	- 314,782	1,196,162	1,231,582	- 35,420
Addasiad taliadau cyfalaf	- 591,050	- 591,050	-	-	0
CYFANSWM	**7,898,250**	**5,286,070**	**2,612,180**	**2,291,650**	**320,530**

4.4 Dadansoddiad Manwl

Mae dadansoddiad manylach fesul gwasanaeth o'r gwariant a'r ymrwymiadau ar gyfer 2025/26 yn Atodiad 2.

4.5 Amrywiadau Sylweddol

Ymhelaethir ar yr amrywiadau dros £10,000 o fewn y gwasanaethau isod sy'n cyfrannu at y cyfanswm o £320,530 sydd ar gael i'w ail ddyrannu.

Rheoli Tir

Cadwraeth Coed ac Amaeth – Bu gwariant ar nifer o brosiectau grant lle roedd angen symud y gwariant yn erbyn gwasanaethau/grantiau penodol gan adael gwarged o fewn y gwasanaeth. Mae natur rhai prosiectau yn golygu bod ansicrwydd ynghylch argaeledd grantiau a hawliadau grant. Mae'n bosibl y bydd angen gwarged un flwyddyn i ymateb i sefyllfaoedd tebyg mewn blynyddoedd dilynol. Bydd cyfanswm o £193,000 yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn.

Mynediad Cyhoeddus a Gwasanaethau Wardeiniaid
Oherwydd absenoldebau staff cafodd nifer o brosiectau eu hoedi, gan arwain at danwariant o tua £129,000. Cedwir yr arian hwn mewn cronfa wrth gefn fel y gellir cyflawni'r gwaith yn y dyfodol.

Cynllunio a Phartneriaethau

Rheolaeth Datblygu – Ceir gorwariant o £24,000 oherwydd anawsterau recriwtio i rai swyddi arbenigol, absenoldebau ac ymddiswyddiadau staff, ynghyd â chostau ymgynghoriaeth allanol uchel. Mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Polisi a Chynllunio - Roedd tanwariant o £65,000 ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd swyddi gwag dros gyfnod ac arbedion yn llinell gyllideb y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r adolygiad or Cynllun Datblygu Lleol yn parhau ac bydd y gyllideb yn cael ei chariot drosodd i 2026/27.

Partneriaethau – Roedd tanwariant o tua £100,000 ar linell Cronfa Gomisiynu'r gyllideb. Mae rhan o'r arian wedi'i glustnodi ar gyfer prosiect Awyr Dywyll a swydd Swyddog Pobl Ifanc. Bydd £50,000 yn cael ei gario ymlaen i gyllideb 2026/27 i ariannu Arolwg Ymwelwyr Eryri.

Corfforaethol:

Meysydd Parcio a Chyfleusterau Ymwelwyr – Roedd incwm meysydd parcio a Llyn Tegid £140,000 yn uwch na'r targed. Cedwir y gwarged yng Nghronfa Rheoli Asedau i fynd i'r afael â materion seilwaith parhaus ym Mhont Bethania a Phen-y-Pass.

Eiddo – Roedd tanwariant o £18,356 ar gyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw cyffredinol.

Cyfreithiol – Roedd gorwariant o £13,050 oherwydd costau ychwanegol gwasanaethau a chyngor proffesiynol allanol ar faterion fel cyflogaeth, gweithredu ANPR a gwersyllu gwyllt.

Cyfieithu – Tanwariant o oddeutu £16,000. Bydd yr arian yma yn cael ei ddefnyddio yn 2026/27 gan bydd cynnydd sylweddol yn y gwaith cyfieithu o ganlyniad adolygu y Cynllyn Datblygu Lleol.

Adnoddau Dynol – Roedd gorwariant o £15,000 oherwydd costau recriwtio ychwanegol, yn enwedig wrth recriwtio dau gyfarwyddwr newydd.

Llog Banc – Mae'r gwir incwm a dderbyniwyd yn llawer uwch na'r gyllideb o £100,000 a'r rhagolygon blaenorol. Mae hyn yn bennaf gan fod y cyfraddau llog yn parhau yn uchel a chwyddiant ddim yn gostwng ar y gyfradd a ragwelwyd, gan arwain at incwm llog ychwanegol o £229,000.

4.6 Newidiadau ers yr adroddwyd yn flaenorol

Fel adroddwyd yn flaenorol, mae'r awdurdod wedi llwyddo osgoi gorffen y flwyddyn ariannol mewn diffyg o ganlyniad derbyn grantiau ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn ogystal, mae'r grantiau yma wedi caniatau i'r Awdurdod gario arian megis incwm meysydd parcio, ac incwm canolfannau ayyb drosodd i 2026/27 er mwyn cyfarch yr her ariannol. Mi fydd yr arian yma yn cael ei neilltuo yn y cronfeydd wrth gefn hyd nes bydd ei angen.

5. ALLDRO CYFALAF 2025/26

5.1 Mae manylion y gyllideb Gyfalaf, alldro a ffynonellau ariannu yn ymddangos yn y crynodeb isod ac Atodiad 5:

	Cyllideb Net	Gwariant	Incwm	Gweddill	Wedi'i Neilltuo	Tan / (Tros)
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Rheoli Tir	345,043	2,001,741	-1,992,122	333,453	387,158	*-53,706*
Cynllunio a Phartneriaethau	500,000	432,556	-100,000	167,444	167,444	*0*
Corfforaethol	36,340	1,011,150	-1,670,079	695,268	827,846	*-132,578*
Cyfanswm	**881,383**	**3,445,447**	**-3,762,200**	**1,196,166**	**1,382,448**	**-186,284**

5.2 Mae'r gyllideb net ddiwygiedig o £881,383 a'r gwariant net o -£316,754 yn gadael £1,196,166 cyn trosglwyddiadau a llithriannau. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y grant ychwanegol o £330,000, grantiau TCLLCa nifer o brosiectau grant hanesyddol, ynghyd â'r £1 miliwn o gyllid cyfalaf a dderbyniwyd yn agos at ddiwedd y flwyddyn.

5.3 Gweler Atodiad 5 am fwy o fanylder.

6. CRONFEYDD WRTH GEFN

6.1 Gweler isod grynodeb o'r cronfeydd defnyddiadwy gyda'u balansau cyfredol. Dylid nodi fod cyfran sylweddol o'r isod yn cynrychioli symiau sydd eisoes wedi eu hymrwymo at ddibenion penodol.

Enw'r Gronfa	Balans 31/03/2025	Symudiad	Balans 31/03/2026
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	163,791	-	163,791
Cronfa Adran 106	654,407	(405,996)	248,411
Cronfa Grantiau Refeniw	1,092,928	50,191	1,143,119
Grantiau Cyfalaf dderbyniwyd ymlaen llaw	2,334,979	(335,954)	1,999,025
Cronfa Rheoli Asedau	979,499	78,897	1,058,396
Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus	225,000	-	225,000
Cronfa Arian Cyfatebol	819,039	(0)	819,039
Cronfa Arian Gariwyd Drosodd	116,511	1,258,202	1,374,713
Cronfa Prosiectau	1,375,243	203,907	1,579,150
Cronfa Is-adeiledd yr Wyddfa	56,303	-	56,303
Cronfa Risgiau Penodol	412,351	46,563	458,914
Cronfa Gwytnwch Staff	372,172	-	372,172
Cronfa Risgiau Masnachol	100,000	-	100,000
Cronfa Her Ariannol	2,683,218	750,000	3,433,218
Cronfa Gyffredinol	1,066,750	(0)	1,066,750
	12,452,191	**1,645,810**	**14,098,001**

6.2 Clustnodi Balans a Tanwariant ac Incwm Ychwanegol

Mae balans o £320,530 o danwariannau ac incwm ychwanegol o 2025/26 ar gael i'w ailddyrannu ar sail unwaith-ac-am-byth. Argymhellir trosglwyddo'r swm hwn i'r Gronfa Caledi Ariannol neu'r Gronfa Refeniw Gyffredinol i gyfrannu at ariannu'r diffyg o 2026/27 ymlaen.

6.3 Dadansoddiad o'r Cronfeydd

Isod mae dadansoddiad o'r prif symudiadau o fewn y cronfeydd.

<u>Cronfa Adran 106</u>
Bu gostyngiad o £405,996 yn ystod y flwyddyn gan fod yr Awdurdod wedi defnyddio'r arian i gyfrannu at dai fforddiadwy a brynwyd mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd
. Mae symudiad yn y gronfa hon yn ddibynol ar y nifer o geisiadau cynllunio perthnasol sydd yn codi o fewn y flwyddyn.

Cronfa Grantiau Refeniw
Mae'r gronfa hon yn dal balans grantiau refeniw sydd heb eu defnyddio, derbyniwyd yn y flwyddyn ariannol ac yn cael eu hadnabod fel incwm yn y flwyddyn ariannol honno, ond eu trosglwyddo i gronfa ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Bu cynnydd net o £50,191 yn ystod y flwyddyn.

Cronfa Grantiau Cyfalaf
Mae'r gronfa hon wedi ei chreu ar yr un cynsail a'r Gronfa Grantiau Refeniw. Yn ystod 2024/25 defnyddiwyd a derbyniwyd grantiau yn golygu gostyngiad net o £335,954 yn y gronfa.

Cronfa Rheoli Asedau
Bu cynnydd o £78,897 yn y Gronfa yn ystod 2025/26 o ganlyniad i arian gael ei drosglwyddo i'r gronfa yn dilyn grant cyfalaf ychwanegol gafodd ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

Cronfa Arian Gyfatebol
Mae'r gronfa hon yn caniatau ir Awdurdod chwilio am gyllid gan bartneriaid allanol a gweithredu ar sail cyllid uwch na'r gwaelodlin blynyddol. Doedd dim symudiad yn 2025/26.

Cronfa Gwytnwch Staff
Ni fu unrhyw symudiad yn ystod 2025/26. Mae'r arian yn y gronfa hon ar gyfer prynu gwasanaeth i mewn fel bo'r angen lle mae absenoldeb tymor hir, neu ar gyfer cyflawni elfennau penodol o waith..

Cronfa Risgiau Penodol
Pwrpas y gronfa hon yw cyfarch unrhyw doriadau posib yn y gyllideb gan fod ansicrwydd am setliad grant y dyfodol.

Cronfa Her Ariannol.
Pwrpas sefydlu y gronfa hon yn 2023/24 oedd i gyfarch yr her ariannol sydd yn wynebu yr awdurdod yn y dyfodol agos. Mae'r arian yn y gronfa hon yn deillio o danwariant yn y gyllideb yn ogystal ag incwm masnachol meysydd parcio a cyllid grant ychwanegol gan Llywodraeth Cymru, yn benodol ar gyfer cwrdd â'r diffyg ariannol mae'r Awdurdod yn ei wynebu yr.

Balansau Cyffredinol
Mae disgwyliad i'r Awdurdod gadw arian wrth gefn rhag unrhyw gostau byrfyfyr ac o sylwedd na ragwelwyd. Yr awgrymiad ydy i drosglwyddo y balans dros ben o £320,530 yng nghyllideb 2025/26 i'r gronfa balansau cyffredinol.

7. TROSGLWYDDIADAU RHWNG CYLLIDEBAU GWERTH DROS £30,000 I SYLW'R AWDURDOD

7.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth dros £30,000 rhwng cyllidebau, fel a ganlyn :

Swm	**Cymeradwyaeth y Trosglwyddiad**
£30,000 - £100,000	Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a'r Cadeirydd. Trosglwyddiad i'w adrodd i'r Awdurdod nesaf er gwybodaeth yn unig.
£100,000 neu fwy	Penderfyniad Awdurdod

7.2 Mae un trosglwyddiad or fath wedi bod ers yr adroddiad dwytha

- £36,746 costau cychwynnol prosiect Plas Tan y Blwch

8. ARGYMHELLION

8.1 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf fel sydd wedi ei amlinellu yn rhan 4 (manylion yn Atodiad 1) .

8.2 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac ohonynt fel yr amlinellwyd yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.

8.3 Nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a gwasanaethau o safbwynt rheolaeth gyllidebol (paragraff 4.3 i 4.6 ac Atodiad 2)

8.4 Cymeradwyo'r llithriadau (£1,258,202) ac ymrwymiadau sy'n Atodiad 4.

8.5 Cymeradwyo trosglwyddo tanwariant y flwyddyn ariannol 2025/26 i Gronfa Balansau Cyffredinol.

8.6 Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2025/26 ar 31 Mawrth 2026

	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwyddiadau	Trosgl. Newydd	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£	£	£	£
RHEOLI TIR				
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	524,830	12,690	-	537,520
Awyr Dywyll	60,800	-	-	60,800
LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd	74,790	-	-	74,790
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	25,000	-	-	25,000
Archeoleg	70,210	1,640	-	71,850
Treftadaeth Diwylliannol	83,530	1,940	36,746	122,216
Ysgwrn	124,050	2,000	3,400	129,450
Mynediad Cyhoeddus	122,530	2,300	-	124,830
Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwy	1,240,670	30,008	-	1,270,678
Canolfannau Gwybodaeth	221,090	8,020	-	229,110
Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen	**2,547,500**	**58,598**	**40,146**	**2,646,244**
CYNLLUNIO				
Rheolaeth Datblygu	519,000	21,640	-	540,640
Polisi a Chynllunio	282,700	50,640	-	333,340
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	516,500	37,610	-	554,110
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (Grant Ll.C.)	41,900	-	-	41,900
Llwybrau Llesiant (Grant Ll.C.)	40,000	-	-	40,000
	1,400,100	**109,890**	**-**	**1,509,990**
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	136,570	-	-	136,570
Cefnogaeth yr Awdurdod	97,570	1,980	-	99,550
Rheolaeth Gorfforaethol	773,500	42,960		816,460
Eiddo	240,470	54,490	-	294,960
Cyfreithiol	60,710	1,580	-	62,290
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	210,610	9,260	4,000	223,870
Cyfieithu	95,990	9,760	- 4,000	101,750
Adnoddau Dynol	217,530	5,840	-	223,370
Pencadlys	263,870	- 19,440	-	244,430
Systemau Gwybodaeth	390,960	8,740	-	399,700
Cyllid	242,970	7,100	-	250,070
Plas Tan y Bwlch	530,230	4,100	-	534,330
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	**3,260,980**	**126,370**	**-**	**3,387,350**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2025/26 ar 31 Mawrth 2026

	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwyddiadau	Trosgl . newydd	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£	£	£	£
Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen				
RHEOLI TIR	**2,547,500**	**58,598**	**40,146**	**2,646,244**
CYNLLUNIO	**1,400,100**	**109,890**	**-**	**1,509,990**
CORFFORAETHOL	**3,260,980**	**126,370**	**-**	**3,387,350**
Wyddfa Di-Blastig	-	-	-	-
Cyfathrebu	310,360	7,870	-	318,230
Llyn Tegid	- 20,180	-	-	- 20,180
Meysydd Parcio	- 463,270	- 69,050	6,310	- 526,010
Clirio Ysbwriel	19,510	20,000	-	39,510
Traffig a Chludiant	5,000	- 5,000	-	-
Cyfleusterau Ymwelwyr	261,310	27,500	-	288,810
	3,373,710	**107,690**	**6,310**	**3,487,710**
BALANSAU				
Darpariaeth chwyddiant cyffredinnol	30,000	- 30,000	-	-
Darpariaeth chwyddiant cyflogau	120,000	- 56,024	-	63,980
	150,000	**- 86,024**		**63,980**
CYFANSWM	**7,471,310**	**190,154**	**46,456**	**7,707,924**
Llog a Enillwyd	- 100,000	-	-	- 100,000
Refeniw yn Ariannnu Gwariant Cyfalaf	1,443,110	395,154	- 956,884	881,380
Addasiad Taliadau Cyfalaf	- 591,050		-	- 591,050
	8,223,370	**585,308**	**- 910,428**	**7,898,250**
ARIANWYD O				
Grant Parc Cenedlaethol	4,325,806			4,325,806
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,441,935			1,441,935
Tros. o'r cronfeydd wrth gefn	2,455,629	395,154	- 720,270	2,130,513
Cyllideb Net	**8,223,370**	**395,154**	**- 720,270**	**7,898,250**

Atodiad 2

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sefyllfa Refeniw Derfynol 2025/26 ar 31 Mawrth 2026

	Cyllideb Net ddiwygiedig	Gwir Wariant	Wedi'i Neilltuo	Gwariant O dan/ (Trosodd)
	£	£	£	£
CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR				
Cadwraeth Coed & Amaeth	537,520	344,643	192,877	0
Llefydd Lleol Natur		- 55,683	55,683	- 0
Ffermio Bro		38,555	- 38,555	0
Awyr Dywyll	60,800	38,432	22,368	0
Coedwig Celtaidd (LIFE)	74,790	354,247	- 279,457	0
Carneddau	25,000	- 60,585	85,585	- 0
Archaeoleg	71,850	71,363	-	487
Treftadaeth Diwyllianol	122,216	122,723	-	- 507
Yr Ysgwrn	129,450	132,145	-	- 2,695
Mynediad Cyhoeddus	124,830	166,051	-	- 41,221
Wardeiniaid	1,270,678	1,098,852	128,660	43,166
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	**2,417,134**	**2,250,743**	**167,161**	**- 770**
Cynllunio a Phartneriaethau				
Rheolaeth Datblygu	540,640	970,281	- 405,996	- 23,644
Polisi a Chynllunio	333,340	267,001	65,729	610
Partneriaethau	554,110	412,889	50,000	91,221
Ymgysylltu a phobl ifanc	41,900	42,542		- 642
Llwybrau Llesiant	40,000	-	40,000	-
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	**1,509,990**	**1,692,713**	**- 250,268**	**67,544**
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	136,570	126,061		10,509
Cefnogaeth Awdurdod	99,550	80,899		18,651
Rheolaeth Corffor.	816,460	89,791	720,000	6,669
Eiddo	294,960	285,909		9,051
Cyfreithiol	62,290	75,341		- 13,051
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	223,870	214,367	4,000	5,503
Cyfieithu	101,750	88,919	12,000	831
Adnoddau Dynol	223,370	239,103		- 15,733
Pencadlys	244,430	253,740		- 9,310
Systemau Gwybodaeth	399,700	424,110		- 24,410
Cyllid	250,070	272,085		- 20,752
Plas Tan y Bwlch	534,330	280,893	253,437	0
Cyfathrebu	318,230	345,458		- 27,228
Canolfannau Gwybodaeth	229,110	210,532		18,578
Miri Medi Eryri	-	- 15,000	15,000	-
Llyn Tegid	- 20,180	- 90,179	60,000	9,999
Meysydd Parcio	- 526,010	- 606,040	80,000	30
Casglu Sbwriel	39,510	44,909		- 5,399
CyfleusterauYmwelwyr	288,810	256,752		32,058
	3,716,820	**2,577,650**	**1,144,437**	**- 4,004**
	63,976	-	-	63,976
BALANSAU	**7,707,920**	**6,521,107**	**1,061,330**	**126,746**
	- 100,000	- 329,204	-	229,204
CYFANSWM	881,380	- 314,782	1,231,582	- 35,420
Llog a Enillwyd	- 591,050	- 591,050	-	-
Cyllido Cyfalaf	**7,898,248**	**5,286,070**	**2,292,913**	**320,530**
Addasiad Taliadau Cyfalaf				
WEDI'I ARIANNU O				
Grant y Parc Cenedlaethol	4,325,806			
Ardoll Awdurdod Cyfansoddol	1,441,935			
Defnydd o gronfeydd wrth gefn	2,130,513			
Cyllideb Net Ddiwygiedig	**7,898,252**			

			Atodiad 3
	(£)	**(£)**	**(£)**
Cyfanswm balansau ar gyfer 2025/26			**2,612,186**
Trosgwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn			
Rheoli Tir			
Ffermio Bro (Cronfa Prosiectau)	38,555		
Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE)	279,457		
		318,012	
Cynllunio a phartneriaethau			
Cyfraniadau A106	423,595		
		423,595	
Cronfa Grantiau Cyfalaf/ Gwariant cyfalaf arall			
Uwchraddio cyfleusterau (Cronfa Rheoli Asedau)	101,953		
Carneddau	2,933		
Adfer Harlech (Grant Llywodraeth Cymru)	14,125		
Cadair Idris	21,228		
Clwy'r Ynn (Grant Llywodraeth Cymru)	1,455		
Mind the Gap	14,377		
		156,071	
			897,677
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn			
Rheoli Tir			
Llefydd Lleol i Natur (Refeniw WCVA)	55,683		
Cadwraeth Coed ac Amaeth	192,877		
Awyr Dywyll	22,368		
Prosiectau Mynediad	128,666		
Carneddau	85,585		
		485,178	
Cynllunio a phartneriaethau			
Cyfraniadau A106	17,598		
Llwybrau Llesiant	40,000		
		57,598	
Corfforaethol			
Conrfa Risgiau Penodol (PTYB)	253,437		
Cronfa Rheoli Asedau (Gwarged incwm Meusydd Parcio)	140,000		
Diffyg yn y gwaelodlin	720,000		
		1,113,437	
Cronfa Grantiau Cyfalaf/ Gwariant cyfalaf arall			
Prosiectau Mynediad	10,000		
Treftadaeth Diwyllianol	2,736		
Prosiect Treftadaeth Dolgellau	77,885		
Prosiect Cyfalaf Mawn	19,397		
T.C.LL.C 2025.26	82,384		
Llefydd Lleol Natur	34,132		
Prosiect Walio Grid Cenedlaethol	11,341		
Coedwig Genedlaethol	1,333		
Vodafone	35,710		
		274,918	
			1,931,402
Cyfanswm			
			1,578,462
Llithriant a Chostau Eraill (atodiad 4)	1,258,202		1,258,202
Balans ar gael i'w ailddyrannu			**320,260**

Atodiad 4

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Llithriant a Chostau Eraill 2025/26

Prosiectau Cyfalaf 2025.26		
Tanwariant cyffredinol T.C.LL.C 2025.26	288,738	
Tanwariant prosiectau T.C.LL.C 2025.26	221,853	
Dwr Gwyllt Eryri SLSP	19,247	
Grant Cyfalaf Ychwanegol 25.26 (Llywodraeth Cymru)	539,108	
Ffermio Bro Cyfalaf 25.26	42,527	
		1,111,474
Cynllunio a Phartneriaethau		
Cynllun Datblygu Lleol Eryri	65,729	
Arolwg Ymwelwyr	50,000	
		115,729
Corfforaethol		
Miri Medi Eryri	15,000	
Cyfieithu - Cynllun Datblygu Lleol Eryri	16,000	
		31,000
Cyfanswm		**1,258,203**

Atodiad 5

ALLDRO CYFALAF 2025/26

	Cyllideb Net	Gwariant	Incwm	Gweddill	Wedi'i Neilltuo	Tan / (Tros)
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Rheoli Tir						
Prosiectau Mynediad	10,000	-	-	10,000	10,000	-
Treftadaeth Diwyllianol	112,744	110,008	-	2,736	2,736	- 0
Treftadaeth Dolgellau	-	27,355	- 105,241	77,885	77,885	0
Llwybrau Carneddau	13,872	16,805	-	- 2,933	-	- 2,933
Adfer Harlech	30,557	44,682	-	- 14,125	-	- 14,125
Cadair Idris	39,730	60,958	-	- 21,228	-	- 21,228
Mawndiroedd	-	371,507	- 388,934	15,455	15,455	0
Clwy'rYnn-grantLl.C.	-	1,455	-	- 1,455	-	- 1,455
MIND THE GAP	-	95,804	- 81,427	- 14,377	-	- 14,377
Amaeth-cerbydau	35,140	36,974	- 1,833	- 0	-	- 0
Terfynnau Traddodiadol	103,000	102,589	-	411	-	411
LlefyLleolNatur23-25	-	180,529	- 210,445	29,916	29,916	-
Prosiect Walio NG	-	124,440	- 135,781	11,341	11,341	-
Coedwig genedlaethol	-	79,141	- 80,474	1,333	1,333	-
Vodafone	-	4,290	- 40,000	35,710	35,710	-
Eryri yn y nos-SLSP	-	-	- 25,000	25,000	25,000	-
Dwr gwyllt Eryri-SLSP	-	-	- 10,000	10,000	10,000	-
Coed a ch.hynaf-SLSP	-	18,988	- 85,000	66,012	66,012	-
Trydan adnewydd-SLSP	-	44,220	- 80,000	35,780	35,780	-
NG-Din-Pentir	-	5,753	- 25,000	19,247	19,247	-
LleoLleolCrHer	-	24,100	- 28,316	4,216	4,216	-
Ffermio Bro Eryri	-	440,490	- 462,472	21,982	21,982	-
Ffermio Bro Llyn	-	116,533	- 125,054	8,521	8,521	-
Ffermio Bro Mon	-	95,121	- 107,146	12,024	12,024	-
Rheoli Tir Is-gyfanswm	**345,043**	**2,001,741**	**- 1,992,122**	**333,453**	**387,158**	**- 53,706**
Cynllunio a Phartneriaethau						
Prosiect SLSP 25.26	500,000	417,616	-	82,384	82,384	-
Dadgarboneiddio Dolgellau SLSP	-	14,940	- 100,000	85,060	85,060	0
Cynllunio a Phartneriaethau Is-gyfanswm	**500,000**	**432,556**	**- 100,000**	**167,444**	**167,444**	**0**
Corfforaethol						
Uwchraddio toiledau	-	401,953	- 300,000	- 101,953		- 101,953
Offer TG	*22,340*	22,358	-	- 18		- 18
Cerbydau wardeiniaid	*14,000*	81,386	- 35,929	- 31,457		- 31,457
PryniantCerbydEiddo	-	-	- 850	850		850
SLSP Cyffredinol 25.26	-	41,262	- 330,000	288,738	288,738	- 0
Cyfalaf Ychwanegol 25.26	-	464,192	- 1,003,300	539,108	539,108	0
Corfforaethol Is-gyfanswm	**36,340**	**1,011,150**	**- 1,670,079**	**695,268**	**827,846**	**- 132,578**
	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	**881,383**	**3,445,447**	**- 3,762,200**	**1,196,166**	**1,382,448**	**- 186,284**

CYFARFOD	Awdurdod
DYDDIAD	23 Medi 2026
TEITL	**Diweddariad ar y Gyllideb 2026/27**
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Cyllid
PWRPAS	I hysbysu'r Aelodau: • am drosglwyddiadau sylweddol. • am y gwariant hyd yma yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a chyflwyno unrhyw flaen/ragamcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol

1. CEFNDIR

1.1 Mae'r adroddiad yn cyflwyno diweddariad ar gyllideb 2026/27, gan grynhoi'r sefyllfa refeniw a chyfalaf ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2026 i 31 Gorffennaf 2026.

1.2 Mae hefyd yn cynnwys cymhariaeth â sefyllfa'r un cyfnod yn 2025/26.

1.3 Mae'r grantiau Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (TCLlC) yn parhau yn 2026/27 ac yn werth £500,000, yn ogystal a £330,000 o gyllid cyfalaf cyffredinol.

1.4 Sicrhawyd cyllid grant ychwanegol ar gyfer nifer o raglenni, gan gynnwys INRS Ffermio Adfywiol a INRS Y Coed iawn yn y lle iawn, sydd yn golygu grantiau o £1m yr un, £162,500 o grant Diogelwch Cronfeydd Dŵr a'r rhaglen Llefydd Lleol Natur. Mae prosiectau mawr a ariennir yn allanol, megis LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd, Ffermio Bro a'r prosiect Adfer Mawndiroedd yn parhau fel y rhagwelwyd.

1.5 Mae cytundeb ar raddfeydd cyflog, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2026, bellach wedi'i dderbyn. Bydd y cyfraddau cyflog newydd, pob un wedi cynyddu o 3.3%, yn cael eu cynnwys yn y gyllideb a'u gweithredu y mis hwn. Mae darpariaeth o £165,000 yn y gyllideb yn barod, yn seiliedig ar gytundeb o 3% ond disgwylir i'r gost fod yn agosach i £184,000. Bydd y gwahaniaeth yma o £19k yn cynyddu'r diffyg i £158k erbyn diwedd y flwyddyn.

2. CYLLIDEB REFENIW DIWYGIEDIG 2026/27

2.1 Cymeradwywyd y Gyllideb Net Wreiddiol gan yr Awdurdod ar 4ydd o Chwefror 2026.

Gwasanaethau	Cyllideb Sylfaenol	Trosgl. cynt £	Trosglwyddiadau	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£		£	£
Rheoli Tir	2,517,580	- 1,335	-	2,516,245
Cynllunio	1,389,450	-	-	1,389,450
Corfforaethol	2,845,475	85,037	-	2,930,512
Balansau	195,000	-	-	195,000
Cyfanswm Gwasanaethau	**6,947,505**	**83,702**	**-**	**7,031,207**
Llog a ennilwyd ar falansau	- 150,000	-	-	- 150,000
Refeniw yn ariannu gwariant Cyfalaf	2,925,680	-	-	2,925,680
Addasiad Taliadau Cyfalaf	- 591,050	-	-	- 591,050
Cyllideb net	**9,132,135**	**83,702**	**-**	**9,215,837**
	-	-	-	-
Arianwyd o	**-**	**-**	**-**	**-**
Grant Parciau Cenedlaethol	4,499,000	-	-	4,499,000
Grant Parciau Cenedlaethol Ychwanegol	-	-	-	-
Ardoll Awdurdodau Cyfansoddol	1,499,610	-	-	1,499,610
	5,998,610	**-**	**-**	**5,998,610**
Trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn	3,133,525	83,702	-	3,217,227
Cyllideb Net ddiwygiedig	**9,132,135**	**83,702**	**-**	**9,215,837**

2.2 Diwygiwyd y gyllideb net wreiddiol o **£9,132,135** (gymeradwywyd ar 4 Chwefror 2026) i **£9,215,837**. Mae manylion llawn a thoriad fesul gwasanaeth ar gael yn Atodiad 1.

3. CYLLIDEB GYFALAF DDIWYGIEDIG

3.1 Mae crynodeb o'r gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf ar gyfer 2026/27 i'w weld yn y tabl canlynol, gyda manylion ychwanegol yn atodiad 2.

Cyllideb Cyfalaf 2026/27

Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Gros Wreiddiol	Incwm Grant	Cyllideb Net Wreiddiol	Trosgl.	Trosgl. Newydd	Cyllideb Net Ddiwyg.
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Rheoli Tir	2,073,340	-	2,073,340	-	-	2,073,340
Planning	-	-	-	-	-	-
Corfforaethol	852,340	-	852,340	-	-	852,340
Cyfanswm	**2,925,680**	**-**	**2,925,680**	**-**	**-**	**2,925,680**

4 . Y Sefyllfa a Ragwelir ar gyfer 2026/27

4.1 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn y gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2026, a chymhariaeth gyda'r un cyfnod yn 2025/26.

Gwasanaethau	Cyllideb Net Ddiwygiedig	Gwariant Net hyd yma	Cymhariaeth 2025/26	Gwahaniaeth
	(£)	(£)	(£)	(£)
Rheoli Tir	2,516,245	960,864	298,044	662,820
Cynllunio	1,389,450	338,517	380,611	- 42,094
Corfforaethol	2,930,512	678,982	1,614,717	- 935,735
Balansau, cronfeydd wrth gefn a darpariaethau	195,000	-	-	-
Cyfanswm Gwariant i wasanaethau	**7,031,207**	**1,978,363**	**2,293,372**	**- 315,009**
				-
Llog â enillwyd ar gronfeydd dros ben	- 150,000	- 75,943	- 65,280	- 10,663
Cyfraniad Refeniw ar wariant Cyfalaf	2,925,680	680,440	227,862	452,578
Addasiadau Taliadau Cyfalaf	- 591,050	-	- 591,050	591,050
Cyllideb Refeniw Net	**9,215,837**	**2,582,860**	**1,864,904**	**717,956**
Arianwyd o:				
Grant Parc Cenedlaethol	4,499,000			
Lefi Awdurdod Cyfansoddol	1,499,610			
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn	3,133,525			
Cyllideb Net Wreiddiol	**9,132,135**			
Grant Ychwanegol Llywodraeth Cymru	-			
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn	83,702			
Cyllideb Net Ddiwygiedig	**9,215,837**			

4.2 I grynhoi, mae gwasanaethau ar darged i gadw o fewn eu cyllideb am y flwyddyn.

Mae cyfradd sylfaen Banc Lloegr wedi aros yn **3.75%** drwy gydol 2026 hyd yma wrth i chwyddiant ostwng. Fodd bynnag mae incwm buddsoddiadau'r Awdurdod yn iach iawn, gyda dros £75k wedi ennill hyd at ddiwedd Gorffennaf o gymharu a tharged blynyddol o £150k.

4.3 **Corfforaethol** :

Plas Tan y Bwlch – Mae cyllideb 2026/27 wedi ei addasu i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, gyda gostyngiadau i'r targed incwm yn ogystal a chostau staffio a gwasanaeth. Mae'r targed incwm cymedrol ar gyfer 26/27 eisoes wedi'i gyflawni, a disgwylir i'r sefyllfa derfynol fod ymhell o fewn y gyllideb.

Meysydd Parcio – Mae targed incwm meysydd parcio wedi ei godi £500k yn 26-27 i £1,528,800. I ddiwedd Gorffennaf, mae'r incwm yn sylweddol uwch na dderbyniwyd ar yr un adeg yn 25-26. Bydd gwybodaeth fanylach i ddod ymhellach yn y flwyddyn, pan fydd chwe mis o wybodaeth ariannol ar gael.

Cyfleusterau Ymwelwyr – Fel a nodwyd yn flaenorol, mae heriau yn parhau hefo cyfleusterau isadeiledd a costau ychwanegol yn codi o ddatrysiadau dros dro. Mae gwelliannau Pont Bethania yn parhau gan fod angen lliniaru effaith ar y gorlifdir, ac felly ni ellir pennu amserlen gadarn ar hyn o bryd. Bydd angen defnyddio'r gronfa wrth gefn asedau i ariannu'r gwaith hwn yn y dyfodol, unwaith y ceir ddatrysiad a godwyd drwy'r ymgynghoriad cynllunio. Bydd holl gostau dros dro Pont Bethania a Pen y Pass yn ystod y flwyddyn gyfredol yn cael eu hariannu o incwm meysydd parcio.

Cronfeydd Dŵr – Bydd costau dylunio gwaith ar Llyn y Dywarchen er mwyn diwallu mesurau diogelwch yn cael eu cwrdd o'r gyllideb gwasanaeth eiddo. Bu cais am grant yn llwyddiannus ar gyfer cymorth cyfalaf ac ychydig o gymorth refeniw ar gyfer gwaith Llyn Mair sy'n parhau yn ystod 2026/27. Bydd angen ariannu'r gwelliannau arfaethedig i Llyn Dywarchen yn 2027/28 o gronfeydd wrth gefn Asedau.

Systemau Gwybodaeth - Rhagwelir gorwariant ar gyllideb trwyddedu'r Adran TG oherwydd cynnydd yng nghostau tanysgrifiadau a thrwyddedau meddalwedd sy'n uwch na'r ddarpariaeth gyllidebol. Mae cynnydd mewn taliadau gan gyflenwyr a chodiadau prisiau cytundebol wedi creu pwysau parhaus ar y llinell gyllideb hon. Ar hyn o bryd, ni ddisgwylir unrhyw ostyngiad yn y costau hyn yn ystod y flwyddyn, ac felly rhagwelir gorwariant ar y gyllideb.

4.4 **Rheoli Tir** :
Yn gyffredinol, mae'r gwariant net cyfredol yn parhau o fewn y gyllideb. Mae yna amrywiadau o fewn y gwasanaethau fel y manylir isod.

Cadwraeth, Coed, ac Amaethyddiaeth - Mae nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn yn derbyn cyllid grant gan gynnwys Ffermio Bro, Prosiectau Ymylon Eryri, Mawndiroedd a INRS. Mae'n debygol y bydd y gwariant yn cael ei hawlio'n ôl trwy grantiau o fewn y flwyddyn. Wrth osod y gyllideb wreiddiol nid oedd sicrwydd o'r grantiau hyn a gosodwyd y gyllideb ar gyfer cyflogau rhai o'r cynlluniau hyn yn erbyn y gwaelodlin fel mesur rhagofalus. Nid yw'r blaen/rhagamcanion presennol yn awgrymu sefyllfa lle na fydd y grantiau ar gael ac oni bai bod y senario hwn yn newid yn ystod y flwyddyn disgwylir tanwariant ar gyflogau o fewn y gwasanaeth hwn.

4.5 **Cynllunio**

Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth – Mae gorwariant ar ffioedd ymgynghoriaeth allanol yn parhau, fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol gan fod y pwysau staffio wedi lleihau. Mae arbedion sy'n deillio o swydd wag yn helpu i liniaru rhan o'r costau ychwanegol yma. Bydd angen adolygu'r gyllideb bresennol ar gyfer tanysgrifiadau ac ymgynghorwyr allanol er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion cyfredol yr adran.

4.6 **Balansau, Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau** -Nid yw'r gronfa chwyddiant o **£30,000** wedi'i dyrannu eto na'r ddarpariaeth chwyddiant cyflogau o **£165,000**. Gan fod penderfyniad ar y codiad cyflog newydd ei wneud, bydd hyn yn cael ei weithredu cyn diwedd y mis.

4.7 **Llog –** Cynyddwyd y darged incwm llog i £150,000 ar gyfer cyllideb 2026-27, fodd bynnag, mae dros £75k wedi ei dderbyn hyd at ddiwedd Gorffennaf.

4.8 **Cyfalaf** : Mae'r prif wariant net hyd at ddiwedd mis Gorffennaf ar -

Cadair Idris (Grant Llywodraeth Cymru)	£31,250
T.C.Ll.C (amrywiol)	£66,267
Lleoedd Lleol	£51,563
Prosiect Walio NG	£56,426
Coedwig Genedlaethol	£25,283
Vodafone	£23,525
Grant NG – Dinorwig i Pentir	£11,705
Brilliant Basics – Betws a Pen y Pass	£20,410
Adfer Harlech	£38,874
Grant NG – Trawscoed	£10,000
Amrywiol – deillio o arian tanwariant 25/26	£322,538

5. TROSGLWYDDIADAU RHWNG Y CYLLIDEBAU GWERTH DROS £30,000 I SYLW'R AWDURDOD .

5.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, lle nad ydynt wedi'u cymeradwyo'n flaenorol gan yr Awdurdod. Yn ogystal, mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer unrhyw drosglwyddiad gwerth £100,000 neu fwy.

5.2 Yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod, mae'r symudiadau canlynol wedi'u cymeradwyo:

- £40,000 – Plas y Bobol – Prosiect PTyB
- £38,517 – Costau cytundebau cyfreithiol ychwanegol

6 . ARGYMHELLIAD

- **Cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2026/27**

7. PAPURAU CEFNDIR

DIM

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2026/27 ar 31 o Orffennaf 2026

	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwyddiadau	Trosgl. Newydd	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£	£	£	£
RHEOLI TIR				
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	559,560	-	-	559,560
Awyr Dywyll	61,210	-	-	61,210
LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd	74,790	-	-	74,790
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	-	-	-	-
Archeoleg	70,650	-	-	70,650
Treftadaeth Diwylliannol	81,590	5,185	-	86,775
Ysgwrn	124,510	-	-	124,510
Mynediad Cyhoeddus	123,150	-	-	123,150
Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwy	1,250,940	-	-	1,250,940
Canolfannau Gwybodaeth	171,180	- 6,520	-	164,660
Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen	**2,517,580**	**- 1,335**	**-**	**2,516,245**
CYNLLUNIO				
Rheolaeth Datblygu	524,880	-	-	524,880
Polisi a Chynllunio	304,920	-	-	304,920
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	477,390	-	-	477,390
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (Grant LI.C.)	42,260	-	-	42,260
Llwybrau Llesiant (Grant LI.C.)	40,000	-	-	40,000
	1,389,450	**-**	**-**	**1,389,450**
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	136,570	-	-	136,570
Cefnogaeth yr Awdurdod	98,350	-	-	98,350
Rheolaeth Gorfforaethol	838,805	-	-	838,805
Eiddo	241,750	6,520	-	248,270
Cyfreithiol	61,130	38,517	-	99,647
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	201,030	-	-	201,030
Cyfieithu	96,470	-	-	96,470
Personel a Hyfforddiant	219,140	-	-	219,140
Pencadlys	264,020	-	-	264,020
Systemau Gwybodaeth	412,330	-	-	412,330
Cyllid	244,900	-	-	244,900
Plas Tan y Bwlch	417,360	40,000	-	457,360
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	**3,231,855**	**85,037**	**-**	**3,316,892**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2026/27 ar 31 o Orffennaf 2026

	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwyddiadau	Trosgl . newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£	£	£	£
Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen				
RHEOLI TIR	**2,517,580**	**- 1,335**	**-**	**2,516,245**
CYNLLUNIO	**1,389,450**	**-**	**-**	**1,389,450**
CORFFORAETHOL	**3,231,855**	**85,037**	**-**	**3,316,892**
Cyfathrebu	316,520	-	-	316,520
Llyn Tegid	- 104,180	-	-	- 104,180
Meysydd Parcio	- 878,540	-	-	- 878,540
Clirio Ysbwriel	29,510	-	-	29,510
Traffig a Chludiant	5,000	-	-	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	245,310	-	-	245,310
	2,845,475	**85,037**	**-**	**2,930,512**
BALANSAU				
Darpariaeth chwyddiant cyffredinnol	30,000	-	-	30,000
Darpariaeth chwyddiant cyflogau	165,000	-	-	165,000
	195,000	**-**	**-**	**195,000**
CYFANSWM	**6,947,505**	**83,702**	**-**	**7,031,207**
Llog a Enillwyd	- 150,000	-	-	- 150,000
Refeniw yn Ariannnu Gwariant Cyfalaf	2,925,680	-	-	2,925,680
Addasiad Taliadau Cyfalaf	- 591,050		-	- 591,050
	9,132,135	**83,702**	**-**	**9,215,837**
ARIANWYD O				
Grant Parc Cenedlaethol	4,499,000			4,499,000
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,499,610			1,499,610
Grant Parc Cenedlaethol Ychwanegol				-
Tros. o'r cronfeydd wrth gefn	3,133,525	83,702	-	3,217,227
Cyllideb Net	**9,132,135**	**83,702**	**-**	**9,215,837**

Atodiad 2

Cyllideb Cyfalaf 2026/27

Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Gros Wreiddiol (£)	Incwm Grant (£)	Cyllideb Net Wreiddiol (£)	Trosgl. (£)	Trosgl. Newydd (£)	Cyllideb Net Ddiwyg. (£)
Rheoli Tir						
Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol	9,490	-	9,490	-	-	9,490
Ffermio Bro	709,850		709,850			709,850
Brilliant Basics	465,000		465,000			465,000
Gorseddau	10,000		10,000			10,000
Mawndiroedd	400,000		400,000	-		400,000
Llyn Mair - Seiphon	180,000		180,000			180,000
Pont y Wernddu - Culvert	250,000		250,000			250,000
Prosiectau Mynediad	10,000	-	10,000			10,000
Cadair Idris	25,000	-	25,000	-	-	25,000
Wardeniaid - Cerbydau	14,000	-	14,000			14,000
Is-gyfanswm	**2,073,340**	**-**	**2,073,340**	**-**	**-**	**2,073,340**
Cynllunio						
	-	-	-	-	-	-
Corfforaethol						
Systemau gwybodaeth - Rhaglen Amnewid.	22,340		22,340			22,340
T.C.LL.C Natur a Carbon	500,000		500,000			500,000
Cyffredinol	330,000		330,000			330,000
Is-gyfanswm	**852,340**	**-**	**852,340**	**-**	**-**	**852,340**
Cyfanswm	**2,925,680**	**-**	**2,925,680**	**-**	**-**	**2,925,680**

Eitem Rhif 12

CYFARFOD	Awdurdod
DYDDIAD	23 Medi 2026
TEITL	**Adroddiad y Cadeirydd ac Adroddiad Blynyddol 2025-26**
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Argymell mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a chymeradwyo ei gyhoeddi

1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Adroddiad Blynyddol sydd ynghlwm ar gyfer y flwyddyn 2025 – 26 yn adrodd yn ffurfiol ar y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod wrth wireddu ei Amcanion Llesiant.

1.2 Y Rhaglen Waith Gorfforaethol yw prif fecanwaith yr Awdurdod ar gyfer cynllunio, monitro a chyflawni ein Hamcanion Llesiant. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y Rhaglen yn rheolaidd i'r Aelodau drwy gydol y flwyddyn, gan alluogi goruchwyliaeth, craffu a herio perfformiad yn effeithiol.

1.3 Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn dod ynghyd y wybodaeth a adroddwyd drwy'r Rhaglen Waith Gorfforaethol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ystod y flwyddyn ac yn cyflwyno asesiad cyfunol o berfformiad a chyflawniadau cyffredinol yr Awdurdod.

1.4 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn darparu tystiolaeth o flwyddyn lwyddiannus o gyflawni yn erbyn y Rhaglen Waith Gorfforaethol. Mae monitro rheolaidd drwy gydol y flwyddyn wedi galluogi rheoli perfformiad effeithiol ac wedi cefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Awdurdod. Mae'r sefyllfa gyffredinol, gyda dim ond 5 o 74 o ffrydiau gwaith wedi'u graddio'n Goch, yn dangos perfformiad sefydliadol cryf a gwydnwch yn wyneb heriau ariannol parhaus.

2. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

2.1 Mae'r Cynllun yn nodi sut y perfformiodd yr Awdurdod o ran cyflawni ei flaenoriaethau yn ystod 2025 - 26 ac felly ni fydd yn effeithio ar sut y caiff cyllideb yr Awdurdod ei gwario.

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol ac yn cymeradwyo ei gyhoeddi.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

ADRODDIAD BLYNYDDOL
AR GYFER 2025/26

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr asesiadau a nodir o'i fewn, a'r rhagdybiaethau a'r rhagamcanion y maent yn seiliedig arnynt. Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sefydlu systemau rheoli mewnol a rheoli perfformiad priodol ac o'r rhain y deilliodd y wybodaeth a'r asesiadau sydd yn y Cynllun. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr wybodaeth a'r asesiadau sydd yn y cynllun yn gywir a chyflawn yn eu hanfod a bod y cynllun yn realistig ac yn gyraeddadwy.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd, LL48 6LF
www.eryri.llyw.cymru

☎01766 770274 parc@eryri.llyw.cymru

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

ADRODDIAD BLYNYDDOL

AR GYFER 2025/26

1. AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI 3

3. GWELEDIGAETH.....4

4. DATGANIAD LLESIANT A'R EGWYDDOR 5

DATBLYGU CYNALIADWY.....5

5. GOSOD AMCANION LLESIANT YR AWDURDOD 7

6. AMCANION LLESIANT YR AWDURDOD GYDA GWERTHUSIAD CRYNO O'R CYNNYDD A WNAED HYD YMA 10

7. RHEOLI PERFFORMIAD 49

8. Y FFRAMWAITH GWELLIANT.....49

9. MANYLION CYSWLLT.....51

1. AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

1.1. Parc Cenedlaethol Eryri

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Eryri ym 1951 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn dros 213,200 hectar o gefn gwlad sy'n amrywio o fynyddoedd a gweundir i goetir ac arfordir. Mae tua 25,000 o bobl yn byw yn y Parc a chredir bod 10.5 miliwn yn ymweld â'r ardal bob blwyddyn.

Mae tua 59% o drigolion y Parc Cenedlaethol yn siarad Cymraeg.

1.2. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Sefydlwyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel awdurdod lleol un pwrpas. Mae ganddo'r pwrpasau canlynol yn ôl diffiniad y Ddeddf:

- Gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, y bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ddiwylliannol; a
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc (Cenedlaethol).

Erys y cyfrifoldeb am gynllunio, cadwraeth, rheoli tir, mynediad a hamdden â'r Awdurdod, ond nid yw'n gyfrifol am ofalu am yr henoed, ysgolion, priffyrdd, gwagio biniau ysbwriel a dyletswyddau eraill Awdurdod Lleol.

Â'r Ddeddf yn ei blaen i ddweud bod yn rhaid i Awdurdod y Parc Cenedlaethol feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol er mwyn bodloni Pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol ac i'r diben hwnnw bydd yn cydweithredu ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n cynnwys hybu datblygiad economaidd a chymdeithasol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol.

At hyn, o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan. Mae'r Awdurdod felly'n gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Rheolaeth y Parc, y Cynllun Datblygu Lleol ac am benderfynu ceisiadau cynllunio.

3. GWELEDIGAETH

Mabwysiadodd yr Awdurdod weledigaeth ar gyfer y Parc ym mis Rhagfyr 2009 yn dilyn ymgynghoriad allanol helaeth â'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid allweddol. Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc (yng Nghynllun Rheolaeth y Parc) fel a ganlyn:

Erbyn 2035, bydd Eryri'n parhau i fod yn dirlun a warchodir, yn cael ei ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol gyfoethog ac amrywiol; yn rhoi buddiannau cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Cyflenwir pwrpasau'r Parc Cenedlaethol trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu i heriau newid yn yr hinsawdd, wedi ei seilio ar adnoddau naturiol – nodweddion y tirlun, cyfleoedd i ddysgu a mwynhau, treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog bywiog a chynhwysol, bydd gweithio mewn partneriaeth wedi dangos y gellir cyflawni mwy trwy undod.

Bydd cymunedau wedi mabwysiadu datrysiadau arloesol mewn Byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cysylltiad y preswylwyr â'r amgylchedd, gan roi gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol sy'n enwog yn rhyngwladol ac un o'r lleoedd i enaid gael llonydd.

4. DATGANIAD LLESIANT A'R EGWYDDOR

DATBLYGU CYNALIADWY

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Ddeddf") yn rhoi pwrpas cyffredin cyfreithiol rwymol, sef y saith nod lles. Y saith nod lles yw fel a ganlyn:

Cymru Lewyrchus	Cymru Gydnerth	Cymru Iachach	Cymru Fwy Cyfartal	Cymru o Gymunedau Cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

I'r Awdurdod, dyletswydd graidd y Ddeddf (dyletswydd llesiant) yw bod yn rhaid i ni bennu amcanion llesiant sy'n gwneud y gorau o'n cyfraniad tuag at gyflawni'r nodau llesiant a nodir uchod. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni gymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r amcanion llesiant hynny yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.

Dylai amcanion llesiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid tymor hir. Byddwn yn cwrdd â'n hamcanion llesiant drwy gyfres o gamau a gall y camau gweithredu hyn fod yn rhai tymor byr, canolig neu hir ar gyfer newid, neu yn gyfuniad o'r rhain.

Mae amcanion llesiant yr Awdurdod wedi'u nodi yn Natganiad Llesiant yr Awdurdod 2021-26 ac maent hefyd wedi'u nodi yn Adran 6 y ddogfen hon. Maent yn cael eu gosod allan yn y fath fodd fel eu bod yn dangos yn glir sut mae pob un ohonynt yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. O dan yr amcanion llesiant unigol, ceir gyfres o gamau sydd angen eu cyflawni ac mae'r rhain unwaith eto wedi eu hasesu'n unigol o ran sut y maent yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. Bydd y camau sydd i'w cymryd fel y nodir uchod ac yn Adran 5 yn cael eu cefnogi gan Raglen Waith fanwl yr adroddir arni ac a archwilir gan yr Awdurdod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Mae cefnogi'r nodau llesiant yn ddyletswydd gyfochrog y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus ei chyflawni drwy ddatblygu cynaliadwy. Gweler isod fanylion pellach ynghylch yr hyn a olygir gan ddatblygu cynaliadwy.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n hamcanion llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. **Tymor Hir** - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.

2. **Integreiddio** - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.
3. **Cynnwys** - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. **Cydweithio** - Gallai gweithredu ar y cyd gydag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. **Atal** - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Ar ôl asesu gofynion datblygu cynaliadwy gydag amcanion llesiant yr Awdurdod, mae'n ymddangos bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'n hamcanion llesiant, a nodir manylion pellach isod:

Tymor Hir: Mae pob un o nodau llesiant yr Awdurdod yn cwmpasu dyheadau tymor hir yr Awdurdod, yn benodol sut y byddwn fel Awdurdod yn cynnal ein busnes yn y dyfodol ac ethos ein ffordd o feddwl. Mae hyn yn cynnwys mwy o gydweithio gyda'n rhanddeiliaid, mwy o ymwybyddiaeth o fanteision iechyd y Parc Cenedlaethol i bobl yn gyffredinol, heriau newid yn yr hinsawdd, grymuso ein cymunedau tra'n cydnabod bod rhaid i'r Awdurdod barhau i weithredu o fewn yr adnoddau ariannol llai sydd ar gael iddo.

Integreiddio: Mae rhai o'n hamcanion llesiant yn cael mwy o effaith ar nodau llesiant unigol nag eraill. Fel rhan o'r broses o fabwysiadu ein hamcanion llesiant, ystyriodd yr Awdurdod sut maent yn cwrdd â'r nodau llesiant, a nodir y rhain nid yn unig mewn perthynas â phob un o'r amcanion llesiant ond hefyd ar gyfer y camau gweithredu tymor byr a thymor canolig penodol sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â'n amcanion llesiant.

Cynnwys: Mae'r rhan fwyaf o'n hamcanion llesiant yn cynnwys pobl eraill. Trwy gyfathrebu'n effeithiol ac ehangu dealltwriaeth y cyhoedd ar bynciau mor amrywiol â'r heriau a wynebir gan Eryri wrth ymateb i newid hinsawdd, mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden tra'n gwella dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol, disgwylir y bydd cyfathrebu o'r fath yn adlewyrchu poblogaeth Cymru. Yn yr un modd bydd sicrhau bod ein cymunedau'n gydnerth yn wyneb yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth gwrs yn ymwneud nid yn unig â phoblogaeth ardal ddaearyddol yr Awdurdod ond hefyd boblogaeth Cymru gyfan, gan mai dim ond trwy gynnwys pawb ym mhopeth rydym yn ei wneud y gallwn fod yn llwyddiannus yn y pen draw. Mae ein hamcan Ffyrdd Cydnerth o weithio, er nad yw'n cynnwys pobl eraill yn uniongyrchol, yw'r amcan sy'n sicrhau bod uchelgeisiau hirdymor yr Awdurdod yn parhau i fod yn gyraeddadwy.

Cydweithio: Fel Awdurdod Parc cymharol fach, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bob amser wedi cydnabod y manteision sylweddol a geir drwy gydweithio ag eraill a thrwy weithio mewn partneriaeth barhaus. Erbyn hyn, mae'r ffordd hon o feddwl wedi treiddio i mewn i ffabrig yr Awdurdod a'i staff, ac nid yw'n syndod bod ein holl amcanion llesiant yn golygu cydweithio. Bydd ein holl amcanion llesiant yn cynnwys cymysgedd o gydweithio mewnol ac allanol.

Atal: Ni ddylai fod yn syndod bod atal yn elfen ganolog o amcanion llesiant yr Awdurdod, o ystyried ein pwrpasau statudol. Trwy gynnwys ein cymunedau ac eraill yng ngwaith yr Awdurdod; trwy gyfathrebu'n effeithiol o ran y cyfleoedd go iawn sydd gan y Parc Cenedlaethol i'w cynnig; drwy sicrhau ein bod yn cynnig amodau ffafriol ar gyfer adfer cynefinoedd; drwy gymryd y camau gweithredu hyn, a rhai eraill, yn awr, gallwn ddechrau ar y broses o addasu i heriau newid yn yr hinsawdd. Os nad yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n awr i ymdrin â'r materion hyn, mae perygl gwirioneddol y bydd yr heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yn anorchfygol.

Mae amcanion llesiant yr Awdurdod wedi'u nodi yn Adran 5. Mae cynnydd ar weithredu ei amcanion llesiant yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod. Mae'r ddogfen hon, sef Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod, yn cael ei hystyried gan yr Awdurdod ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben ac mae'n rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

5. GOSOD AMCANION LLESIANT YR AWDURDOD

Yn 2018-19 cyfunodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol (datganiad llesiant) a chynhyrchodd un ddogfen. Roedd y dull hwn yn gyson ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol ac fe'i cefnogir gan ac fe'i archwiliwyd gan Archwilio Cymru.

Trwy'r adroddiad "Gwerthfawr a Chydnerth" ym mis Gorffennaf 2018, a oedd ar y pryd yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru, roedd yn ofynnol i amcanion llesiant yr Awdurdod fodloni'r 10 thema drawsbynciol.

Mae hwn bellach wedi'i ddisodli gan Lythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru, ac asesir cynnydd o ran cyrraedd y targedau a nodir ynddo yn rheolaidd fel rhan o'r adroddiadau ar gynnydd y Rhaglen Waith Gorfforaethol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ogystal ag i'r Awdurdod yn flynyddol.

Roedd datgymhwysiad Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn caniatáu i'r Awdurdod fabwysiadu amcanion tymor hwy a oedd yn hwyluso gwell aliniad rhwng gwaith yr Awdurdod a Chynllun Rheoli'r Parc, y Cynllun Datblygu Lleol, mecanweithiau adrodd a sefydlu amcanion realistig a CAMPUS ar gyfer rhaglenni gwaith blynyddol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod gyflawni datblygu cynaliadwy ac wrth wneud hynny mae'n rhaid iddo osod a chyhoeddi amcanion ("amcanion llesiant") sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad tuag at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod adlewyrchu'r pwrpasau a'r dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 1995.

Yn 2019 cytunodd yr Aelodau ar yr angen i adolygu amcanion yr Awdurdod i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn well â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y dogfennau a nodir uchod ac yn darparu ar gyfer blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau dynodedig Cymru.

Mabwysiadwyd amserlen gan yr Awdurdod i fabwysiadu amcanion llesiant a strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2021-26.

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu wedi'u hwyluso gan Aelodau a/neu staff drwy gydol 2020 pryd y nodwyd meysydd allweddol. Daeth tair prif thema i'r amlwg, dwy yn wynebu allan ac un yn wynebu i mewn. Yn unol â'r tair prif thema, datblygwyd pum is-thema arall er mwyn canolbwyntio ar:

AMGYLCHEDDAU CYDNERTH:
1. Gwella rheolaeth hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol hamdden,
2. Ymateb i heriau newid hinsawdd,
3. Gwella rheolaeth a dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol,
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios / amgylchiadau perthnasol i reoli tir ar ôl Brexit, a
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

CYMUNEDAU CYDNERTH:
1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd trigolion,
2. Cefnogi pobl ifanc,
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth at gymunedau lleol,
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol, a
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi'r dynodiad a'r rheolaeth o Eryri fel Parc Cenedlaethol.

FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO:
1. Datblygu gweithlu medrus,
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau,
3. Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol,
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu, a
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol i waith y Parc Cenedlaethol.
6. Cydbwyso Adnoddau ac Ymdrechion yr Awdurdod*

Yn ystod haf 2020, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad anffurfiol cychwynnol gyda rhanddeiliaid i bennu a oedd y themâu cychwynnol yn adlewyrchu'r amcanion a gweledigaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol tra'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf cynaliadwy. Roedd yr adborth yn cadarnhau'r themâu ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer newidiadau a gwelliannau pellach.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ddiwedd 2020 cyn sesiynau Aelodau/Staff pellach i drafod, ystyried a datblygu amcanion llesiant drafft terfynol a Rhaglen Waith Gorfforaethol.

Newidiodd sefyllfa'r Awdurdod fel pob sector arall yn ddramatig oherwydd yr angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn erbyn pandemig Covid-19 a'r gofynion i ymdrin â'r bygythiad i gymdeithas. Yn unol â hynny, roedd hyn yn golygu bod angen newidiadau i Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac i rai elfennau o'r amcanion llesiant eu hunain er mwyn galluogi'r Awdurdod i ganolbwyntio ymdrechion ac adnoddau ble mae eu hangen.

Er ei fod wedi'i gynllunio'n wreiddiol i adolygu Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn 2025 gyda'r bwriad o'u mabwysiadu erbyn mis Ebrill 2026, rhoddodd yr Awdurdod gymeradwyaeth ar yr 11eg o Fehefin 2025 i ymestyn yr amcanion presennol am flwyddyn i 2027. Byddai hyn yn caniatáu i ganlyniadau cyffredinol Cynllun Eryri ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod gael eu halinio. Bydd hyn yn caniatáu i'r canlyniadau a'r blaenoriaethau hirdymor a nodir yng Nghynllun Eryri gael eu cyfieithu i amcanion sefydliadol yr Awdurdod, gan sicrhau un cyfeiriad strategol cydlynol.

Gellir gwneud sylwadau ar hwn neu fersiynau ar gyfer y dyfodol o'r Adroddiad Blynyddol trwy anfon e-bost at Bethan.Hughes@eryri.llyw.cymru neu yn ysgrifenedig at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LF.

Mae'r Amcanion Llesiant a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod wedi'u nodi'n llawn yn Adran 6 y ddogfen hon ynghyd â chrynodeb o werthusiad o gynnydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

*Ychwanegwyd Cydbwyso Adnoddau ac Ymdrechion yr Awdurdod at Amcanion Llesiant yr Awdurdod o 2024 ymlaen yn dilyn adolygiad o'r Amcanion Llesiant a'r sefyllfa ariannol heriol sy'n wynebu'r Awdurdod.

6. AMCANION LLESIANT YR AWDURDOD GYDA GWERTHUSIAD CRYNO O'R CYNNYDD A WNAED HYD YMA

AMGYLCHEDDAU CYDNERTH	Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Byddwn yn cyflawni hyn drwy:							
AC1 Wella rheolaeth hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol hamdden	✓	✓	✓		✓		✓
AC2 Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd	✓	✓	✓	✓	✓		✓
AC3 Wella rheolaeth a dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol	✓			✓	✓	✓	✓
AC4 Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
AC5 Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur		✓	✓				✓

AC1 – Gwella rheolaeth hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol hamdden

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Gweithredu Ymgyrch Gyfathrebu Gwynedd ac Eryri ar yr Economi Ymweld Cynaliadwy.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)*** **AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***	Mae gwaith wedi parhau gyda thîm Eryri Mynyddoedd a Môr i hyrwyddo diogelwch yn yr awyr agored yn ystod tymor y gaeaf gan hefyd hyrwyddo cyfrannu wrth ymweld â'n trefi a'n pentrefi. Mae'r paratoadau ar gyfer y prif dymor ymwelwyr wedi dechrau ac mae prif adrannau cyfathrebu	Parhau i fonitro data ar gyfer unrhyw dueddiadau. Parhau i weithio mewn partneriaeth i gryfhau negeseuon. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o ddogfennu a chasglu

	Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy wedi cytuno i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer Haf 2026 i gydweithio'n effeithlon a chryfhau ein negeseuon ar gyfer y rhanbarth.	data ar effeithiau amgylcheddol negyddol defnyddio cerbydau a phroblemau parcio er mwyn llywio gwaith yn y dyfodol.

Darpariaeth well ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ym Mhen y Pass drwy uwchraddio cyfleusterau ymwelwyr a dehongli: Cwblhau a gosod gwelliannau i ddehongli ym Mhen y Pass.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)*** **AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***	Cwblhawyd y dylunio a'r gwaith gosod/sefydlu.	Cwblhawyd.

Monitro niferoedd ymwelwyr drwy osod offer cyfri pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)*** **AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)*** **AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***	Wedi'i gwblhau. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri.	Parhau i fonitro data am unrhyw dueddiadau. Cyhoeddi adroddiad blynyddol.

Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl ac adolygu'n flynyddol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)*** **AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***	Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng Pennaeth y Gwasanaeth Wardeiniaid, Rheolwr Mynediad a Llesiant, Uwch Wardeiniaid a'r Swyddog Prosiect Mynediad wedi'u sefydlu i adnabod, cynllunio a blaenoriaethu gwaith a phrosiectau mynediad canolig i fawr ar draws y Parc. Yn ogystal, mae prosiectau a gwaith llai yn cael eu harwain yn lleol gan Wardeiniaid Ardal yn eu cynlluniau lle unigol.	Gweithredu parhaus.

Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau troed yn Eryri.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Byddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)*** **AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)*** **AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***	Mae gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud ond nid ar gyfer Strategaeth lawn. Rhagwelir y bydd drafft o Strategaeth Llwybrau yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth yn yr Hydref ac i'r Gweithgor Aelodau ym mis Rhagfyr. Cynhelir cyfnod ymgynghori cyn ei gyflwyno'n derfynol i'r Aelodau ym mis Ebrill 2027.	Drafft i'w ystyried gan Weithgor yr Awdurdod erbyn Rhagfyr 2026.

Cynhyrchu canllawiau ar gyfer gwneud gwaith llwybrau mynediad yn Eryri.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Byddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***	Bydd gwaith yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Strategaeth Ymgysylltu uchod.	Bydd hyn yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ymgysylltu y cyfeirir ati uchod. Mae angen y ddau erbyn mis Rhagfyr 2026.

AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)*** **AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***		

Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)*** **AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***	Mae'r gwaith yn parhau trwy waith Wardeiniaid Ardal a'r Swyddog Cymorth Wardeiniaid. Mae llwybrau a hyrwyddir yn cael eu hystyried o fewn y Strategaeth Llwybrau ac mae gwaith yn parhau ar hyn. Bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth ac Aelodau yn ddiweddarach yn 2026.	Gweithredu parhaus.

Wardeniaid Ardal i weithio gyda chymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)*** **AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***	Mae'r gwaith yn barhaus ac yn cael ei flaenoriaethu yn rhaglenni gwaith y Wardeiniaid Ardal.	Gweithredu parhaus.

Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)*** **AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)*** **AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)***	Mae gan bob Warden gynllun ardal sy'n cael ei arolygu'n rheolaidd gan yr Uwch Wardeniaid. Anogir y Wardeniaid i gydweithio ag adrannau eraill ar brosiectau. Enghraifft o gydweithio yw gwaith prosiect natur Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy a ariennir gan grant Llywodraeth Cymru gyda'r Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth.	Gweithredu parhaus.

Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod ar gyfer 2026-2030.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Byddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)*** **AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***	Mae'r gwaith wedi mynd rhagddo a bydd Strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth ddiwedd yr haf. Bydd Strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod yn ystod cyfarfod mis Medi 2026.	Cyflwyno'r Strategaeth Gyfathrebu i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod ym mis Medi 2026.

AC2 – Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLl cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)*** **AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)*** **AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***	Roedd lliniaru newid hinsawdd yn ystyriaeth wrth baratoi llawer o'r CDLl presennol, gan gynnwys strategaeth aneddiadau (lle mae tai'n cael eu datblygu), lliniaru llifogydd, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Cyflwynir Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) o gynnydd holl bolisïau'r CDLl i'r Aelodau ac yna Llywodraeth Cymru bob mis Hydref, ac mae hwn wedi dod i'r casgliad bod y polisïau hyn wedi'u cydymffurfio'n fras. Mae'r maes polisi hwn wedi esblygu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bydd hyn yn codi sawl mater pwysig yn adolygiad y CDLl yn 2026.	I'w symud ymlaen ymhellach yn yr adolygiad o'r CDLl.

Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl troed carbon adeiladau'r Awdurdod i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (CRA - i'w fabwysiadu o fis Rhagfyr 2024) ac yn cyd-fynd â thargedau Ffyniant i Bawb Cymru - Ystâd Gyhoeddus Carbon Isel. **Cynnal adolygiad o'r Portffolio Asedau gyda'r Is-grŵp Asedau gydag argymhellion i'w hystyried gan yr Awdurdod llawn, ac unrhyw asedau dros ben i'w hystyried ar gyfer gwaredu/trosglwyddo perchnogaeth.**		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***	Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar Bolisi, Strategaeth a Chynllun Rheoli Asedau ar gyfer 2026-2031, ar gyfer yr Awdurdod. Rhagwelir y bydd y ddogfen yn barod i'w chyflwyno i'r Is-grŵp Rheoli Asedau i'w hystyried ym mis Ebrill, cyn cael ei chyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin 2026.	Parhau gyda'r gwaith yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Adolygu Cynllun Gweithredu Strategaeth Garbon Eryri ac ailgyflwyno i'r Aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddiweddariadau/gwelliannau.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)*** **AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***	Sefydlwyd is-grŵp swyddogion i roi gwell arweiniad i raglen waith y Swyddog Carbon o ran lleihau defnydd carbon yr awdurdod. Yn dilyn yr is-grŵp swyddogion, cytunwyd ar restr o gamau gweithredu ar gyfer y Swyddog Carbon, gan gynnwys olrhain defnydd fflyd lwyd a threialu ffurflenni allyriadau cadwyn gyflenwi Llywodraeth Cymru.	Ymgorffori'r gwaith yn y Cynllun Gweithredu Carbon Isel.

Datblygu Cynllun Gweithredu Carbon Isel ar gyfer Eryri, gan sicrhau bod hyn yn cynnwys ymrwymiad i: Amcanion carbon isel yn y CDLl a Chynllun Eryri, Cynhyrchu Strategaeth Goed a Choetiroedd; a Chynhyrchu Strategaeth Mawndiroedd.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)*** **AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***	Mae Asesiad Risg wedi'i baratoi ar y cyd â rhanddeiliaid a chymunedau am y tro cyntaf. Bydd ymchwil academaidd bellach yn mynd i mewn i'r Asesiad Risg, gan gydweithio â myfyriwr PhD o Brifysgol Bangor. Mae gwaith ar y Strategaeth Addasu ar y gweill. Bydd y Swyddog Carbon yn parhau i roi mewnbwn a hwyluso sgyrsiau ar gyfer adrannau newid hinsawdd CDLl Eryri a Chynllun Eryri.	Gweithredu parhaus.

Sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod wedi ymrwymo i egwyddorion 'Ras i Sero', drwy fabwysiadu rôl arweiniol ac eiriolaeth gref yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd – gan gynnwys ymrwymo i'r 5 prif addewid sydd wedi'u cynnwys yn y 'Ras i Sero'. Gweithio gydag NPUK/NPP ar negeseuon strategol am newid hinsawdd.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***	Ynghyd â'r 2 ffrwd waith blaenorol, mae hyn yn rhan o'r rhaglen waith parhaol ar gyfer y Swyddog Carbon.	Gweithredu parhaus.

AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***		

AC3 – Gwella rheolaeth a dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol i'r Awdurdod.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3)***	Mae gwaith ymgysylltu o fewn yr Awdurdod wedi'i gwblhau a blaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth wedi'u llunio. Bydd y gwaith yn parhau wrth adolygu Cynllun Eryri. Cyflwynir drafft i'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Gorffennaf 2026 ac i'r Grŵp Gwaith Aelodau yn yr Hydref.	Gwaith i'w gwblhau erbyn Hydref 2026.

Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2024/25 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025. Paratoi adroddiad diweddaru i'r Aelodau.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi	Cwblhawyd y prosiect yn llwyddiannus. Bydd swyddogion yn cyflwyno adroddiad cwblhau terfynol gan gynnwys cynllun etifeddiaeth lawn i'r Gweithgor Aelodau yn 2026.	Cwblhawyd.

datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3)***		

Datblygu a chyflawni prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy gyda chyllid y Loteri a ddyfarnwyd.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3)***	Penderfynwyd cyflawni'r prosiect o fewn cwmpas cyllid grant Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Cwblhawyd y Prosiect yn llwyddiannus.	Cwblhawyd.

Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2.***	Mae swyddogion yn mynychu ac yn cyfrannu at strwythur rheoli Llechi Cymru. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ar y cyd yn llwyddiannus gyda Llechi Cymru ym Mhlas Tan y Bwlch, sef darlith "Pedoli'r Ponciau" a gweithdy blaenoriaethu marchnata. Mae swyddogion yn cydweithio â phartneriaid i ddiweddaru'r cynlluniau rheoli safle ar gyfer Adrannau 4 (Chwareli Llechi Gorseddau a Thywysog Cymru, Rheilffordd a Melin -	Gweithredu parhaus.

A6.3)	Cwm Pennant a Chwmystradllyn), ac Adrannau 5 (Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas y llechi' a'r rheilffordd i Borthmadog gan gynnwys Plas Tan y Bwlch).	

Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3)***	Y gwaith yn parhau yn llwyddiannus.	Gweithredu parhaus.

Cynnal a datblygu'r Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a chyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd *hanesyddol* ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2.***	Cyflwynwyd adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ym mis Mehefin 2025. Cynhaliwyd rhaglen o ddigwyddiadau a'i chwblhau'n llwyddiannus drwy gydol haf 2025. Mae arddangosfa dros dro o Gadair yr Eisteddfod 1918 a gerfiwyd gan Eugene Vanfleteren wedi'i gosod ac wedi cael derbyniad da iawn, gan gynnwys sylw rhagorol yn y cyfryngau. Mae swyddogion yn gweithio ar y cais i	Gweithredu parhaus.

A6.3)	adnewyddu achrediad amgueddfa'r Ysgwrn i'w gyflwyno yn ystod Haf 2026.	

Yn dilyn cwblhau'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardaloedd Cadwraeth, cyflawni rhaglen barhaus o hyfforddiant sgiliau traddodiadol a fydd hefyd yn ategu Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3*)**	Mae rhaglen sgiliau traddodiadol ar waith ar gyfer 2026, gan weithio gyda chontractwyr lleol ac yn benodol mewn gwaith calch a ffensio pileri llechi. Mae'r galw'n parhau i fod yn uchel. Mae dwy brentisiaeth yn cael eu cwblhau, gan weithio mewn cydweithrediad â Grŵp Llandrillo Menai.	Gweithredu parhaus.

Cynllunio buddsoddiad newydd yn Ardal Gadwraeth Dolgellau, gan ehangu ar brosiectau blaenorol yn y dref. Cyflwyno cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3*)**	Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi'i dderbyn i gynnal prosiect 18 mis i ddatgarboneiddio Dolgellau Hanesyddol. Mae rheolwr prosiect llawrydd wedi'i benodi. Mae adeiladau wedi'u cadarnhau, grantiau wedi'u cadarnhau ac mae prosiectau bellach yn mynd trwy'r broses gynllunio ac yn tendro am gontractwyr i gwblhau'r gwaith.	Cwblhau erbyn Mawrth 2027.

AC4 – Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)*** **AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)***	Mae swyddogion wedi chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad cynllun Ffermio Bro ac yn parhau i gynorthwyo gyda datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r rhaglen waith ar fin symud ymlaen i Gam 2, sef datblygu'r haenau dewisol a chydweithredol. Mae Blwyddyn 1 wedi arwain at 50 o ffermydd (trwy 13 grŵp) wedi derbyn cyllid Ffermio Bro. Mae cynlluniau ar waith ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 ac mae cyllidebau uwch wedi'u cadarnhau.	Gweithredu parhaus tan 2028.

Yn dilyn ymgynghoriad LIC, cynnal perthynas waith agos â'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus effaith cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru ar rinweddau arbennig Eryri.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)*** **AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)*** **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***	Cynhaliwyd cyfarfod Cyswllt Amaethyddol ym mis Tachwedd 2025 gyda ffermwyr ac Undebau Amaethyddol. Cynhelir cyfarfodydd Undeb rheolaidd i drafod gweithredu Ffermio Bro.	Gwaith parhaus.

AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(*yn unol â Chynllun Eryri A4.2)***		

Paratoi Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Ffermio Bro.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)*** **AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)*** **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(*yn unol â Chynllun Eryri A4.2)***	Mae rhaglen y cynllun yn edrych yn addawol iawn ar hyn o bryd, mae cyllideb lawn wedi'i dyrannu ac mae'r gwaith sylfaenol ar fin dechrau. Mae adroddiad ar allbynnau blwyddyn 1 wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.	Gwaith parhaus tan 2028.

AC5 – Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Datblygu Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: Mae'r Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu drwy Bartneriaeth Natur Eryri. Bydd swyddogion yn cyflwyno cynigion ar gyfer cynnwys Aelodau mewn cynllunio strategol ar gyfer adfer natur ym mis Medi 2026.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllu Eryri A2.2)*** **AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehang gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)***	Cymeradwywyd drafft terfynol Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri (CAN) 2026-2031 yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Ebrill 2026. Mae'r CGAN yn cynnwys trosolwg o fioamrywiaeth a chynefinoedd Eryri, pwysau allweddol sy'n effeithio ar fioamrywiaeth a chynllun gweithredu cyffredinol gan gynnwys ffyrdd y gall grwpiau, sefydliadau, cymunedau ac unigolion helpu i adfer natur. Bwriedir i'r CGAN fod yn ddogfen ddeinamig i sicrhau y gellir gweithredu newidiadau yn ôl yr angen.	Mae hyn wedi cael ei raddio'n wyrdd, gan fod cam cyntaf y gwaith wedi'i gwblhau (mabwysiadu CGC). Fodd bynnag, mae angen gwaith sylweddol pellach i droi'r cynllun gweithredu cyffredinol yn rhaglen benodol o ymyriadau wedi'u hategu gan dystiolaeth data i lywio'r gwaith. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwaith cychwynnol ar nodi a datrys rhai bylchau data. Gwaith parhaus.

Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ganllawiau sydd ar ddod a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***	Parhau i aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru.	Monitro unrhyw gynnydd gan Lywodraeth Cymru.

AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)***		

Unwaith y bydd canllawiau LIC wedi'u cyhoeddi, sicrhau bod Canllawiau Cynllunio Atodol ar fioamrywiaeth yn cael eu cynhyrchu i gefnogi'r broses Rheolaeth Datblygu.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)*** **AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)***	Parhau i aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru.	Monitro unrhyw gynnydd gan Lywodraeth Cymru.

Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Cynllun Eryri a datblygu rhaglenni pellach.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***	Cyflwynwyd adroddiad diweddaru i gyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2025 a mis Mawrth 2026 yn manylu ar yr holl brosiectau yr oedd yr Awdurdod yn eu datblygu, ceisiadau am gyllid grant sy'n aros am y canlyniad a phrosiectau sydd ar fin cychwyn.	Mae hwn wedi cael ei raddio'n wyrdd gan fod nifer o brosiectau cymeradwy wedi'u cwblhau'n llwyddiannus a bod cynnydd da wedi'i wneud gyda phrosiectau tymor hwy eraill. Fodd bynnag, mae angen gwaith sylweddol pellach i gysylltu'r prosiectau hyn â thystiolaeth ddogfenedig sy'n seiliedig ar ddata bod dirywiad bioamrywiaeth yn cael ei fynd i'r afael â hi. Parhau gydag adroddiadau diweddaru ddwywaith y flwyddyn i fynd i'r afael â'r materion hyn.

AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)***		

Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS).		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** **AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)*** **AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)***	Adroddiadau Coetiroedd Hynafol wedi'u cwblhau ar gyfer 16 safle (tua 133Ha). 20 pecyn o waith cyfalaf wedi'u cwblhau mewn 15 safle, gan gynnwys gwella ffiniau, rheoli rhywogaethau ymledol a choedlannau.	Gwaith parhaus.

CYMUNEDAU CYDNERTH	Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Byddwn yn cyflawni hyn drwy:							
CC1 Cynnal a gwella ansawdd bywyd preswylwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC2 Cefnogi pobl ifanc	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC3 Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC4 Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC5 Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

CC1 – Cynnal a gwella ansawdd bywyd preswylwyr

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 4: Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)*** **CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***	Mae'r gwaith yn parhau mewn cydweithrediad rhwng gwasanaethau Cyfathrebu a Wardeiniaid. Ffocws wedi'i roi ar wefan yr Awdurdod a'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo llwybrau hygyrch.	Gweithredu parhaus.

Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr yr Awdurdod ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 4: Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***	Sesiynau garddio wythnosol wedi'u sefydlu yn Yr Ysgwrn a Phlas Tan y Bwlch. Gwaith Ad-dalu Cymunedol parhaus yn yr Ysgwrn, mae'r grŵp yn ymweld dwy neu dair gwaith y mis. Diwrnodau gwirfoddoli corfforaethol misol gyda phrosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri, Hotchief. Mae timau Warden Gwirfoddol De Eryri ac Yr Wyddfa yn dychwelyd am y tymor yn ogystal â chynllun gwirfoddoli Caru Eryri. Mae adroddiad blynyddol a gynhyrchwyd gan y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant yn rhoi mwy o fanylion am yr holl ddigwyddiadau a chyfleoedd.	Cwblhawyd.

Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir, grwpiau agored i niwed a difreintiedig.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 4: Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***	Mae adroddiad blynyddol a gynhyrchwyd gan y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant yn cydnabod cyfleoedd. Cynhaliwyd symposiwm ym mis Ionawr 2026 i ddechrau nodi a diffinio'r grwpiau targed yn well, er mwyn drafftio polisïau newydd ar gyfer fersiwn 2026 o Gynllun Eryri.	Gweithred parhaus.

Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
6. Nid pwrpas y system APD arfaethedig yw cyflwyno gwerthusiad perfformiad ffurfiol yn yr ystyr draddodiadol. Yn hytrach, bwriad yw darparu cyfle cefnogol a strwythuredig i Aelodau fyfyrio ar eu cyfraniad, trafod eu profiadau yn y rôl, a nodi unrhyw ddatblygiad neu gefnogaeth a fyddai'n eu helpu i barhau i fod yn effeithiol wrth wasanaethu'r Awdurdod.

7. Pam cyflwyno system APD?

8. Mae aelodau Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol yn ymgymryd â rôl lywodraethu sylweddol a chymhleth. Maent yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol yr Awdurdod, goruchwylio perfformiad a risg, gwneud penderfyniadau cynllunio a pholisi pwysig, a chynrychioli buddiannau cymunedau, ymwelwyr a'r amgylchedd naturiol.

9. Fodd bynnag, nododd adroddiad Archwilio Cymru a'r gwaith adolygu y cyfeirir ato uchod:

    - Nid yw disgwyliadau a roddir ar Aelodau bob amser wedi'u nodi'n glir neu'n gyson;
    - Mae'r trefniadau presennol ar gyfer myfyrio ar gyfraniad yr Aelodau yn amrywio rhwng Awdurdodau;
    - Nid yw cyfleoedd i nodi anghenion hyfforddi a datblygu bob amser yn systematig; ac
    - Ar hyn o bryd nid oes fframwaith cyson ar gyfer cefnogi Aelodau i fyfyrio ar a datblygu eu cyfraniad i'r Awdurdod.

10. Y gobaith yw y bydd cyflwyno system APD gyson yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn a chryfhau trefniadau llywodraethu ar draws Parciau Cenedlaethol Cymru. Mae rhai enghreifftiau o gyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno rhai elfennau o system o'r fath, ond nid oes unrhyw un sydd wedi gwneud hynny'n gynhwysfawr nac yn systematig.

11. Camau nesaf

12. Bwriedir i'r system hon fod yn adeiladol, yn gefnogol ac yn flaengar, gan ganolbwyntio ar helpu Aelodau i barhau i wneud y cyfraniad cryfaf posibl at waith yr Awdurdod.

13. Os caiff ei chymeradwyo, gellir defnyddio'r system APD ar unwaith. Er fy mod yn ymwybodol bod etholiadau lleol ym mis Mai 2027 a allai gael effaith ar Gynghorwyr ar y Bwrdd y flwyddyn nesaf, ystyrir y gallai'r broses APD ddechrau cyn yr etholiadau. Byddwn yn gweithio gyda Chadeirydd yr Awdurdod i baratoi amserlen i ddechrau'r broses eleni.

14. Argymhelliad

I'r Aelodau:

a. gymeradwyo'r system APD a gynhwysir yn Atodiad 1.

b. Fynd ati i rannu hyn gyda'r 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol arall i alluogi cysondeb mewn cymhwyso ledled Cymru; a

c. Dechrau'r broses APD eleni – gyda'r union amserlen i'w phenderfynu mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Awdurdod

Cyswllt · Contact Eifion Jones
Ffôn ·Telephone 01766 772226
Ein cyf · Our ref
Eich cyf ·Your ref
Dyddiad · Date 1 Ionawr 2000
e-bost · e-mail eifion.jones@eryri.llyw.cymru

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
lle i enaid gael llonydd
Eryri NATIONAL PARK
one of Britain's breathing spaces

Preifat a Chyfrinachol

Y Cyng. Ann Hysbys
123 Stryd Fawr
Cardiff
CF10 1AA

Annwyl Gynghorydd Hysbys,

Penodiad i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Yn dilyn y broses enwebu ddiweddar, mae'n bleser gennyf dderbyn eich penodiad gan Gyngor XXXX i wasanaethu fel Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr "Awdurdod") am y cyfnod [1 XXXX 20XX i 31 XXXX 20XX], yn unol â Deddf yr Amgylchedd 1995 a'r Deddfau Llywodraeth Leol (Cymru).

Mae eich penodiad yn adlewyrchu eich sgiliau a'r cyfraniad y disgwylir i chi ei wneud at lywodraethu ac arweinyddiaeth effeithiol yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, hoffwn eich llongyfarch ac edrychaf ymlaen at eich gweld yn cyfrannu'n weithgar at ddibenion a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol.

1. Natur y Penodiad

Gwneir y penodiad hwn gan Gyngor XXXX fel yr awdurdod enwebu. Nid yw'n gontract cyflogaeth ac nid yw'n creu unrhyw berthynas gyflogi rhyngoch chi a'r Cyngor nac ychwaith rhyngoch chi ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Bydd eich cyfnod yn y swydd yn para o [dyddiad cychwyn] tan [dyddiad gorffen], onid yw'n cael ei derfynu'n gynharach yn unol â deddfwriaeth neu drefniadau'r awdurdod lleol.

2. Taliadau Cydnabyddiaeth a Threuliau

Fel Aelod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mae gennych hawl i gael y lwfans safonol fel y'i pennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Ar hyn o bryd, £5,963 yw'r taliad cydnabyddiaeth blynyddol, yn amodol ar adolygiad cyfnodol gan y Comisiwn.

Gallwch hefyd hawlio treuliau teithio a chynhaliaeth sy'n cael eu hysgwyddo wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau'n briodol, yn unol â'r Cynllun Lwfansau Aelodau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod.

3. Y Fframwaith Disgwyliadau

Mae Fframwaith Disgwyliadau sydd wedi cael ei gymeradwyo ar y cyd gan y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru wedi ei amgáu. Mae'n nodi'r safonau, ymddygiadau ac ymrwymiadau a ddisgwylir gan holl Aelodau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ni waeth sut cawsant eu penodi.

Disgwylir yn benodol i'r Aelodau:

- Gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol;
- Dangos ymrwymiad i ddibenion y Parc Cenedlaethol ac egwyddorion llywodraethu da;
- Mynychu o leiaf 75% o gyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau;
- Ymrwymo o leiaf 44 diwrnod y flwyddyn i ddyletswyddau'r Awdurdod;
- Cymryd rhan lawn mewn hyfforddiant, datblygiad a phroses flynyddol yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad; a
- Chydymffurfio â Chod Ymddygiad a safonau moesegol yr Aelodau

Byddem yn ddiolchgar pe gallech lofnodi a dychwelyd y ffurflen dderbyn amgaeëdig yn cadarnhau eich bod wedi darllen a deall y gofynion hyn a'ch bod yn gallu eu bodloni.

4. Cynefino a Datblygu

Byddwch yn cael eich gwahodd i Sesiwn Anwytho a fydd yn cael ei darparu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Bydd yn darparu gwybodaeth hanfodol am y rôl, y dyletswyddau statudol, y fframwaith llywodraethu, a'r blaenoriaethau strategol ar hyn o bryd. Mae hyfforddiant a datblygiad parhaus yn rhan annatod o'r rôl, a bydd disgwyl i chi gymryd rhan mewn sesiynau perthnasol gydol eich tymor. Un elfen bwysig yw proses flynyddol yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad, y bydd disgwyl i chi gymryd rhan ynddi i gyfrannu at welliannau parhaus yng ngwaith llywodraethu'r Parc Cenedlaethol.

5. Safonau Moesegol ac Ymddygiad

Rhaid i bob Aelod gydymffurfio â Chodau Ymddygiad yr Aelodau ac Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth). Disgwylir i chi gynnal safonau uchel o ymddygiad a phroffesiynoldeb bob amser, mewn cyfarfodydd ffurfiol a'r tu hwnt iddynt.

6. Adrodd ac Atebolrwydd

Bob blwyddyn, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn darparu Adroddiad byr ar Gyfraniad yr Aelod i Gyngor XXXX yn crynhoi presenoldeb, ymgysylltiad a chyfranogiad mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu. Mae hyn yn hyrwyddo tryloywder ac yn sicrhau bod cyfraniadau Aelodau'n cael eu cydnabod a'u cefnogi'n briodol.

7. Cyfrinachedd a Datganiad Cyhoeddus

Dylech drin yr ohebiaeth hon fel un gwbl gyfrinachol nes i'r penodiad gael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi datganiad cyhoeddus ar ôl i'r penodiad gael ei dderbyn yn ffurfiol.

Croeso a'r Camau Nesaf

Ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, rydym yn eich llongyfarch ar eich penodiad ac yn diolch i chi am eich parodrwydd i wasanaethu.

Bydd eich arweinyddiaeth, eich dealltwriaeth a'ch gwybodaeth leol yn amhrisiadwy o ran datblygu gwaith yr Awdurdod i ddiogelu a gwella'r Parc Cenedlaethol er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

A wnewch chi felly, os gwelwch yn dda, lofnodi'r Ffurflen Dderbyn a'r Datganiad amgaeedig a'u dychwelyd at Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd Cyngor XXXX ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn [cyfeiriadau ebost].

Llofnod:

_____

Cadeirydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Fframwaith Disgwyliadau

Dyma rai o'r cyfrifoldebau, ymddygiadau a chyfraniadau a ddisgwylir gan holl Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, boed iddynt gael eu penodi gan Lywodraeth Cymru neu gan Awdurdod Lleol.

Maen Prawf	Disgwyliadau
Arweinyddiaeth Strategol	• Cyfrannu'n weithredol at y broses o ddatblygu cynlluniau strategol, polisïau, blaenoriaethau a chyllideb yr Awdurdod. • Cymryd rhan mewn gweithgorau a phwyllgorau strategol yn ôl yr angen. • Gwneud eich ymrwymiad i'r Awdurdod yn weladwy i'r cyhoedd drwy gymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau mewnol ac allanol. • Dangos pwyslais ar wella ac arloesi drwy gyfrannu syniadau i wella gwaith yr Awdurdod a'i drefn lywodraethu. • Eiriol yn gyhoeddus dros y Parc Cenedlaethol, gan hyrwyddo ei uchelgeisiau, ei strategaeth, ei gyflawniadau a'i werthoedd.
Llywodraethu a Gwneud Penderfyniadau	• Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau statudol sy'n berthnasol i Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, a chadw at egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan. • Chwarae rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau drwy gyfrannu'n ystyriol at drafodaethau a dadleuon yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a phwyllgorau. • Sicrhau bod yr holl ddogfennau angenrheidiol yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn brydlon. • Dangos dealltwriaeth o egwyddorion llywodraethu a phrosesau gwneud penderfyniadau a sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf amdanynt. • Defnyddio prosesau a systemau sefydledig yr Awdurdod yn ôl yr angen. • Sicrhau tryloywder, uniondeb ac ymddygiad moesegol ym mhob gweithred swyddogol. • Cydymffurfio â Chod Ymddygiad a safonau moesegol perthnasol yr Awdurdod.

Goruchwyliaeth a Sicrwydd	• Rhoi cefnogaeth a her adeiladol i uwch reolwyr wrth iddynt gyflawni blaenoriaethau'r Awdurdod. • Mynd ati i geisio sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu'n gweithredu'n effeithiol a bod gweithgareddau'r Awdurdod yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol. • Mynnu'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad a risgiau'r Awdurdod yn rheolaidd. • Cymryd rhan mewn adolygiadau gwasanaeth a pherfformiad gan gynnwys craffu ar bolisïau, cynlluniau a chyllidebau a'u heffeithiolrwydd o ran cyflawni amcanion strategol. • Cynnal adolygiad a gwaith monitro manwl ar berfformiad a risgiau os yw'r rôl benodol yn gofyn am hynny.
Effeithiolrwydd ac Ymddygiad	• Mynychu o leiaf 75% o gyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau. • Gwneud ymrwymiad amser blynyddol o 44 diwrnod o leiaf i waith yr Awdurdod. • Paratoi'n dda ar gyfer cyfarfodydd drwy adolygu'r papurau'n drylwyr ymhell ymlaen llaw a gofyn am eglurhad pan fo angen. • Cyfrannu'n adeiladol at drafodaethau pwyllgorau a gwneud penderfyniadau ar y cyd. • Datblygu a chynnal perthynas waith dda ac effeithiol gyda Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a swyddogion perthnasol y Parc Cenedlaethol. • Cefnogi datblygiad diwylliant sefydliadol cadarnhaol o fewn yr Awdurdod. • Mentora neu gefnogi Aelodau newydd lle bo hynny'n briodol. • Mynd ati'n weithredol i gefnogi'r penderfyniadau mae'r Awdurdod ar y cyd wedi cytuno arnynt, a'r canlyniadau, ni waeth beth yw eich teimladau personol. • Datblygu a chynnal gwybodaeth ymarferol am weithrediadau a gweithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. • Mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth yn nhrefn lywodraethu'r Awdurdod a thrwy ei wasanaethau a'i weithgareddau. • Bod yn rhagweithiol o ran cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r sector, drwy wylio'r gorwel a gweithredu gyda rhagofal.

Ymgysylltu a Phartneriaeth	• Ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid, sefydliadau partner a chymunedau lleol drwy'r sianeli priodol a chefnogi'r safbwynt y cytunodd yr Awdurdod arno. • Cymryd rhan mewn is-bwyllgorau, grwpiau gorchwyl a gorffen, a gweithgareddau ymgysylltu eraill y tu hwnt i gyfarfodydd ffurfiol. • Gweithredu fel cyfrwng dwy ffordd rhwng y corff a'ch penododd a'r Awdurdod gan gyflwyno gwybodaeth berthnasol a chyfathrebu'n ôl ar ran yr Awdurdod. • *Ymgysylltu ag aelodau o gymunedau lleol gan drin a thrafod eu gofynion a'u ceisiadau a, lle bo'n berthnasol, cyflwyno'r wybodaeth honno i'r Awdurdod.*
Datblygiad Personol	• Ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi a datblygu gorfodol yn ôl yr angen. • Cymryd rhan ym mhroses flynyddol yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad. • Adfyfyrio ar eich perfformiad unigol a nodi meysydd i'w gwella. • Chwilio am gyfleoedd datblygu ychwanegol i wella effeithiolrwydd, a chymryd rhan ynddynt.

Nodiadau Ychwanegol

- **Dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol:** Rhaid i'r Aelodau weithredu yn unol â deddfwriaeth berthnasol, dyletswyddau statudol, a fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, gan sicrhau bod yr holl ddogfennau angenrheidiol yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn brydlon.
- **Cyfraniadau disgwyliedig y tu hwnt i gyfarfodydd ffurfiol:** Dylai'r Aelodau neilltuo amser ar gyfer paratoi, darllen adroddiadau, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ymweld â safleoedd, a chymryd rhan mewn gweithgorau neu ddigwyddiadau cymunedol.
- **Ymrwymiad amser:** O leiaf 44 diwrnod y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfodydd ffurfiol, paratoi a gweithgareddau ymgysylltu.
- **Lefelau presenoldeb:** Disgwylir i'r Aelodau fod yn bresennol yn o leiaf 75% o gyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgorau.
- **Gofynion hyfforddi a datblygu:** Cyfranogiad gorfodol mewn hyfforddiant cynefino, llywodraethu a moeseg, hyfforddiant ar gyfer pwyllgorau penodol, a'r Adolygiad Perfformiad a Datblygiad blynyddol.
- **Safonau moesegol ac ymddygiad:** Rhaid i'r Aelodau weithredu yn unol ag Egwyddorion Nolan, cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, gweithredu'n ddidwyll, cadw cyfrinachedd, ac osgoi, datgan a/neu liniaru unrhyw wrthdaro buddiannau drwy ymgynghori â'r Swyddog Monitro.

Adolygiad Perfformiad a Datblygiad Aelodau

Cam 1 – Cofnodi presenoldeb a chyfraniad (parhaus)

Cam Gweithredu:	Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau bod holl gyfraniadau'r Aelodau'n cael eu cofnodi gydol y flwyddyn. Bydd rhannau o ffurflen yr adolygiad yn cael eu llenwi ymlaen llaw ac yna caiff ei dosbarthu i'r holl Aelodau (mis Mawrth).
Allbwn:	Lansio ffurflen yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad blynyddol; briffio'r Aelodau ar y broses a'r disgwyliadau.

Cam 2 – Hunanasesiad yr Aelodau (mis Mawrth)

Cam Gweithredu:	Bydd pob Aelod yn cwblhau hunanasesiad sy'n myfyrio ar gyfraniad, presenoldeb, ymgysylltiad a'r hyn a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn a fu.
Cyfrifoldeb:	Aelodau unigol
Allbwn:	Yr hunanasesiad wedi'i gwblhau yn cael ei ddychwelyd at yr adolygydd (Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd neu Gadeirydd Pwyllgor).

Cam 3 – Paratoi ar gyfer cyfarfod yr adolygiad (mis Ebrill–Mai)

Cam Gweithredu:	Bydd y Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd neu'r Cadeirydd Pwyllgor perthnasol yn adolygu hunanasesiad yr Aelod a'r data presenoldeb/ hyfforddiant, gan nodi'r pwyntiau allweddol i baratoi ar gyfer cyfarfod yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad. Byddai'n arfer da cofnodi eich safbwyntiau ar ffurflen yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad a'i rhannu â'r Aelod cyn y cyfarfod.
Cyfrifoldeb:	Y Dirprwy Gadeirydd ar gyfer y Cadeirydd; y Cadeirydd ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau; Cadeiryddion Dirprwyedig ar gyfer yr Aelodau eraill.

Cam 4 – Cyfarfod Trafod yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad (mis Mai–Mehefin)

Cam Gweithredu:	Bydd yr Adolygydd a'r Aelod yn cynnal trafodaeth un-i-un ar berfformiad, cyfraniadau, cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.
Cyfrifoldeb:	Y Dirprwy Gadeirydd ar gyfer y Cadeirydd; y Cadeirydd ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau; Cadeiryddion Dirprwyedig ar gyfer yr Aelodau eraill.
Allbwn:	Ffurflen yr adolygiad yn cael ei diweddaru, a'r ddwy ochr yn cytuno arni ac yn ei llofnodi.

Cam 5 – Cynllunio Datblygiad (mis Mehefin–Gorffennaf)

Cam Gweithredu:	Bydd y gweithgareddau hyfforddi, mentora neu ddatblygu y cytunwyd arnynt yn cael eu cofnodi a'u hamserlennu.
Cyfrifoldeb:	Yr Aelod, gyda chefnogaeth y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd i gael mynediad at gyfleoedd datblygu.
Allbwn:	Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer yr Aelod yn cael ei greu neu ei ddiweddaru.

Cam 6 – Adrodd (mis Gorffennaf)

Cam Gweithredu:	Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn casglu data dienw ar gyfraddau cwblhau, presenoldeb a themâu datblygu i'w adolygu gan y Pwyllgor Perfformiad neu'r Awdurdod. Bydd y Cadeirydd/Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn cwblhau crynodeb o gyfraniad yr Aelod ar gyfer y corff a'u penododd.
Allbwn:	Adroddiad Pwyllgor. Llythyr yn crynhoi cyfraniad yr Aelod.

Ffurflen Enghreifftiol yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad

Pwrpas yr hunanasesiad yw helpu'r Aelodau i adfyfyrio ar eu cyfraniadau yn ystod y flwyddyn, nodi cryfderau, a thynnu sylw at feysydd lle gallai fod angen cefnogaeth neu ddatblygiad. Mae'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Fframwaith Disgwyliadau a dyma fewnbwn yr Aelod i drafodaeth flynyddol yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad.

Enw'r Aelod	***Ann Hysbys***
Cyfnod yr Adolygiad	***25 - 26***
Cadeirydd / Adolygydd	***Mr Mostyn***
Dyddiad Cyfarfod yr Adolygiad	

Rhan A: Presenoldeb

I raddau helaeth, bydd yr adran hon yn cael ei llenwi ymlaen llaw gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd gan ddefnyddio data presenoldeb, ond fe all yr Aelod ychwanegu unrhyw bresenoldeb mewn grwpiau, cyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n berthnasol yn eu barn nhw.

Pwyllgorau a Gweithgor Ffurfiol: (wedi'i lenwi ymlaen llaw)

Pwyllgor	Cyfanswm nifer y cyfarfodydd y gellid wedi eu mynychu	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	%
Awdurdod y Parc Cenedlaethol	*5*	*4*	*80*
Pwyllgor Cynllunio a Mynediad	*9*	*7*	*78*
Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau	*3*	*3*	*100*
Pwyllgor Safonau	*3*	*Ddim yn berthnasol*	*D/P*
Gweithgor Aelodau	*9*	*7*	*78*

Gweithdai/sesiynau briffio/hyfforddiant gorfodol:

Digwyddiadau	Cyfanswm nifer y digwyddiadau y gellid wedi eu mynychu	Nifer y digwyddiadau a fynychwyd	%
Diwrnod Datblygu Aelodau	*2*	*2*	*100*
Cynadleddau	*1*	*1*	*100*
Sesiwn Anwytho Aelodau Newydd			
Hyfforddiant ar Gynllunio			

Paneli / Byrddau / Grwpiau ayyb:

Bwrdd ayyb	Cyfanswm nifer y cyfarfodydd y gellid wedi eu mynychu	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	%
Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch			
Is-Grŵp Asedau			

Gweithdai/sesiynau briffio/hyfforddiant dewisol (i'w gwblhau gan yr Aelod)

Digwyddiadau a fynychwyd
Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Lansiad Llyfr

Rhan B: Hunanasesiad yr Aelod

Disgrifiwch eich cyfraniad yng nghyd-destun Fframwaith Disgwyliadau'r Aelodau a chan gyfeirio at unrhyw amcanion penodol. Ystyriwch eich profiad/cyflawniadau, eich cryfderau, yn ogystal â meysydd yr hoffech eu datblygu.

Cyflawniadau ac Anghenion Datblygu:

Meini Prawf	Myfyrio ar y cyfraniad	Anghenion Datblygu
Arweinyddiaeth Strategol *(Enghreifftiau: cyfrannu at strategaethau, meddwl yn y tymor hir, gweithgorau, themâu arweiniol)*	• *Sut ydw i wedi cyfrannu at lywio cyfeiriad strategol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, neu'r ddealltwriaeth o'r cyfeiriad hwnnw?* • *Ydw i wedi cymryd rhan mewn unrhyw waith datblygu polisi neu waith gorchwyl a gorffen?* • *Ydw i wedi arddangos ymddygiadau arwain?* • *Ydw i wedi helpu'r Awdurdod i feddwl yn y tymor hir neu i atal problemau yn y dyfodol?*	
Llywodraethu a Gwneud Penderfyniadau *(Enghreifftiau: paratoi ar gyfer cyfarfodydd, ansawdd cyfraniadau, deall y fframwaith llywodraethu)*	• *Pa mor dda ydw i wedi paratoi ar gyfer cyfarfodydd?* • *Ydw i wedi gofyn cwestiynau adeiladol sy'n seiliedig ar dystiolaeth?* • *Ydw i wedi defnyddio egwyddorion llywodraethu da?* • *Ydw i wedi cadw at y Cod Ymddygiad ac wedi bod yn esiampl o ymddygiad da?*	
Goruchwyliaeth a Sicrwydd *(Enghreifftiau: craffu, goruchwyliaeth ariannol, darllen adroddiadau, deall y risgiau)*	• *Ydw i wedi herio perfformiad neu ddarpariaeth mewn ffordd adeiladol?* • *Ydw i wedi darllen a deall y dogfennau sicrwydd allweddol?* • *Ydw i wedi gofyn cwestiynau sy'n gwella sicrwydd?* • *Ydw i wedi cyfrannu at drafodaethau am werth am arian?*	
Effeithiolrwydd ac Ymddygiad *(Enghreifftiau: presenoldeb, paratoi, ymddygiadau, gwaith tîm)*	• *Ydw i wedi bodloni'r disgwyliadau o ran presenoldeb ac ymrwymiad amser?* • *Ydw i wedi cyfrannu'n gadarnhaol mewn cyfarfodydd?* • *Ydw i wedi arddangos ymddygiadau cydweithredol?* • *Sut ydw i wedi cyfrannu at ddiwylliant parchus ac adeiladol?*	

Ymgysylltu a Phartneriaeth *(Enghreifftiau: digwyddiadau i/gyda randdeiliaid, rôl gymunedol, cyfarfodydd allanol)*	• *Pa mor amlwg ydw i wedi bod fel Aelod gyda chymunedau neu bartneriaid?* • *Ydw i wedi gweithredu fel cyfrwng defnyddiol, y naill ffordd a'r llall, rhwng Awdurdod y Parc a'r awdurdod wnaeth fy mhenodi?* • *Ydw i wedi cryfhau'r berthynas â rhanddeiliaid?* • *Ydw i wedi helpu i wella dealltwriaeth neu hyder y cyhoedd yn yr Awdurdod?*	
Datblygiad personol *(Enghreifftiau: cyflawni hyfforddiant, datblygu sgiliau, anghenion yn y dyfodol)*	• *Pa hyfforddiant ydw i wedi'i gwblhau a pha wahaniaeth mae wedi'i wneud?* • *Pa sgiliau neu wybodaeth ydw i wedi'u datblygu eleni?* • *Pa sgiliau fydd eu hangen arnaf y flwyddyn nesaf i fod yn fwy effeithiol?* • *Oes rhwystrau sydd wedi llesteirio fy natblygiad?*	

Adborth gan yr Aelod:

Rhowch eich safbwyntiau ar effeithiolrwydd Pwyllgorau ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac unrhyw welliannau neu newidiadau y gall Awdurdod y Parc Cenedlaethol eu gwneud, yn eich barn chi, o ran darparu neu lywodraethu. Amlinellwch hefyd sut rydych chi'n meddwl y gellid cyflawni'r rhain.

Gwelliannau neu newidiadau yr hoffech eu gweld a sut gellir eu cyflawni.
• *Beth sy'n gweithio'n dda o ran y ffordd mae pwyllgorau ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithredu?* • *Oes gan yr Awdurdod a'r pwyllgorau weledigaeth a strategaethau clir ar gyfer yr Awdurdod?* • *Ydi'r pwyllgorau'n canolbwyntio ar y materion iawn?* • *Ydi'r pwyllgorau'n dangos goruchwyliaeth gref a chraffu effeithiol?* • *Ydi fframwaith sicrwydd yr Awdurdod (risg, archwilio, perfformiad) yn ddigon cryf?* • *Ydi'r papurau'n glir, yn amserol ac yn cynnwys digon o wybodaeth i allu gwneud penderfyniadau da?* • *Pa welliannau fyddai'n helpu trefn lywodraethu Awdurdod y Parc Cenedlaethol i fod yn fwy effeithiol?*

Rhan C: Adborth y Cadeirydd/Adolygydd cyn y Drafodaeth

Y Cadeirydd/adolygydd i roi unrhyw sylwadau cychwynnol yma a/neu dynnu sylw at unrhyw bynciau yr hoffent eu trafod yng nghyfarfod yr Adolygiad.

Rhan D: Crynodeb o Drafodaeth yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad

Y Prif Themâu a Drafodwyd	
Anghenion Datblygu a Chefnogi a Nodwyd	
Gwaith Dilynol y Cytunwyd Arno	

Rhan E: Amcanion Unigol Penodol y Cytunwyd Arnynt ar gyfer 2026–27

Maen Prawf	Amcan
Arweinyddiaeth Strategol	
Llywodraethu a Gwneud Penderfyniadau	
Goruchwyliaeth a Sicrwydd	
Effeithiolrwydd ac Ymddygiad	
Ymgysylltu a Phartneriaeth	
Datblygiad personol	

Rhan F: Crynodeb y Cadeirydd/Adolygydd (ar ôl y Drafodaeth)

Crynodeb Myfyriol o'r Adolygiad Perfformiad a Datblygiad:

Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: __ / __ / __

Llofnodion

Aelod: _____ Dyddiad: __/__/__

Cadeirydd/Adolygydd: _____ Dyddiad: __/__/__

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd: _____ Dyddiad: __/__/__

Ffurflen yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad

Enw'r Aelod	
Cyfnod yr Adolygiad	
Cadeirydd / Adolygydd	
Dyddiad Cyfarfod yr Adolygiad	

Rhan A: Presenoldeb

Pwyllgorau a Gweithgor Ffurfiol: **(wedi'i lenwi ymlaen llaw)**

Pwyllgor	**Cyfanswm nifer y cyfarfodydd y gellid wedi eu mynychu**	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**	**%**
Awdurdod y Parc Cenedlaethol			
Pwyllgor Cynllunio a Mynediad			
Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau			
Pwyllgor Safonau			
Gweithgor Aelodau			

Gweithdai/sesiynau briffio/hyfforddiant gorfodol:

Digwyddiadau	**Cyfanswm nifer y digwyddiadau y gellid wedi eu mynychu**	**Nifer y digwyddiadau a fynychwyd**	**%**
Diwrnod Datblygu Aelodau			
Cynadleddau			
Hyfforddiant arall			

Paneli / Byrddau / Grwpiau ayyb:

Bwrdd ayyb	Cyfanswm nifer y cyfarfodydd y gellid wedi eu mynychu	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	%

Gweithdai/sesiynau briffio/hyfforddiant dewisol (i'w gwblhau gan yr Aelod)

Digwyddiadau a fynychwyd

Rhan B: Hunanasesiad yr Aelod

Disgrifiwch eich cyfraniad yng nghyd-destun Fframwaith Disgwyliadau'r Aelodau a chan gyfeirio at unrhyw amcanion penodol. Ystyriwch eich profiad/cyflawniadau, eich cryfderau, yn ogystal â meysydd yr hoffech eu datblygu.

Cyflawniadau ac Anghenion Datblygu:

Meini Prawf	Myfyrio ar y cyfraniad	Anghenion Datblygu
Arweinyddiaeth Strategol		
Llywodraethu a Gwneud Penderfyniadau		
Goruchwyliaeth a Sicrwydd		
Effeithiolrwydd ac Ymddygiad		

Ymgysylltu a Phartneriaeth		
Datblygiad personol		

Adborth gan yr Aelod:

Rhowch eich safbwyntiau ar effeithiolrwydd Pwyllgorau ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac unrhyw welliannau neu newidiadau y gall Awdurdod y Parc Cenedlaethol eu gwneud, yn eich barn chi, o ran darparu neu lywodraethu. Amlinellwch hefyd sut rydych chi'n meddwl y gellid cyflawni'r rhain.

Gwelliannau neu newidiadau yr hoffech eu gweld a sut gellir eu cyflawni.

Rhan C: Adborth y Cadeirydd/Adolygydd cyn y Drafodaeth

Y Cadeirydd/adolygydd i roi unrhyw sylwadau cychwynnol yma a/neu dynnu sylw at unrhyw bynciau yr hoffent eu trafod yng nghyfarfod yr Adolygiad.

Rhan D: Crynodeb o Drafodaeth yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad

Y Prif Themâu a Drafodwyd	
Anghenion Datblygu a Chefnogi a Nodwyd	
Gwaith Dilynol y Cytunwyd Arno	

Rhan E: Amcanion Unigol Penodol y Cytunwyd Arnynt ar gyfer 2026–27

Maen Prawf	Amcan
Arweinyddiaeth Strategol	
Llywodraethu a Gwneud Penderfyniadau	
Goruchwyliaeth a Sicrwydd	
Effeithiolrwydd ac Ymddygiad	
Ymgysylltu a Phartneriaeth	
Datblygiad personol	

Rhan F: Crynodeb y Cadeirydd/Adolygydd (ar ôl y Drafodaeth)

Crynodeb Myfyriol o'r Adolygiad Perfformiad a Datblygiad:

Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: __ / __ / __

Llofnodion

Aelod: _____ Dyddiad: __/__/__

Cadeirydd/Adolygydd: _____ Dyddiad: __/__/__

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd: _____ Dyddiad: __/__/__

Crynodeb o Gyfraniad Blynyddol Aelod a benodwyd gan Gyngor Gwynedd

At: Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Gwynedd

Oddi wrth: Cadeirydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dyddiad:

1. Manylion yr Aelod

Enw'r Aelod	
Corff Penodi	
Cyfnod yr Adolygiad	
Dyddiad yr Adolygiad	
Enw a Rôl yr Adolygydd	

2. Presenoldeb a Chymryd Rhan

Maes	Presenoldeb / Cyfraniad
Cyfarfodydd yr Awdurdod	*100%*
Pwyllgor Cynllunio a Mynediad	*80%*
Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau	*100%*
Gweithgor Aelodau	*80%*
Paneli / Byrddau / Grwpiau eraill	
Gweithdai / sesiynau hyfforddiant	
Digwyddiadau eraill	*[Crynodeb o ddigwyddiadau yr aethpwyd iddynt neu gynrychiolaeth allanol]*

4. Crynodeb y Cadeirydd/Adolygydd

5. Gwaith Dilynol / Cefnogaeth sydd ei Hangen

Llofnod: _____

_____, Cadeirydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dyddiad: _____

Cynnal Adolygiadau Perfformiad a Datblygiad Aelodau Canllawiau i Adolygwyr

Dyma'r bobl fydd yn adolygwyr fel arfer:

- Y **Cadeirydd** (bydd yn adolygu Cadeiryddion Pwyllgorau)
- Y **Dirprwy Gadeirydd** (bydd yn adolygu'r Cadeirydd)
- **Cadeiryddion Dirprwyedig** yn adolygu'r Aelodau eraill.

Rôl yr adolygydd (y Cadeirydd neu'r adolygydd dirprwyedig) yw hwyluso **trafodaeth gefnogol sy'n edrych tua'r dyfodol** gyda'r Aelod.

Y nod yw annog adfyfyrio, cydnabod cyfraniadau, a nodi cyfleoedd i ddatblygu.

Awgrymiadau yw'r cwestiynau, **nid sgript i'w dilyn air am air**

PARATOI AR GYFER YR ADOLYGIAD PERFFORMIAD A DATBLYGIAD

Cyn y cyfarfod:

1. Adolygwch **hunanasesiad** yr Aelod.
2. Ystyriwch **gofnod presenoldeb a hyfforddiant** yr Aelod.
3. Adfyfyriwch ar eu cyfraniad yn ystod y flwyddyn.
4. Lle bo'n briodol, ystyriwch unrhyw adborth a gafwyd gan:
    - Aelodau eraill
    - swyddogion
    - rhanddeiliaid.

Mae'n arfer da cofnodi eich myfyrdodau ar ffurflen yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad a rhannu'r sylwadau hyn â'r Aelod cyn y cyfarfod lle bo modd.

NAWS Y DRAFODAETH

Dylai'r cyfarfod fod yn **sgwrs adeiladol a chytbwys.** Dylai adolygwyr geisio sicrhau bod y sgwrs:

- yn **gefnogol ac yn adeiladol**
- yn cydnabod **cyfraniadau cadarnhaol**
- yn canolbwyntio ar **ddatblygu a gwella**
- yn annog **adyfyrio gonest**

Dylai'r drafodaeth **edrych tua'r dyfodol** bob amser, gan nodi sut gall cyfraniad yr Aelod barhau i ddatblygu.

Y PRIF FEYSYDD I'W TRAFOD

(A) CYFRANIAD A CHYFLAWNIADAU

Gallai'r rhain gynnwys:

- cymryd rhan mewn cyfarfodydd neu weithgorau
- cyfraniadau at drafodaethau polisi neu strategaeth
- ymgysylltu â rhanddeiliaid
- cefnogi gwaith pwyllgorau.

Dyma rai *cwestiynau agoriadol* defnyddiol:

- Sut brofiad fu'r flwyddyn ddiwethaf yn eich rôl fel Aelod?
- Pa agweddau ar y rôl sydd wedi rhoi'r boddhad mwyaf i chi?
- Beth fu'r prif heriau?

I archwilio *cyfraniad cyffredinol* yr Aelod:

- Pa gyfraniadau ydych chi fwyaf balch ohonynt dros y flwyddyn ddiwethaf?
- Oes yna drafodaethau neu benderfyniadau penodol lle rydych chi'n teimlo eich bod wedi gwneud cyfraniad cryf?
- Oes yna feysydd y byddech chi'n hoffi cyfrannu'n fwy atynt? Os felly, pa rai?

Dyma rai cwestiynau enghreifftiol *yn benodol ar y chwe maes allweddol* y disgwylir i'r Aelodau gyfrannu atynt:

1. Arweinyddiaeth Strategol

- Sut ydych chi wedi cyfrannu at lywio cyfeiriad strategol yr Awdurdod, neu'r ddealltwriaeth o'r cyfeiriad hwnnw?
- Ydych chi wedi cael cyfleoedd i gyfrannu at strategaeth, datblygu polisïau neu feddwl yn y tymor hwy?
- Ydych chi wedi cymryd rhan mewn gweithgorau neu waith gorchwyl a gorffen? Beth oedd eich rôl?
- Ydych chi wedi crybwyll neu archwilio risgiau neu gyfleoedd tymor hwy (e.e. pwysau yn y dyfodol, cynaliadwyedd, capasiti)?
- Ym mha ffyrdd ydych chi wedi dangos ymddygiad arwain (e.e. cefnogi cydweithwyr, egluro materion, cymryd yr awenau)?
- Oes yna feysydd lle byddech chi'n hoffi cyfrannu'n fwy at y trafodaethau strategol?

2. Llywodraethu a Gwneud Penderfyniadau

- Pa mor dda ydych chi'n teimlo eich bod wedi gallu paratoi ar gyfer cyfarfodydd?
- Ydych chi wedi gallu cyfrannu'n adeiladol at drafodaethau a phenderfyniadau?
- Allwch chi roi enghreifftiau o adegau pan wnaethoch chi ofyn cwestiynau effeithiol neu dreiddgar?
- Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo wrth roi egwyddorion llywodraethu ar waith (e.e. canolbwyntio ar strategaeth yn hytrach na gweithrediadau)?

- Ydych chi wedi herio'n adeiladol neu wedi gofyn am eglurhad mewn unrhyw sefyllfaoedd?
- Pa mor gyfforddus ydych chi'n teimlo gyda'r fframwaith llywodraethu (e.e. prosesau gwneud penderfyniadau, rolau, cyfrifoldebau)?
- Ydych chi wedi gallu cynnal y safonau ymddygiad disgwyliedig a bod yn esiampl i bobl eraill?

3. Goruchwyliaeth a Sicrwydd

- Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo wrth graffu ar berfformiad, cyllid a risg?
- Ydych chi wedi gallu herio'n adeiladol lle mae'r perfformiad neu'r ddarpariaeth wedi bod yn ddiffygiol?
- Ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn dehongli adroddiadau allweddol (e.e. dangosfyrddau perfformiad, cyllidebau, cofrestrau risg)?
- Allwch chi roi enghreifftiau o gwestiynau rydych chi wedi'u gofyn sydd wedi gwella sicrwydd neu eglurder?
- Ydych chi wedi cyfrannu at drafodaethau ar werth am arian neu flaenoriaethu?
- Oes meysydd (e.e. cyllid, archwilio, risg) lle byddai rhagor o gymorth neu hyfforddiant o gymorth i chi?

4. Effeithiolrwydd ac Ymddygiad

- Ydych chi wedi gallu bodloni'r disgwyliadau o ran presenoldeb ac ymrwymiad amser?
- Sut byddech chi'n disgrifio eich cyfranogiad mewn cyfarfodydd?
- Ydych chi wedi gallu cyfrannu'n fanwl ac yn adeiladol?
- Sut ydych chi wedi gweithio gydag Aelodau eraill a swyddogion?
- Ydych chi wedi cefnogi diwylliant cadarnhaol a pharchus mewn cyfarfodydd?
- Oes yna unrhyw rwystrau wedi effeithio ar eich gallu i gyfrannu'n llawn?
- Oes yna ffyrdd o gryfhau rhagor ar eich cyfraniad?

5. Ymgysylltu a Phartneriaeth

- Ydych chi wedi cael cyfleoedd i gynrychioli'r Awdurdod yn allanol?
- Ydych chi wedi ymgysylltu â chymunedau, rhanddeiliaid neu sefydliadau partner?
- Ydych chi wedi gallu bod yn gyswllt gyda'r awdurdod wnaeth eich penodi lle bo hynny'n berthnasol?
- Oes yna ffyrdd y gallem gryfhau'r ymgysylltiad â chymunedau neu bartneriaid?
- Oes yna feysydd gwaith y byddech chi'n hoffi cyfrannu'n fwy atynt? Os felly, pa rai?

6. Datblygiad Personol

- Pa hyfforddiant neu weithgareddau datblygu sydd wedi bod fwyaf defnyddiol i chi?

- Pa sgiliau neu wybodaeth ydych chi wedi'u datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf?
- Oes yna feysydd y byddech chi'n hoffi datblygu'n fwy ynddynt? Os felly, pa rai?
- Oes yna unrhyw rwystrau i'ch datblygiad y dylem fynd i'r afael â nhw?
- Beth yw'r ffordd orau i'r Awdurdod gefnogi eich datblygiad yn y rôl?

(B) EDRYCH I'R DYFODOL

I gloi'r drafodaeth:

- Oes amcanion penodol yr hoffech eu gosod ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod?
- Oes yna feysydd gwaith lle gellid gwneud mwy o ddefnydd o'ch sgiliau a'ch profiad?
- Fyddai gennych chi ddiddordeb mewn ymgymryd â rolau ychwanegol (e.e. gweithgorau, cadeirio, mentora)?
- Pa gefnogaeth gan yr Awdurdod fyddai'n eich helpu chi i fod mor effeithiol â phosibl yn eich rôl?

Ystyriwch a oes angen datblygu unrhyw feysydd penodol. Gallai'r rhain gynnwys:

- cryfhau gwybodaeth mewn meysydd fel cyllid, cynllunio neu oruchwylio risg
- cynyddu'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid
- cyfrannu at brosiectau neu weithgorau penodol.

Cytunwch flaenoriaethau'r dyfodol:

- unrhyw weithgareddau datblygu neu hyfforddiant
- amcanion posibl ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod
- cyfleoedd i ddefnyddio cryfderau'r Aelod yn fwy effeithiol.

(C) COFNODI'R CANLYNIAD

Ar ôl y drafodaeth:

- Cytunwch ar grynodeb byr o'r drafodaeth a'r camau datblygu.
- Bydd yr adolygydd a'r Aelod yn llofnodi ffurflen yr adolygiad.

Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn cadw copi er mwyn cynorthwyo:

- gwaith cynllunio datblygiad
- adrodd ar lefel yr Awdurdod
- parhad y broses.

(Ch) OS BYDD PRYDERON

Yn yr achosion prin hynny lle mae ymgysylltiad Aelod yn sylweddol is na'r disgwyliadau:

1. Dylai'r Cadeirydd drafod y mater yn anffurfiol gyda'r Aelod yn gyntaf.
2. Dylid cytuno ar gefnogaeth a disgwyliadau clir o ran gwella.
3. Os bydd y pryderon yn parhau, dylid cynnal sgwrs fwy ffurfiol ynghylch addasrwydd a pharhad yn y rôl.
4. Gallai diffyg gwelliant pellach olygu bod y mater yn cael ei gyfeirio at y corff wnaeth benodi'r Aelod.

CYFARFOD	Awdurdod
DYDDIAD	23 Medi 2026
TEITL	**Diweddariad Costau Prosiect Plas Tan y Bwlch**
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwyr Rheoli Tir
PWRPAS	Diweddaru Aelodau ar y cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a chyllideb y prosiect

1. CYFLWYNIAD

1.1. Cyflwynwyd cais Cyfnod Datblygu prosiect Plas Tan y Bwlch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (CDLG) ar ddiwedd Gorffennaf 2026. Disgwylir clywed canlyniad y cais ym mis Rhagfyr 2026.

1.2. Yn gynharach yn 2026, adroddwyd i'r Awdurdod bod amcan gwerth y prosiect a ganlyn:

	Cyfanswm Gwerth	**Cyfraniad arian cyfatebol APCE + Partneriaid**	**Swm grant CDLG**	**% Ymyrryd**
Cyfnod Datblygu	£550,000	£55,000	£495,000	90%
Cyfnod Cyflawni	£15,000,000	£3,000,000	£12,000,000	80%
Cyfanswm	£15,550,000	£3,055,000	£12,495,000	83%

1.3. Dyma'r ffigyrau a gyflwynwyd yn y datganiad o ddiddordeb i CDLG. Yn eu hadborth, gofynnodd CDLG i'r Awdurdod ystyried cynyddu'r uchelgais ar gyfer arian cyfatebol.

1.4. Yn y cyfnod cyn cyflwyno'r cais, derbyniwyd Cyngor pellach gan CDLG ar sut i gyfrifo cyllidebau chwyddiant ac arian wrth gefn y cynllun. Argymellwyd dylai cynlluniau cyfalaf, sylweddol, gydag elfen o waith adeiladu ystyried cynnwys cyllideb o hyd at 10% o'r costau ar gyfer y gyllideb chwyddiant a hyd at 25% o'r costau ar gyfer y gyllideb wrth gefn.

1.5. Dyma gynnydd aruthrol yn erbyn y ffigyrau gwreiddiol ac mae'r cyngor yn deillio o brofiadau diweddar CDLG lle mae costau prosiectau yn cynyddu yn sylweddol yn ystod y cyfnod cyflawni a chyrff yn gorfod dychwelyd at CDLG i ofyn am gynnydd yn y grant. Mae CDLG yn awyddus i ymgeiswyr ystyried y costau hyn ymlaen llaw a'u ffactorau i mewn i gostau'r prosiect.

1.6. Canlyniad hyn yw bod gwerth y prosiect yn y cais yn uwch na'r costau a amlinellwyd i'r Awdurdod yn flaenorol. Gweler y costau diwygiedig isod:

	Cyfanswm Gwerth	**Cyfraniad arian cyfatebol APCE + Partneriaid**	**Swm grant CDLG**	**% Ymyrryd**
Cyfnod Datblygu	£1,189,635	£237,927	£951,708	80%
Cyfnod Cyflawni	£17,093,797	£5,906,505	£11,187,292	65%
Cyfanswm	£18,283,432	£6,144,432	£12,139,000	66%

1.7. Golyga hynny fod costau'r cyfnodau datblygu a chyflawni yn uwch na rhagwelwyd a bod angen cadarnhau cyfanswm o £6,144,432 mewn arian cyfatebol.

1.8. Mae trafodaethau am arian cyfatebol eisoes ar y gweill gyda sawl partner a nifer o arianwyr. Mae CDLG yn disgwyl i APCE ystyried sut mae dyfodol y pencadlys presennol yn cyfrannu at gyllido prosiect Plas Tan y Bwlch. Nid oes disgwyl i APCE gadarnhau'r arian cyfatebol yn llawn tan y cyfnod cyflawni.

ARGYMHELLIAD:

1. **I Aelodau dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**
2. **I Aelodau gadarnhau a ydynt yn parhau yn gefnogol i'r prosiect, yng ngoleuni'r ffigyrau wedi'u hadolygu.**

GWEITHGOR AELODAU
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Mercher 24 Mehefin 2026

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru
Salamatu Fada, Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Wyn Thomas;

Swyddogion
Jon Cawley, Bethan Hughes, Keira Sweenie, Angela Jones, Jane Jones, Eifion Jones.

Cynghorodd y Darpar Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. **Cadeirydd**

Esboniodd y Darpar Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol mai'r drefn arferol oedd mai Is-gadeirydd yr Awdurdod oedd yn cadeirio cyfarfodydd y Gweithgor Aelodau. Cynigiwyd ac eiliwyd mai Is-gadeirydd yr Awdurdod fyddai Cadeirydd y Gweithgor Aelodau eto, ac etholwyd **Edgar Wyn Owen** yn Gadeirydd y Gweithgor Aelodau.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Louise Hughes ac Elfed Powell Roberts.

3. **Datgan Diddordeb**

Datganodd y Cynghorydd Annwen Hughes ddiddordeb personol heb fod yn ddiddordeb oedd yn rhagfarnu am Eitem 6 (Ymateb drafft i'r Ymgynghoriadau Ardoll Ymwelwyr Arfaethedig yng Nghyngor Conwy a Chyngor Gwynedd) am ei bod yn berchen ar dŷ gwyliau.

Datganodd y Cynghorwyr Elwyn Edwards a Nia Owen ddiddordeb personol heb fod yn ddiddordeb oedd yn rhagfarnu am Eitem 6 (Ymateb drafft i'r Ymgynghoriadau Ardoll Ymwelwyr Arfaethedig yng Nghyngor Conwy a Chyngor Gwynedd) am fod perthynas agos iddynt yn berchen ar dŷ gwyliau.

4. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 13 Mai 2026.

Mabwysiadwyd cofnodion y cyfarfod ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

5. **Newidiadau i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2026**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Adroddwyd:

- bod newidiadau wedi dod i rym ar 1 Mehefin 2026 gan gynnwys dosbarth newydd o ddatblygiad a ganiateid ar gyfer defnydd dros dro o dir ar gyfer gwersylloedd;
- bod eisoes hawl, o dan yr hen reoliadau, i wersylla ar dir gwersylla i fyny at 28 diwrnod y flwyddyn;
- o dan y gorchymyn newydd byddai hawl – y tu allan i'r Parc – defnyddio unrhyw dir fel gwersyll hamdden am gyfanswm o ddim mwy na 60 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr;
- byddai'r cyfanswm o fewn y Parc yn parhau'n 28 diwrnod;
- bod y gorchymyn yn caniatáu i gartrefi modur wersylla hyd at 28 diwrnod o fewn y Parc ond nad oedd yn caniatáu carafanau;
- mai diwygiad arall a allai fod yn berthnasol i'r Awdurdod oedd na chaniateid datblygu "ar dir o fewn 10 metr i annedd warchodedig ac eithrio at ddefnydd unrhyw ffordd breifat"; golygai hyn y gallai rywun oedd yn defnyddio tir dros dro ar gyfer gwersylla, a bod y tir hwnnw yn dod o fewn 100 metr i dŷ annedd, orfod cael caniatâd cynllunio;
- byddai'n rhaid i ddatblygwr, cyn dechrau'r datblygiad ym mhob blwyddyn galendr, wneud cais i'r Awdurdod am benderfyniad ynghylch a oedd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr Awdurdod ynglŷn â;
  - threfniadau ar gyfer cyfleusterau toiledau a dŵr gwastraff,
  - trefniadau ar gyfer cyfleusterau gwaredu gwastraff, a'r
  - dull mynediad arfaethedig i gerbydau i'r safle lle oedd y datblygiad i'w gyflawni;
- bod y broses gymeradwyaeth ymlaen llaw'n dir canol rhwng hawliau datblygu a ganiateid a cheisiadau am ganiatâd cynllunio.

Trafodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau a *nodwyd*:

- mai penderfyniad Llywodraeth Cymru yn y pen draw oedd gwahaniaethu rhwng y Parciau Cenedlaethol a lleoedd eraill, bod hwn i'w weld yn annheg yn erbyn busnesau o fewn terfynau'r Parc yng ngolwg rhai, a dylid gofyn i'r Llywodraeth ail-ystyried codi'r cyfanswm o ddyddiau o 28 i 60 o fewn y Parc fel mewn mannau eraill;
- bod peth ansicrwydd ynglŷn ag ystyr y 100 metr a nodid yn y gorchymyn – ai 10 metr o'r tŷ neu o'r cwrtil, a beth oedd ystyr "cwrtil" yn yr achos yma;
- nad oedd yna ystadegau ar y nifer o barciau/meysydd gwersylla oedd yn y Parc, ond o dan y drefn newydd byddai'n rhaid cyflwyno cais yn flynyddol a byddai'n bosib cael y ffigyrau wrth fynd ymlaen.

*Argymhellwyd***:** - nodi'r newidiadau, a gofyn i Lywodraeth Cymru godi cyfanswm y dyddiau a ganiateid i ddefnyddio unrhyw dir fel gwersyll hamdden o fewn tir y Parc o 28 diwrnod i 60 diwrnod y flwyddyn.

Penderfynwyd:— **derbyn** yr Argymhelliad.

6. **Ymateb drafft i'r Ymgynghoriadau Ardoll Ymwelwyr Arfaethedig yng Nghyngor Conwy a Chyngor Gwynedd**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Partneriaethau

Adroddwyd:

- bod Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Conwy'n ymgynghori ar gyflwyno ardoll ymwelwyr;
- mai deddf genedlaethol oedd sail yr ardoll arfaethedig, a bod manylion a gweithredu'r ardoll yn cael eu rheoli gan y ddeddf – nid gan Wynedd a Chonwy;
- mai amcan yr ymgynghoriadau oedd darganfod a oedd yr Awdurdod yn dymuno i ardoll o'r fath gael ei chyflwyno yng Ngwynedd a Chonwy;
- bod ymateb drafft yr Awdurdod yn dweud ei fod, yn y bôn, yn gefnogol i'r egwyddor o gyflwyno ardoll ar draws ardal y Parc, gan gydnabod yr heriau oedd ymwelwyr yn ei roi ar yr ardal a'r potensial o allu defnyddio'r ardoll i wella isadeiledd yr ardal;
- bod yr Awdurdod wedi croesawu'r amodau ar y gwariant, sef, y byddai'r arian a gesglid gan yr ardoll mewn gwirionedd yn cael ei ddefnyddio i wella isadeiledd yr ardal, ac y byddai'n rhaid i'r awdurdodau lleol ddangos yn flynyddol ble cafodd yr arian a gasglwyd gan yr ardoll ei wario;
- bod yr ymateb drafft hefyd yn croesawu'r gofyn i sefydlu fforwm lleol a fyddai'n cynghori ble fyddai'r arian yn cael ei wario (gan gydnabod mai cabinet yr awdurdod lleol perthnasol a fyddai'n penderfynu'n derfynol);
- bod yr ymateb hefyd yn pwysleisio'r angen i'w wneud yn hysbys a chyhoeddus i ble byddai'r arian yn mynd.

Trafodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau a *nodwyd*:

- byddai'r arian yn cael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru ond yr awdurdod lleol fyddai'n penderfynu ble'r âi'r arian; byddai 10% o'r arian yn mynd tuag at gostau rhedeg;
- ei fod yn ffordd o gyfrannu'n gadarnhaol at yr ardal ac i wella'r profiad o ddod yma – i'r trigolion lleol ac i ymwelwyr.
- byddai'n well ac yn haws petai'n cael ei weithredu ar draws Cymru;
- bod nifer o fusnesau wedi mynegi pryder y byddai'n darbwyllo llawer rhag ymweld â'r ardal;
- bod system ardoll debyg eisoes i'w gael mewn nifer o wledydd ar gyfandir Ewrop.

*Argymhellwyd***:** – bod yr Aelodau'n trafod yr argymhellion a adroddwyd gan swyddogion ar lafar ac yn cytuno ar ymateb drafft gan ychwanegu sylw i'r ymateb yn nodi dylid ymestyn yr ardoll i Gymru gyfan gan ei wneud yn haws i'w weithredu.

Penderfynwyd:— **derbyn** yr Argymhelliad.

7. **Adolygiad o'r Adroddiad ar Lwyth Achosion Cydymffurfiaeth a Pherfformiad**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Adroddwyd:

- bod Aelodau, yng nghyfarfod y Pwyllgor Mynediad Cynllunio ar 21 Ionawr 2026, wedi gwneud sylwadau ynghylch cynnwys a threfn yr adroddiad Llwyth Achosion a Pherfformiad Cydymffurfiaeth Cynllunio a oedd yn ei wneud yn anodd i'r Aelodau ei ddeall a'i graffu.
- bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn eleni i'r Awdurdod adrodd ar ddangosyddion perfformiad penodol am y tro cyntaf er 2018 ac ar effaith codi'r ffioedd cynllunio;
- mai'r cynnig felly oedd adrodd ar y ffigyrau hynny ar wahân a symleiddio'r adroddiad ar lwyth achosion cydymffurfiaeth a pherfformiad.
- gellid torri'r wybodaeth i lawr yn bellach pe dymunid – er enghraifft, yn ôl y math o gŵynion a dderbyniwyd, neu o ba ardaloedd y daeth y cwynion.

*Argymhellwyd***:** – bod yr Aelodau'n:

1. Nodi unrhyw sylwadau ar gynnwys y fformat adroddiad arfaethedig a
2. Rhoi argymhellion pellach ynghylch fformat neu gynnwys sydd ar goll.
3. Cytuno i adrodd ar ganfyddiadau dangosyddion perfformiad Llywodraeth Cymru ar wahân yn flynyddol yn dilyn eu cyhoeddi.
4. Caniatáu i swyddogion gynnwys gwybodaeth bellach yn yr adroddiad pe byddai hynny'n ddefnyddiol.

Penderfynwyd:— **derbyn** yr Argymhelliad.

8. **Cyflwyno System Adolygu Perfformiad a Datblygiad (APD) Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr

Adroddwyd:

- bod y system APD arfaethedig yn ganlyniad i argymhellion a wnaeth Archwilio Cymru yn eu hadroddiad yn 2024 ar Lywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol;
- bod yr adroddiad hwnnw'n tynnu sylw at bwysigrwydd cael trefniadau clir i ddeall sut oedd Aelodau'n cyfrannu at lywodraethu Parciau Cenedlaethol a sut gellid nodi a chefnogi eu hanghenion datblygu;
- bod y drafft cyntaf a dderbyniwyd yn feichus, ond bod y drefn wedi ei symleiddio a'i hysgafnhau ers hynny;
- mai'r bwriad oedd cynhyrchu trefn ddatblygiadol ac nid un arfarnol, un oedd yn hunan-asesiadol;
- bod y drefn yn cynnig ffordd i Aelodau eu hunain gynnig sut y gallent gyfrannu'n fwy at gyfeiriad strategol yr Awdurdod;
- na fyddai'n dod i rym tan ar ôl etholiadau lleol mis Mai 2027.

Trafodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau a *nodwyd*:

- byddai'r drefn arfaethedig yn cael ei thrafod gan swyddogion gweithredol y tri Pharc Cenedlaethol yn Seminar Aelodau Cymru Parc Bannau Brycheiniog oedd i'w gynnal ym mis Gorffennaf;
- ei fod yn rhywbeth i'w groesawu a'i fod yn braf cael arweiniad o'r fath;
- nad oedd yn eglur a fyddai unrhyw wybodaeth yn cael ei hadrodd yn ôl i'r Llywodraeth yn dilyn adolygiad, a byddai'n werth holi'r Llywodraeth am hynny;
- bod y dogfennau'n ailadroddus a bod angen eu golygu a'u symleiddio;
- nad oedd yr adolygiad yn sôn o gwbl am waith bob dydd Aelodau, dim ond cyfraniadau a wnaed yn y pwyllgorau ayyb, a dylid newid yr hunanasesiadau fel eu bod yn cynnwys gwaith cartref yr Aelodau hefyd.

Cytunwyd cyflwyno'r adroddiad er cymeradwyaeth yr Aelodau yng Nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi.

*Argymhellwyd***:** –

1. I'r Aelodau adolygu cynnwys y system APD yn Atodiad 1 a rhoi adborth yn ystod Cyfarfod y Gweithgor.
2. Yna bydd unrhyw adborth a ddarperir yn cael ei anfon yn ôl at Lywodraeth Cymru i'w adolygu.

Penderfynwyd:— **derbyn** yr Argymhelliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:10